

DEWIS ANORFOD

ACT I.

CYMERIADAU.

- HENRY HORATIO HOBSON : Perchen Siop 'Sgidiau yn Chapel Street, Salford.
 WILLIAM MOSSOP : Un o weithwyr Hobson.
 TIMOTHY (TUBBY) WADLOW : Foreman yng ngweithdy Hobson.
 ALBERT PROSSER : Cyfreithiwr ifanc a mab i gyfreithiwr blaenllaw.
 FREDDY BEENSTOCK : Mab siopwr yn cadw busnes yd a blawd.
 JIM HEELER : Cyfaill i Hobson.
 DR. MAC FARLANE : Meddyg.
 MAGGIE : } Merched Hobson.
 ALICE : }
 VICTORIA (VICKEY): }
 MRS. HEPWORTH : Boneddiges gyfoethog.
 ADA FIGGINS : Merch ifanc gyffredin.

Digwydd y Ddrama yn Salford, Lancashire, yng nghyfnod 1880.

- ACT I. : Siop Hobson yn Chapel Street, Salford.
 ACT II. : Yr un ag Act I.
 ACT III. : Cartref Will Mossop.
 ACT IV. : Yr ystafell fyw y tu cefn i siop Hobson.

GOLYGFA : (O safle'r chwaraewyr.)

Siop 'Sgidiau Hobson yn Chapel Street, Salford. Mae'r ffenestri a'r drws i'r heol ar y chwith. Yn wynebu'r edrychwyr saif y cownter ac arno dryblith o 'sgidiau o bob math. Ar y pared y tu cefn iddo, y mae rhesi o silffoedd yn llawn o "boxes" 'sgidiau. O flaen y cownter saif tair neu bedair o gadeiriau gwaiail (cane). I lawr y llwyfan ar y chwith y mae desc a chadair. Y mae'r drws a dau ris yn codi ato ar y dde yn arwain i'r ty. Yng nghanol y llwyfan y mae "trap-door" yn agor ar y seler—siop waith y cryddion.

Syml a diaddurn yw popeth yn y siop. Mae'r fusnes yn llewyrchus. Eithr yn Salford yn 1880, nid oedd y gwychter a'r rhwysg a nodwedda siopau y dydd heddiw yn anhepgor i lwyddiant masnachol. Arweinir cusmer pwysig i ffitio 'sgidiau yn ystafell fyw Hobson. Eithr eistedd y cyffredin ar y cadeiriau gwaiail sydd yn y siop dywyll ond addas i'r fusnes. Ni ddangosir ond ychydig o'r stoc yn y ffenestr a chloccsain (clogs) sy'n fwyaf lluosog ac amlycaf yno. Trwy'r ffenestr tywynna goleuni llachar hanner dydd.

Yn eistedd y tu cefn i'r cownter y mae dwy ferch ieuengaf Hobson, ALICE, ar y dde, 23 oed, a VICTORIA, ar y chwith, geneth brydferth iawn, 21 oed. Mae ALICE

DEWIS ANORFOD

a a VICTORIA yn darllen. Maent wedi ymwisgo du a chanddynt ffedogau duon. Egyr y drws ar y a daw MAGGIE i mewn. Merch hynaf Hobson dyw hi, yn 30 oed.

ALICE : O, y ti sydd 'na, Maggie. A minnau'n gobeithio mai nhad oedd ar ei sfordd allan.

MAGGIE : Camsyniad wnest ti. (*Mae'n croesi'r llwyfan ac yn eistedd wrth y ddesc ar y chwith*).

ALICE : Mae e'n hwyr y bore 'ma.

MAGGIE : 'Roedd e'n hwyr yn codi. (*Yn brysur wrth y llyfr cyfrifon*).

VICKEY (*yn darllen*) : Ydi e wedi cael brecwast, Maggie?

MAGGIE : Brecwast ! Ar ol cinio'r Clwb neithiwr?

VICKEY : Fe fydd arno eisiau rhywbeth i godi tipyn ar ei galon felly.

ALICE : Fe garwn i pe bai'n mynd i'w mofyn ar unwaith.

VICKEY : Wyt ti'n disgwyl rhywun yma, Alice?

ALICE : Ydw ; gwyddost hynny o'r gora. A byddaf yn ddiolchgar i chi eich dwy os gadewch y siop pan ddaw e.

VICKEY : Fe wna' i hynny drosot ti, Alice, os bydd nhad wedi mynd allan ; ond feiddia'i ddim gadael y siop cyn 'i fod e o'r golwg.

(*Daw ALBERT PROSSER i mewn o'r stryd. Mae e'n 26 oed, ac wedi ymwisgo'n drwsiadus fel y gwedda'i i fab cyfreithiwr o safle. Cerdda ymlaen i'r dde, a chwyd ei het yn foesgar i gysfarch ALICE*).

DEWIS ANORFOD

ALBERT : Bore da, Miss Alice.

ALICE : Bore da, Mr. Prosser (*yn gyfrinachol gan blygu dros y cownter*). Nid yw nhad wedi mynd allan eto ; mae e'n ddiweddar heddiw.

ALBERT : O !

(*Try i fynd allan ; y mae ar ei ffordd at y drws pan gwyd MAGGIE a dod i'r canol*).

MAGGIE : Beth gawn ni ddangos i chi y bore 'ma, Mr. Prosser?

ALBERT (*yn sefyll*) : Wel, wir, alla'i ddim dweyd imi ddod yma gyda'r bwriad o brynu dim heddiw, Miss Hobson.

MAGGIE : Cadw siop yw'n busnes ni, wyddoch, ac felly allwn ni ddim gadael i bobl fynd a dod yma heb brynu dim.

ALBERT : O'r gora : dewch â plâr o gareiau imi, os gwelwch chi'n dda. (*Yn symud i'r dde*).

MAGGIE : Beth yw "size" eich sgidiau chi?

ALBERT : "Eights." Troed fechan sydd genny'. (*Yn gwenu, ond gwel fod MAGGIE o ddifrif*). Ond wnaiff hynny ryw wahaniaeth i'r careiau?

MAGGIE (*yn gosod mat o flaen cadair ar y dde*) : Na ; ond hynny sy'n penderfynnu "size" y sgidiau. (*Yn ei wthio'n dawel i'r gadair*). Eisteddwch, Mr. Prosser.

ALBERT (*yn eistedd*) : O'r gora ; ond—

(*Y mae MAGGIE ar ei gliniau yn prysur ddatod ei esgid*).

MAGGIE : Mae'n bryd i chi gael pâr o sgidiau newydd. Mae y rhain yn rhy hên a diolwg i wr o'ch safle

DEWIS ANORFOD

Estyn bâr o " eights " imi o'r silff yna, Vickey, weli di'n dda.

ALICE (*yn dod ychydig ffordd tuag atynt*): Nid i brynu sgidiau y daeth Mr. Prosser yma, Maggie.

(*Daw VICKEY a'r " box " sgidiau ; egyr MAGGIE ef*).

MAGGIE : 'Sgwn i pam mae e'n dod i'r siop yma mor aml?

(*A ALICE yn ôl tu cefn i'r cownter*).

ALBERT : Un ofnadwy wy' i am dorri careiau, Miss Maggie.

(*Gesyd MAGGIE yr esgid newydd am droed ALBERT a'i chlymu*).

MAGGIE : A ydych yn treulio pâr o gareiau bob dydd? Mae'n rhaid eich bod yn gryf ofnadwy.

ALBERT : 'Rwy'n cadw stoc o honynt wrth law rhag ofn. Mae'n well bod yn barod i'r gwaetha'.

MAGGIE : A nawr bydd gennych sgidiau newydd i fynd gyda'r careiau, Mr. Prosser. Sut mae honna'n teimlo?

ALBERT : Yn gyfforddus iawn, wir.

MAGGIE : Treiwch chi ar eich sefyll.

ALBERT (*yn cerdded ychydig gamau*): Ydi; mae hi'n ffittio i'r dim.

MAGGIE : Gadewch imi wisgo'r llall i chi.

ALBERT : O, na'n wir; does arna'i ddim eisiau pâr o sgidiau newydd ar hyn o bryd.

MAGGIE (*yn ei wthio'n ôl i'r gadair*): Eisteddych, Mr. Prosser. Allwch chi ddim mynd allan i'r stryd felna, un hên esgid sâl ac un esgid newydd, smart, am eich traed.

DEWIS ANORFOD

(*Daw ALICE tuag atynt drachefn*).

ALBERT : Wel, beth yw pris y rhain, ynte?

MAGGIE : Punt.

ALBERT : Punt! ond—

MAGGIE : Ond mae nhw'n sgidiau da, Mr. Prosser. Ac ni bydd rhaid i chi dalu am gareiau heddiw. Fe gewch bâr o gareiau newydd yn y fargen, careiau rhawn, bid siwt. (*A VICKEY yn ôl tu cefn i'r cownter*). Ond gan eich bod mor gryf ac yn torri cynifer, falle bydd yn well gennych gael careiau lledr. Gallwch eu cael, wrth gwrs, ond fe gostia rheiny ddwy geiniog yn rhagor i chi.

ALBERT : Fe wna—fe wna y rhain y tro, diolch.

MAGGIE : O'r gora; a gwel i chi adael yr hên bâr yma i'w cywiro. Danfonaf hwynt i'ch tŷ chi fory gyda'r bil.

(*Erbyn hyn y mae MAGGIE wedi clymu'r esgid arall. Cwyd a cherddu yn ôl at y ddesc gan daflu'r " box " gwag at VICKEY. Dyry hithau sgrech wedi ei brawychu ar ganol darllen ei llyfr*).

ALBERT (*gydag ochenaïd*): Pe buasai rhywun wedi dweyd wrthyf fy mod yn dod i mewn yma i wario punt buaswn wedi ei alw'n ffwl.

MAGGIE : Nid ydych wedi gwastraffu punt, coeliwch fi. Fe bery'r sgidiau yna'n hir, cewch weld. Bore da, Mr. Prosser. (*Daw ymlaen i agor y drws iddo*).

ALBERT : Bore da. (*Sylla'n wirion ar ALICE ac â allan*).

ALICE : Wel, Maggie, gwyddwn yn dda dy fod yn fenyw o fusnes, ond ar 'y ngair i—

MAGGIE (*yn dychwelyd i'r dde, yn codi'r hên sgidiau gosod ar silff, ar y dde*): Dyna wers iddo gadw ddiyma am dipyn. Mae ganddo ormod o amser i'w wastraffu.

ALICE: Fe wyddost pam mae e'n dod yma.

MAGGIE: Gwn y dylai dalu rhent am gael treulio cymaint o amser yma. Nid yw pris un pâr o gareiau yn hanner digon. Dod yma i sylu'n wirion arnat ti y mae e. Rwy'i wedi diflasu ar 'i weld e'. (*Yn croesi o flaen y cownter i'r chwith*).

ALICE: Mae o'r gora i hên ferch fel ti i siarad, ond gan fod nhad yn anfodlon inni fynd allan gyda bechgyn ifainc, ymhle arall y gall Albert a minnau gwrdd ond yn y siop pan fydd nhad ei hunan allan?

MAGGIE: Os yw e am dy briodi di, pam na wnaiff e hynny?

ALICE: Rhaid caru cyn priodi.

MAGGIE: Does dim rhaid iddi fod felly. (*Yn gafael mewn esgid ffasiynol sydd ar y ddesc*). Welï di'r bwcwl mawr gloyw ar yr esgid fach yma? Mae caru fel y bwcwl yma, merch i; rhywbeth gloyw ond hollol ddiangenrhaid. (*Dyry'r esgid yn ôl ac eistedd wrth y ddesc*).

(*Daw HENRY HORATIO HOBSON i mewn i'r tŷ. Mae yn 55 oed, yn hunan-ddigonol, yn wridgoch a graenus, ac yn engraifft byw o ben-teulu'r cyfnod. Mae ei het ar ei ben, het galed hanner y ffordd at fod yn het uchel. Addurnir ei wasgod a chadwyn aur drom a sêl fawr yn crogi wrthi. Dillad taclus a ddeil eu gwisgo sydd am dano*).

HOBSON: Maggie, rwy'n mynd allan am ryw chwarter awr. (*Yn symud i gyfeiriad y drws ar y chwith*).

MAGGIE: O'r gora, nhad; ond peidiwch â bod yn ddiweddar i ginio. Afu sydd yma i ginio heddiw.

HOBSON: Mae awr o amser cyn cinio. (*Yn mynd*).

MAGGIE: Os arhoswch chi fwy nag awr yn Y Bedol, fe fyddwch yn ddiweddar.

HOBSON: Y Bedol? Pwy ddwedodd —? (*yn trosi*).

VICKEY: Os bydd eich cinio wedi diflasu, arnoch chi y bydd y bai.

HOBSON: Wel; wel, myn —

ALICE: Peidiwch â rhegi, nhad.

HOBSON (*yn dodï ei het ar y cownter*): Na. Yn hytrach na rhegi fe eistedda'i i lawr. (*Cymer y gadair fawr ychydig i'r dde o ganol y llwyfan*). Nawr, gwrandewch arna'i, chi'ch tair. Rwy'i wedi gwneud fy meddwl i fyny. Chymra'i ddim ordors gennyh chi. Beth nesa', tybed? Mae digon o chwant arna'i roi eitha gwers ichi bob un.

MAGGIE: Rwy'n siwr fod Mr. Heeler yn aros am danoch yn Y Bedol, nhad.

HOBSON: Gad iddo aros. Ar hyn o bryd rwy'i am gael gair â'r merched ffroen-uchel sydd yn fy nhŷ fy hun, a mae'n rhaid i chi wrando arna'i. Byth er pan fu'ch mam farw, rydych chi wedi ymroi i ennill y llaw ucha' arna'i.

VICKEY: Nhad, cewch fwy o hamdden i siarad â

DEWIS ANORFOD

ni wedi inni gau'r siop heno. (*Mae hi'n awyddus i ddarllen*).

HOBSON : Rwy'i'n siarad nawr, a chwithau'n gwrando. Fe drefnodd Rhagluniaeth i chi gael eich amddifadu o gyfarwyddyd eich mam yn yr adeg pan mae merched dibriod yn mynd yn ffroen-uchel ac yn mynnu cael rheoli rhywun. Ond cymrwch chi hyn genny', chewch chi ddim rheoli arna'i.

VICKEY : Rwy'n siwr nad ydw'i ddim yn ffroen-uchel, nhad.

HOBSON : Wyt, yr wyt ti. Rwy't yn ferch brydferth ond yr wyt yn ffroen-uchel, a mae merch ffroen-uchel mor atgas imi a chyfreithiwr.

ALICE : Os awn ni i'r drafferth o baratoi bwyd i chi nid arwydd ein bod yn ffroen-uchel yw gofyn i chi beidio â bod yn ddiweddar i ginio.

VICKEY : Rhoi a chymryd yw hanes pawb, nhad.

HOBSON : Ond y fi sy'n rhoi a chwithau'n cymryd, a rhaid cael pen ar hynny.

MAGGIE : Faint o gyflog ydych chi'n roi inni ?

HOBSON : Does a wnelo hynny ddim â'r mater (*yn codi ac yn symud at y drws*). Merched ffroen-uchel yw'r pwnc o dan sylw ar hyn o bryd, a rwy'n eich rhybuddio bod yn rhaid i chi newid yn hollol yn eich ymddygiad tuag at eich tad. (*Yn troi at y cownter*). Ac nid dim ond hynny yn unig. Peth o fewn cylch y teulu yw hynny. Rwy'i am son nawr am rywbeth arall, eich ymddygiad yn y cyhoedd. Rwy'i wedi sylwi ar 'mhlant yn cerdded y strydoedd ac wedi gwrido o gywilydd. Mae enw da Hobson wedi ei lychwino gan

DEWIS ANORFOD

aelodau o deulu Hobson ei hun, a balchder ffroen-uchel yw'r achos o hynny.

VICKEY : Wn i yn y byd beth ydych chi'n feddwl.

HOBSON : Rwy't yn dlos, Vickey, ond fe alli dithau ddweyd celwydd fel "gas-meter." Pwy oedd yn gwisgo dillad newydd yr wythnos ddiwetha ?

ALICE : Rydych yn cyfeirio at Vickey a mi, debig.

HOBSON : Ydw.

VICKEY : Fe wisgwn ni fel y mynnom, nhad, waeth i chi heb wastraffu'ch anadl.

HOBSON : Dwy'i ddim wedi aros i mewn y bore yma ac esgeuluso "business appointments" er mwyn arbed fy anadl.

VICKEY : Ond rydych yn hoffi 'ngweld i wedi gwisgo'n neis.

HOBSON : Ydw : rwy'n hoffi gweld fy merched wedi eu gwisgo'n neis. (*Yn croesi i'r ade*). Dyna pam rwy'n talu deg punt ar hugain bob blwyddyn i Mr. Tudsbury, y Draper, i'ch dilladu chi'n weddus. Mae hynny'n llonder i'r llygad ac yn fantais i fasnach. Ond dealwch hyn, pe gallasai rhai merched weld eu hunain fel mae dynion yn eu gweld, buasent yn cael "shock" ofnadwy. Ac fe fynna'i air â Tudsbury am adael i chi ddewis gwisgoedd fel bwganod. (*Yn symud i'r chwith*). Fe'th welais di ac Alice drwy ffenestr parlwr Y Bedol nos Iau, a dyna 'nghyfaill Sam Minns— (*yn troi*).

ALICE : Tafarnwr !

HOBSON : Ie, tafarnwr. Ond dyn cywir, cofia, mor gywir a gonest ag undyn a godwyd gan Ragluniaeth i

tafarn, merch i. Dyna 'nghyfaill, Sam Minns yn
yn imi pwy yn y byd oeddech chi. Pa ryfedd!
oeddech yn cerdded i lawr Chapel Street a chlap
mawr na luniwyd erioed gan natur ar waelod eich cefn.

ALICE (*yn protestio*): Nhad!

HOBSON: Ac roedd y clap yn siglo wrth i chi
gerdded a chwithau'n sangu ar y ddaear fel pe buasai
llog-eira ar eich traed, ie, eich penliniau yn gwegian
o'tanoch chi, ond a'ch pennau yn y gwynt yn warsyth
a ffroen-uchel. Digywilydd-dra noeth!

ALICE: Na, nid digywilydd-dra, nhad; ond dyna'r
ffasiwn—i wisgo" bustles."

HOBSON: Ffasiwn y diawl, ddweda'i.

MAGGIE: Nhad, nid yn Y Bedol rydych chi 'nawr.

VICKEY: Fe ddylech sylwi sut y mae boneddigesau
eraill yn gwisgo. (*Yn codi*).

HOBSON: Os ydyn' nhw rhywbeth yn debig ichi
gwel genny' beidio. Rwy'i'n ddynd bucheddol. Hob-
son yw fy enw, aelod o'r dosbarth canol, asgwrn cefn
ac addurn Teyrnas Loegr. Rwy'i'n sefyll dros synnwyr
cyffredin a gonestrwydd barn. Rydych chi'n fursen-
naidd, a dyw hynny na synnwyr cyffredin na gonest-
rwydd. Rydych chi wedi peidio â gwisgo yn addas ac
yn ceisio bod yn smart—(*mae VICKEY yn eistedd*)—
nodweddiion ffyliaid a phobl ddisens. Rydych chi'n
anghofio urddas masnach a rhagoriaethau y Wladwr-
iaeth Brydeinig, pethau sy'n dibynnu ar sefydlogrwydd
meddwl y dosbarth canol, ynghyd â diwydrwydd y
dosbarth gweithiol. Ond am danoch chi, rydych chi'n
gwyro mewn barn; rydych chi'n gosod pethau di-

werth o flaen pethau hanfodol. Os ydych am lanw
eich lle ym mywyd Lancashire, os ydych am gadw eich
lle yn nhŷ Hobson, rhaid ichi ddangos synnwyr
cyffredin.

VICKEY: Ydych am inni wisgo fel merched y
ffatriss?

HOBSON: Na, na fel merched Ffrainc chwaith.
Dyw hynny ddim yn weddus yn y wlad hon.

ALICE: Fe ddaliwn ni i wisgo yn ol y ffasiwn, nhad.

HOBSON: O'r gora. Dyma fi yn rhoi eich dewis
i chi'ch dwy, ti Vickey ac Alice. Rhaid i chi ddangos
synnwyr cyffredin os ydych i aros yn y tŷ hwn; dim
rhagor o'r balchder ffôl yna sydd wedi gafaél ynoch chi.
Os nad ydych yn fodlon ar hynny cewch fynd oddiyma,
a cheisio rhywun arall i ddiode'ch ffolineb chi. Dych
chi ddim yn sylweddoli byd mor dda sydd arnoch chi;
ond fe ddowch i wybod pan fydda'i wedi gorffen â chi.
Fe ddewisa'i bob o'wr i chi, dyna beth wna'i.

ALICE: Allwn ni ddim dewis gwŷr inni ein
hunain?

HOBSON: A minnau wedi bod am y pum munud
diwetha 'ma yn dweyd wrthy'ch nad ydych yn ffit i
ddewis hyd yn oed eich dillad eich hunain!

MAGGIE: Mae gennych lawer i'w ddweyd wrth
Vickey ac Alice, nhad. Beth am dana' i?

HOBSON: Y ti? (*Yn troi i edrych arni mewn
syndod*).

MAGGIE: Os ydych yn dewis gwŷr iddyn' nhw, oes
gennych un mewn golwg imi?

DEWIS ANORFOD

HOBSON: Wel—beth nesa—(yn chwertlin). Gŵr i ti? (O flaen y ddesc).

MAGGIE: Pam lai?

HOBSON: Pam lai? Roeddwn yn credu bod digon o sens gennyti i wybod pam. Ond os wyt ti am y gwir plaen, rwyti'n rhy hên i briodi. Hên ferch wyt ti, Maggie, os bu un erioed.

MAGGIE: Rwy'n ddeg-ar-hugain.

HOBSON (yn ei hwynebu): Wyt, yn ddeg-ar-hugain ac ar y silff bellach. Wel, all pob merch ddim cael gŵr. Ond y chi'ch dwy, nawr. Rwy' i wedi'ch rhybuddio chi; dim rhagor o'r balchter ffôl 'ma neu fe ffeindia'i wŷr i chi. Dewiswch chi sut mae hi i fod.

(Yn cymryd ei het ac yn mynd tua'r drws).

MAGGIE: Cinio am un o'r gloch, nhad.

HOBSON: Aros di, Maggie—(yn ôl o flaen y ddesc). Y fi sydd i benderfynu'r amseroedd yn y tŷ yma. Mae cinio am un, am mai fi sy'n dweyd hynny ac nid y ti.

MAGGIE: Ie, nhad.

HOBSON: Os yw hynny'n glir, fe a'i nawr. (Mae wrth y drws). O, darro! Alla'i ddim mynd. Dyma Mrs. Hepworth yn disgyn o'i cherbyd. (Yn gosod ei het ar y counter etc. Cwyd MAGGIE i agor y drws. Daw Mrs. HEPWORTH i mewn, hên foneddiges ydyw, dipyn yn sŵta ei ffordd ac wedi ei gwisgo yn wych) Bore da, Mrs. Hepworth. Dyma ddiwrnod braf, ynte! (Yn trefnu cadair iddi ar y dde).

Mrs. HEPWORTH (yn eistedd yn y gadair fawr): Bore da, Hobson. (Cwyd ymyl ei sgeri). Rwy'i wedi galw ynghylch yr esgidiau yma a anfonwyd imi.

DEWIS ANORFOD

HOBSON (ar ei liniau ac yn teimlo ei throed. Saif MAGGIE yn y canol): Ie, Mrs. Hepworth, dyma bert mae nhw'n edrych.

Mrs. HEPWORTH: Codwch, Hobson. (Cwyd gan ffrwyno ei deimladau). Rydych yn edrych mor hurt ianna ar y llawr. Pwy wnaeth yr esgidiau yma?

HOBSON: Y ni. Ein gwaith ni ydyn' nhw.

Mrs. HEPWORTH: A wnewch chi ateb cwestiwn plaen? Pwy wnaeth yr esgidiau yma?

HOBSON: Gwnaethpwyd hwy yn y siop yma, Ma'am.

Mrs. HEPWORTH (wrth MAGGIE): Merch i, cefais yr argraff bod gennych chi rywfaint o sens pan brynais y rhain gennych. A allwch chi fy ateb?

MAGGIE: Gallaf; ond carwn fod yn sicr, Mrs. Hepworth. (Egyr y "trap-door" a gweidda) "Tubby."

HOBSON (ar y dde): Yr ydych am weld y gweithiwr a luniodd yr esgid yma, Ma'am.

Mrs. HEPWORTH: Ydw.

HOBSON: Y fi sy'n gyfrifol am yr holl waith a wneir yma.

Mrs. HEPWORTH: Ddwedais i ddim am hynny.

(Daw TUBBY WADLOW i fyny—dyn bach, penwyn, aflunaid a choesau byrion, mewn dillad brunt, a heb goler ac yn llwysy ei grys cotwm lliw).

TUBBY: Ie, Miss Maggie. (Saif a'i hanner yn y gotwg heb ddod i ben y grisiau).

Mrs. HEPWORTH: Y dyn, ai y ti wnaeth yr esgidiau yma? (Cwyd a daw gam ymlaen ato).

TUBBY: Nage.

DEWIS ANORFOD

MRS. HEPWORTH : Wel, pwy ynte? A oes raid imi holi pob enaid byw yn y lle yma cyn cael clywed? (*Yn edrych o gwmpas*).

TUBBY : Gwaith Willie yw rheina.

MRS. HEPWORTH : Wel dwed wrth Willie fy mod i am i weld e.

TUBBY : O'r gora, Ma'am, ar unwaith. (*Dislanna a geirh*) "Willie."

MRS. HEPWORTH : Pwy yw Willie?

HOBSON : Willie Mossop, Ma'am. Ond os oes rhywbeth allan o le arnynt, rwy'n eich sicrhau y gwna'i i'r cnaf ddiodde. Fe—

(*Daw WILLIE MOSSOP i fyny—dyn tal, afrosgo tua 30 oed. Dyry'r argraff bod ei feddwl nid yn bâl, ond heb ddatblygu oherwydd cyni bore oes. Sylweddolir gan y craff fod ynddo rywbeth deniadol a chyneddjau gloyw yn aros i'w deffro. Mae ei ddillad hytrach yn fwy di-raen nag eiddo* TUBBY. *Daw i fyny hanner y ffordd*).

MRS. HEPWORTH (*ar y dde wrth y "trap-door"*) : Ai y ti yw Mossop?

WILLIE : Ie, mum.

MRS. HEPWORTH : Y ti wnaeth yr esgidiau yma?

WILLIE (*yn craffu arnynt*) : Ie. Y fi'u gwnaeth nhw yr wythnos ddiwetha.

MRS. HEPWORTH : Cymer hwn. (*Gostwng WILLIE ei ben yn sydyn gan gredu mai dyrnod fyddai "hwn." Yna cwyd ei ben a gwel ei bod hi'n dal cerdyn yn ei llaw. Cymer ef*). Edrych beth sydd arno.

WILLIE (*yn syllu ar y cerdyn*) : Rhyw ysgrifen?

MRS. HEPWORTH : Darllen hi.

DEWIS ANORFOD

WILLIE : Rwy'n ceisio gwneud hynny. (*Yn symud ei wefusau wrth geisio sillafu'r geiriau*).

MRS. HEPWORTH : Bendith arnat! Fedri di ddim darllen?

WILLIE : Rwy'n medru darllen tipyn bach. Ond print od iawn yw hwn.

MRS. HEPWORTH : Llythrennau italaidd yw 'rheina fel ag sydd ar bob cerdyn. Nawr gwrando arna' i. Clywais am y siop yma a phenderfynais ddod i brynu esgidiau. Rwy'n lled barticular ynglŷn â'm hesgidiau.

HOBSON (*yn symud tuag ati*) : Gallaf eich sicrhau na chaiff y fath beth ddigwydd eto, Mrs. Hepworth.

MRS. HEPWORTH : Pa beth?

HOBSON : Y-y-wn i ddim.

MRS. HEPWORTH : Wel, dal dy dafod ynte. Mossop, rwy' i wedi treio pob siop ym Manchester, a dyma'r pâr gorau o esgidiau fu erioed am 'y nhraed i. Nawr y ti sydd i wneud fy esgidiau i i gyd o hyn allan. Wyt ti'n clywed hynny, Hobson?

(*Mae MAGGIE ar y chwith yn gwrando'n astud*).

HOBSON : Ydw, Ma'am; caiff wrth gwrs.

MRS. HEPWORTH : A chofia di gadw'r cerdyn yma, Mossop, a phaid ti â beiddio gadael y siop yma a mynd i un arall heb roi gwybod imi ymhle i'th gael di.

HOBSON : O, aiff e byth i siop arall.

MRS. HEPWORTH : Sut y gwyddost ti? Gweith-iwr penigamp yw'r dyn a digon tebig nad wyt ti'n talu hanner digon o gyflog iddo.

DEWIS ANORFOD

HOBSON : Dyna i gyd, Willie. Fe alli di fynd nawr.

WILLIE : O'r gora, syr. (*Dislanna, a chaua Maggie y drws ar ei ôl*).

MRS. HEPWORTH : Mae fel cwnigen.

MAGGIE : A ydych yn dymuno rhoi order am bâr arall o sgidiau, Mrs. Hepworth?

MRS. HEPWORTH : Ddim eto, merch i. Ond rwy'n meddwl anfon fy merched yma. A chofiwch chi, y dyn yna sydd i wneuthur yr esgidiau. (*Yn croesi i'r chwith*).

MAGGIE (*yn agor y drws*) : Wrth gwrs, Mrs. Hepworth.

MRS. HEPWORTH : Bore da.

HOBSON : Bore da, Mrs. Hepworth. Rydym yn falch o'r anrhydedd o'ch gwasanaethu (*yn ei dilyn*). (*A hi allan*). (*Yn llidiog*) : Fe garwn i pe byddai rhai pobl yn meindio eu busnes. Beth yn y byd oedd eisiau iddi ganmol gweithiwr i'w wyneb?

MAGGIE : Am ei fod yn haeddu hynny, debig genny'.

HOBSON : Yn haeddu hynny. Twt lol! Gwnaiff iddo feddwl gormod ohono ei hun. Dyna beth a ddigwydd. Dyma'r tro olaf iddi gael dod i'r siop yma, rwy'n rhoi 'ngair i chi.

MAGGIE : Peidiwch â bod mor ffôl, nhad.

HOBSON : Fe gaiff hi weld. Mae'n meddwl mai hi biau'r ddaear am ei bod yn byw yn y Plas.

(*Daw JIM HEELER i mewn o'r stryd; groser ydyw a chyfaill mynuesol HOBSON*).

DEWIS ANORFOD

JIM (*yn edrych i lawr y stryd wrth ddod i mewn*) : Peth newydd ynte!

HOBSON (*yn troi yn sydyn*) : Yh? O, bore da, Jim.

JIM : Rwy't yn 'i gwneud yn dda os ydi'r gwyr mawr yn dechrau dod i brynu genny't. (*Yn symud i'r canol ar y chwith*).

HOBSON : Beth?

JIM : Onid Mrs. Hepworth oedd honna?

HOBSON : O, ie, mae Mrs. Hepworth yn gwsmer imi ers blynnyddoedd.

JIM : Rhyfedd iawn fod teulu'r Plas yn delio yma a thithau heb son gair am hynny erioed.

HOBSON : Fachgen, rwy' i wedi bod yn gwneuthur sgidiau iddi hi a'r teulu ers—wel, ers pryd, Maggie? Wn i ddim.

JIM : Rwy't wedi cadw'r peth yn dawel iawn, ta beth. Wel, wyt ti ddim yn dod allan? (*Yn symud i'r chwith*).

HOBSON (*yn estyn am ei het*) : Y'dw. Hynny yw, nagw.

JIM : Wyt ti'n sal?

HOBSON : Nagw i. Off â chi, ferched. Fe ofala'i am y siop. Rwy' i am gael gair â Mr. Heeler,

JIM : Alli di ddim siarad â mi yn Y Bedol?

(*A'r merched allan ar y dde i'r tŷ, a MAGGIE'n olaf*).

HOBSON : A Sam Minns a Denton a Tudsbury yno?

JIM : O—rhywbeth cyfrinachol sydd genny't ti. Beth sy'n bod, Henry?

HOBSON : *Y nhw (gan bwytio at ddwrws y tŷ).* Ydi fy ferched di yn dy flino, Jim?

JIM : Nagyn'; mae nhw'n lled ufudd ar y cyfan; ac os nad yn 'nhw, mae'r wraig acw yn'u rhoi yn'u lle.

HOBSON : Jim bach, mae gwraig yn handi dros ben a 'dyw dyn ddim yn sylweddoli hynny nes iddo ei cholli. Roeddwn i'n teimlo dipyn yn ddiolchgar am y tawelwch a'r llonydd pan aeth Mary druan i orffwys; ond rwy'n gallu gweld 'y nghamsyniad nawr. Roeddwn yn arfer meddwl mor anodd oedd rhoddi taw arni pan oedd wedi gosod ei bryd ar gael rhywbeth. Ond mae bod dan law un fenyw yn nefoedd wrth fod dan lywodraeth tair.

JIM : Mae'n galed arnat, Henry bach.

HOBSON : Rwy'n un ffraeth wrth natur, Jim. Fe wyddost ti hynny.

JIM : Rwy't yn gryn areithiwr, Henry. Rwy'n amau a all John Bright ei hun dy drechu fel areithiwr.

HOBSON : Taw a'th lol, da ti, Jim. Does dim eisiau gweniaith arna' i.

JIM : Wel, y ti sy'n gallu dadleu orau e bawb ym mharlwr Y Bedol.

HOBSON : Alla' i ddim gwadu hynny. Fe wyddost, Jim, fy mod yn siaradwr go lew ym marn fy nghymdogion. Ond ym marn fy merched fy hun, Jim, dwy'i ddim ond symbal yn tincian. (*Yn codi ac yn cerdded i'r chwith*).

JIM : Y ti! Taw son!

HOBSON : Dyna'r gwir iti. (*Yn trosi*). Mae nhw'n gwawdio fy holl ddoethineb. Mae nhw'n ateb yn ol. Rwy' i mewn profedigaeth lem, Jim, mae fy merched fy hun yn feistriaid arna' i.

JIM : Mae merched yn waeth na ni'r dynion yn hynny o beth.

HOBSON : Mae ffolineb merched y tu hwnt i ddirnadaeth dyn.

JIM : Eisiau meist'r sy arnyn' nhw.

HOBSON : Rwy'i wedi gweiddi fy shâr arnynt.

JIM : Paid â gweiddi arnynt, gofala, Henry. Dim ond sw'n yw hynny. Cystal iti geisio gorchfygu llu o elynion drwy guro'r drwm yn lle defnyddio arfau haiarn. Tipyn o haiarn yng nghymeriad dyn sy'n rheoli'r menywod.

HOBSON : Rwy' i wedi treio bob ffordd, ond dwy' i ddim gwell. Wn i ddim beth i'w wneud. (*Yn crafu ei ben*).

JIM : Paid â gweiddi rhagor arnyn' nhw, ta beth; myn wŷr iddyn' nhw. (*Yn codi*).

HOBSON : Rwy'i wedi bod yn meddwl am hynny. Ond ymhle alla' i ddod o hyd i'r gwŷr?

JIM : Mae digon o ddynion i'w cael. Wyt ti'n edrych am angylion mewn trowsus?

HOBSON : Wel, yn wir, fe leiciwn i i'm merched briodi dynion sobr, teidi.

JIM : Paid ti â gofyn am ormod, Henry. All'i di ddim fforddio bod yn rhy barticular a thithau â thair o ferched ag eisiau gwŷr arnyn' nhw.

HOBSON : Dwy, Jim, dwy.

DEWIS ANORFOD

JIM : Dwy?

HOBSON : Tipyn o ornaments i ddenu'r llygaid i'r siop yma yw Vickey ac Alice. Ond mae Maggie yn rhy ddefnyddiol imi ei cholli. A mwy na hynny, mae hi braidd yn hên i feddwl am briodi.

JIM : Rwy' i wedi'u gweld nhw'n priodi yn ddwy-waith i hoedran hi. Ond dyna, a'i gadael hi allan, mae gennyf ti ddwy wedyn.

HOBSON : Fe wna un y tro i gychwyn, Jim. (*Yn croesi i'r dde*). Rwy' i wedi sylwi ar hyn, os bydd un briodas mewn teulu, mae'r lleill i gyd yn cael y dwymyn.

JIM : Wel, rwyf yn edrych am ddyn, a dyn sobr. Fe gostia hynny dipyn iti, wyddost. (*Yn eistedd wrth y counter ar y chwith*).

HOBSON (*yn mynd ato*) : Yh? O, fe fydda' i'n eitha bodlon doddi'm llaw yn y mhoced i dalu am briodas wych iddyn' nhw.

JIM : Bydd yn rhaid i wr cefnog fel y ti wneud mwy na hynny. Rhaid iti setlo rhywbeth ar y merched.

HOBSON : Setlo rhywbeth arnyn' nhw? Beth wyt ti'n feddwl?

JIM : Ie—rhoi abwyd ar y bâch i ddal y pysgodyn, Henry.

HOBSON : Os felly, dwy' i ddim yn mynd i bysgota. (*Yn eistedd*).

JIM : Ond fe ddwedaist—

HOBSON : Rwy' i wedi newid 'y meddwl. Roeddwn i wedi meddwl mwynhau tipyn o heddwch, ond mae yna rai pethau sy'n costio'n rhy ddrud. Setlo rhywbeth arnyn' nhw'n wir!

JIM : Roedd gennyf ddyn iti mewn golwg.

DEWIS ANORFOD

HOBSON : Cadw fe, Jim. Fe a'i mlaen fel rwy' i. Setlo rhywbeth arnyn' nhw'n wir.

JIM : Fydd dim rhaid iti eu cadw ar ol iddyn' nhw briodi.

HOBSON : Mae nhw'n ennill'u bwyd wrth ofalu am y siop. Does yr un o honyn' nhw yn bwyta llawer.

JIM : A beth am eu cyflog?

HOBSON : Cyflog? Wyt ti'n meddwl 'mod i'n talu cyflog i'm merched fy hun. (*Yn cerdded at y ddesc*). Nid ffwl wy' i.

JIM : Dyna ben ar y mater, ynte. (*Yn codi*).

HOBSON (*yn troi*) : Roedd yn ben ar y mater y foment y soniaist am setlo rhywbeth arnyn' nhw. Gad inni fynd i lawr i'r Bedol ac anghofio fod y fath beth â menyw yn bod. (*Cymer ei het, a chana'r gloch sydd ar y counter*). Siop! Siop! (*Daw MAGGIE i mewn*). Rwy'n mynd allan, Maggie.

MAGGIE (*Erys wrth y drws*) : Mae cinio am un, cofiwch.

HOBSON : Fe fydd cinio pan ddo' i i mewn i'w fwyta. Y fi yw'r mcistr yma. (*Mae ar fynd*).

MAGGIE : Ie, nhad. Un o'r gloch.

HOBSON : Dere mlaen, Jim.

(*A JIM a HOBSON allan i'r stryd. Try MAGGIE i ddweyd drwy'r drws ar y dde*).

MAGGIE : Cinio am hanner awr wedi un, ferched. Fe rown hanner awr extra iddo. (*Mae'n cau'r drws ag yn symud at y "trap-door"*). Willie, tyrd yma. (*Ymddengys WILLIE a saif hanner y ffordd i fyny'r grisiau*).

DEWIS ANORFOD

- WILLIE : Ie, Miss Maggie ?
- MAGGIE : Tyrd i'r lan a chau y drws yna. Rwy' i gael gair â thi. (*Daw yntau o'i anfordd*).
- WILLIE : Rydym yn brysus iawn yn y gweithdy. (*Mae MAGGIE yn pwynio at y "trap-door" ac yntau yn ei gau*).
- MAGGIE : Dangos dy ddwylo imi, Willie.
- WILLIE : Mae nhw'n frwnt. (*Deil hwy allan yn betrusgar*).
- MAGGIE : Ydyn', mae nhw'n frwnt, ond mae nhw'n ddwylo cywrain. Mae nhw'n medru trafod lledr yn well na dwylo neb a ddaeth i'r siop waith yma erioed. Pwy a'th ddysgodd di, Willie? (*Mae hi'n dal ei ddwylo o hyd*).
- WILLIE : Ond, Miss Maggie, yma y dysgais i 'nghreffft.
- MAGGIE : Ddysgaist ti erioed i lunio sgidiau mor gelfydd yn siop Hobson.
- WILLIE : Ddysgodd neb arall fi.
- MAGGIE (*yn gollung ei ddwylo*) : Na, docdd dim eisiau i neb dy ddysgu. Mae'r ddawn gennyf ti i lunio sgidiau. Gresyn dy fod mor dwp ymhopeth arall.
- WILLIE : Dwy' i ddim llawer o beth gyda dim byd arall ond gyda gwaith lledr, mae hynny'n wir.
- MAGGIE : Pryd wyt ti'n mynd i 'madael â siop Hobson?
- WILLIE : 'Madael â siop Hobson? Roeddwn—roeddwn yn meddwl 'mod i'n plesio yma.
- MAGGIE : Dwyf ti ddim am 'madael felly?

DEWIS ANORFOD

- WILLIE : Nagw' i. Yma y dechreuais i weithio 'nghreffft, a dwy' i ddim yn meddwl 'madael os na cha'i notis i fynd.
- MAGGIE : Fe ddwedais mai ffwl oedditi.
- WILLIE : Rwy'n ffwl ffyddlon, ta beth.
- MAGGIE : Wyt ti ddim am ddod mlaen yn y byd, Will Mossop? Fe glywaist beth ddwedodd Mrs. Hepworth. Fe wyddost beth yw'r gyflog y gallet gael yn un o siopau mawr Manchester.
- WILLIE : Ond fe fyddai arna' i ofn mynd i un o'r lleoedd crand yna.
- MAGGIE : Beth sy'n dy gadw di yma? Y—y bobl?
- WILLIE : Wn i ddim beth. Rwy' i wedi cynefino yma, debig.
- MAGGIE : Wyddost ti beth sy'n cadw'r fusnes yma i fynd? Mae yna ddau beth : un—dy waith di yn gwneuthur 'sgidiau da sy'n gwerthu eu hunain, ac yn ail—y ngwaith innau yn gwerthu sgidiau sâl o law pobl eraill. Y ti a fi rhyngom ni sy'n cadw'r fusnes yma i fynd.
- WILLIE : Rydych chi'n ddiuro yn y siop, Miss Maggie.
- MAGGIE : A thithau'n ddiuro yn y gweithdy. Wel?
- WILLIE : Wel, beth?
- MAGGIE : Mae'r peth yn glir imi.
- WILLIE : Beth sy'n glir ichi?
- MAGGIE : Rwyf yn gadael y cyfan imi, machgen i.

DEWIS ANORFOD

WILLIE: Rhaid imi fynd yn ol at 'y ngwaith, Miss Maggie. (*Yn mynd at y trap-door*)

MAGGIE (*yn ei atal*): Fe gei di fynd yn ol ar ol imi orffen â thi. Rwy' i wedi bod yn dy wyllo am beth amser bellach ac rwy'n hoffi popeth wn i am danat ti. Rwy' i'n credu y gwnei di'r tro imi.

WILLIE: Y tro i beth, Miss Maggie?

MAGGIE: Will Mossop, i ti yw'r dyn imi. Rwy' i wedi bod yn meddwl am chwe mis a rhaid i'r peth ddod i ben rywbryd.

WILLIE: Ond—ond feddyliais i erioed—

MAGGIE: Fe wn i na feddyliaist ti erioed am y peth, neu ni fuasit yn gadael imi wneud y cynnig fel hyn.

WILLIE: Rhaid—rhaid imi eistedd. (*Yn eistedd yn y gadair freichiau gan sychu'r chwys oddiar ei dalcen*). Rwy' i'n teimlo dipyn yn bethma. Pam rwy'ti'n 'y mofyn i?

MAGGIE: Fel rhyw antur fasnachol. Rwy'n gweld dy werth di.

WILLIE: Ond dwy' i'n werth dim o gwbl mewn busnes.

MAGGIE: Ond rwy' i'n deall busnes yn dda. Rhwng 'y mhen i a'th ddwylo di fe allem wneud strôc ohoni.

WILLIE (*yn codi gyda gollyngdod*): O, partners mewn busnes! Mac hynny'n wahanol! Roeddwn i'n ofni eich bod yn gofyn imi eich priodi. (*Daw i syny'r llwyfan*).

MAGGIE: Ie, dyna'r peth rwy' i yn ei ofyn.

DEWIS ANORFOD

WILLIE (*yn eistedd o flaen y counter*): Y mawredd annwyl! A chwithau'n ferch i'r meistr!

MAGGIE: Dyna pam falle. Falle mod i wedi cael digon ar nhad, a rwy'tithau mor anhebig iddo â neb a welais i erioed. (*Yn eistedd yn agos iddo*).

WILLIE: Mae hyn braidd yn lletchwith.

MAGGIE: Dwy'ti ddim yn rhoi llawer o help imi, fachgen. Beth sy'n lletchwith yn y cynnig?

WILLIE: Y chi'n siarad â mi fel hyn.

MAGGIE: Fe ddweda' i rywbeth wrthyt, Will. Dyw menyw gwerth yr enw ddim yn mynd i aros yn dawel a gweld 'i chyfle gore hi'n mynd i golli. Does neb o Salford fyth yn gadael dim i fynd i golli drwy beidio gofyn am dano.

WILLIE: Y fi yw'ch cyfle gore chi?

MAGGIE: Ie, Will.

WILLIE: Wel, tan i marw! (*Yn codi*). Feddyliais i erioed am y fath beth.

MAGGIE: Wel, meddwl yn awr ynte, Will bach.

WILLIE: Rwy' i yn meddwl. Ond mae'r peth yn rhy sydyn imi allu meddwl yn glir. Mae genny' barch mawr i chi, Miss Maggie. Rydych yn ferch lân ac yn ddiguro am werthu yn y siop, ond fel gwraig, rhaid imi gyfadde nad wy' i ddim mewn cariad â chi.

MAGGIE: Dwy' i ddim wedi gofyn hynny iti. (*Yn codi*). Rwy' i am iti roi dy law imi a'th air y doi di gyda mi drwy fywyd a gwneud y gore ohono.

WILLIE: Ond wnawn ni ddim llawer ohoni heb fod yna gariad rhyngom, ferch.

IE: Mae digon o serch o'm hochr i beth

WILLIE: Wel, does dim o'm hochr i yn siwr i chi.

MAGGIE: Does dim ond gwneud hebddo ynte.

WILLIE: Rydych yn benderfynol iawn. Rwy'n methu'n lân â deall pam. Beth ddywed eich tad?

MAGGIE: Fe ddywed ddigon, ond gad iddo. Wna hynny yr un gwahaniaeth imi.

WILLIE: Gwell peidio aflonyddu arno'n ddiachos.

MAGGIE: Y fi sydd i benderfynnu hynny. Rwy't yn mynd i 'mhriodi i Will.

WILLIE: O nagw'n wir. Alla' i byth, Maggie. Rwy'n gweld bod hyn yn torri ar draws eich cynlluniau chi, ond fe fyddai'n dda genny' pe gallech chi drefnu rhyw ffordd arall.

MAGGIE: Pan fydda' i'n gwneuthur trefniadau, machgen i, chaiff dim dorri ar eu traws.

WILLIE: Ond peth sy'n lletchwith yw'r ffaith mod i'n caru yn barod.

MAGGIE: Y ti—yn caru?

WILLIE: Ie, rwy'n caru ag Ada Figgins.

MAGGIE: Rhaid iti ffarwelio â hi ar unwaith. Pwy yw Ada Figgins? Ydw' i'n ei nabod hi? (*Yn symud i'r chwith ac yn troi*).

WILLIE: Merch y tŷ lle rwy'n lodgio.

MAGGIE: Yr hên beth ystrywgar! Nid y ferch bengoeh yna sy'n dod â chinio iti bob dydd? (*Yn symud i'r canol*).

WILLIE: Gwallt melyn fel aur sydd gan Ada. Ie, fe fydd hi yma yn union nawr.

MAGGIE: Fe fydda' innau yma hefyd. Fe siarada' i ag Ada. Rwy' i wedi 'i gweld hi. Rwy'n nabod y sort—un o'r pethau bach meddal yma yw hi. (*Yn troi i'r chwith*).

WILLIE: Mae mwy o alw am rywun i fod yn gefn iddi.

MAGGIE: O, dyna'r ffordd yr enillodd hi dy serch di, aie? (*Yn troi i'r canol*). Ie, fe alla' i ei gweld yn glynu wrthyt nes iti feddwl dy fod yn gawr o ddyn. Ond rwy'n dweyd hyn wrthyt, rhyw wlanen o fenyw fyddai'n disgwyl unrhyw fath o amddiffyn gan dy sort di.

WILLIE: Mae Ada yn ei ddisgwyl, ta beth.

MAGGIE: A mae hynny yn dangos imi beth yw hi. Fe'i ganed hi i fod dan draed. Fe briodi di â hi ac fe fyddi'n grydd tlawd ar ddeunaw swllt yr wythnos cyhyd ag y byddi di byw. Fe fyddi'n gaethwas ac yn fodlon ar hynny.

WILLIE: Does genny' fawr o uchelgais am wn i.

MAGGIE: Nag oes. Ond rhaid iti fagu tipyn. Fe helpa' i di. Bydd yn dipyn o gamp ond mae argoelion bod defnydd dyn rywle ynot ti.

WILLIE: Gadewch fi'n llonydd, da chi. (*Yn eistedd ar y dde*).

MAGGIE: Dyna beth mae'r gwybedyn yn ddweud wrth y pry' copyn. Y ti yw'r dyn imi, Will Mossop. (*Yn mynd at y ddesc*).

WILLIE: Y chi sy'n dweyd hynny. Ond fe fydd gan Ada stori arall.

(*Daw ADA i mewn o'r stryd. Does dim yn ffôl ynddi*

DEWIS ANORFOD

ad mac'n ferch dawel, wannaidd, heb lawer o ysbryd, yn ugain oed ac yn gwisgo clocsiau a siol. Mae cinio WILL ganddi mewn bowlen a chadach glâs am dani. Croesa ato a dyry'r fowlen iddo).

ADA : Dyma'ch cinio chi, Will.

WILLIE : Diolch, Ada.

(Mae ADA yn paratoi i fynd allan ond saif MAGGIE ar ei ffordd).

MAGGIE : Rwy' i am gael gair â chi. Rych chi'n sefyll ar fy ffordd i.

ADA : Y fi, Miss 'Obson? *(Yn edrych yn hurt ar draed MAGGIE).*

MAGGIE : Beth yw hyn sy rhyngoch chi'ch dau?

ADA *(yn siriol)* : O, Miss 'Obson, dyna garedig ych chi i sylwi arnom ni o gwbl.

WILLIE : Ada, mae hi — —

MAGGIE : Bydd di'n ddistaw. Rhyngom ni'n dwy mae'r mater yma. Edrychwch arno, Ada.

ADA : Ar Will?

MAGGIE *(gyda nod)* : Dyw e ddim yn werth i ddwy ferch gwympo mas yn 'i gylch e, ydi e?

ADA : F'alle nag yw e ddim yn rhyw lawer i edrych arno, ond fe ddylech ei glywed yn canu.

MAGGIE : Yn canu? Wyt ti'n gerddor, Will?

WILLIE : Rwy'n gallu canu'r styrmant.

MAGGIE : Ai dyna beth ydych yn weld ynddo? Rhyw lipryn o fachgen sy'n gallu canu 'styrmant'?

ADA : Rwy'n gweld y bachgen rwy'n garu, Miss 'Obson.

DEWIS ANORFOD

MAGGIE : Mae'n beth od, ond fe alla' innau ddweyd yr un peth.

ADA : Y chi?

WILLIE : Dyna beth rwy' i wedi bod yn ceisio ddweyd wrthych Ada, ac—ac yn siwr i chi, fe fydd hi'n sicr o 'nghymryd i oddiarnoch chi, os na ofalwch chi.

MAGGIE : Dyna'r mater yn glir nawr, Ada.

ADA : Maddeuwch imi. Rych chi'n rhy ddiweddar. Mae Will a mi wedi'n dyweddio. *(Cymer ei fraich).*

MAGGIE : Yn y gorffennol y bu hynny. I'r dyfodol rwy' i'n edrych. Beth yw'ch syniad chi am y dyfodol?

ADA : Meindiwch eich busnes, Miss 'Obson. Dyw Will Mossop yn ddim iti.

WILLIE : Dyna beth rwy'n ceisio ddweyd wrthi, ond wnaiff hi ddim gwranddo arna' i.

MAGGIE : Na wna. Rwy' i wedi gofyn ichi beth yw'ch syniad chi am ddyfodol Willie. Os oes gennych well syniad na mi, y chi fydd yn ennill ac y chi gaiff y bachgen.

ADA : Rwy'n ymddiried y dyfodol iddo fe.

MAGGIE : Roeddwn i'n meddwl mai un felly oeddech chi. Willie, rwy't i 'mhriodi i.

ADA *(yn wan)* : Ladradd rwy'n galw peth fel hyn. *(Yn symud ychydig i'r chwth).*

WILLIE : Ada, dych chi ddim yn mynd i'm gollwng i mor rhwydd â hynyna ych chi? Rydych yn fy rhoi i iddi yn glwt.

MAGGIE : Will Mossop, rhaid iti ufuddhau i'm

hon i yn y siop yma. Rwy' i wedi dweyd dy
hynd i 'mhriodi i.

WILLIE : Wela' i 'run ffordd i ddianc.

ADA (*yn llidiog*) : Aros di nes iti ddod adre heno.
e gaiff mam siarad â thi.

MAGGIE : O, 'i mam wnaeth y " fatch " ynte !

WILLIE : Fe wnaeth hi dipyn go lew tuag at
hynny, do.

MAGGIE : Does genny' run fam, Will.

WILLIE : Does dim angen yr un arnoch chi,
chwaith.

MAGGIE : A gaf fi werthu pâr o gloisiau ichi, Miss
Figgins ?

ADA : Na, na dim arall chwaith.

MAGGIE : Does gennych chi ddim busnes yma,
felly. (*A i agor y drws*).

ADA (*yn mynd ato*) : Will, wyt ti'n mynd i sefyll
yma a 'ngweld i'n cael fy nhroi allan ?

WILLIE : Ei siop hi yw hon, Ada.

ADA : Rwy' i fynd fel hyn, ynte, Will ?

WILLIE : Dyna fyn hi.

ADA : Tro brwnt yw hwn. (*Yn mynd at y drws*).

MAGGIE : Os oes rhaid ffarwelio, gwell gwneuthur
hynny ar unwaith ac heb ddagrau ac ochneidio.

ADA : Dwy' i ddim yn colli dagrau a dwy' i ddim
yn ffarwelio chwaith. Ond fe fydd e'n colli dagrau
heno pan gaiff mam afael arno fe. (*Yn rhoi cam ato*).

MAGGIE : Dyna ddigon.

ADA (*gyda ysgrach ymron*) : Will Mossop, rwy'n

dweyd wrthyt ti nawr, fe fydd cosfa yn dy aros di heno
pan ddoi di adre. (*A allan*).

WILLIE (*yn codi*) : Byddai'n well genny' briodi
Ada, Maggie, os nad oes gwahaniaeth gennych chi.

MAGGIE : Pam ? O achos'i mam ?

WILLIE : Mae tipyn o fin ar dafod 'i mam, rhaid
cyfadde.

MAGGIE : Oes 'i hofn hi arnat ti ?

WILLIE (*ar ol petruso ychydig*) : Oes.

MAGGIE : Does raid iti.

WILLIE : Ond dych chi ddim yn 'i nabod hi.
Bydd yn pannu arni heno yn ddiddarfod, fydd dim
taw arni pan a' i adre.

MAGGIE : Does dim rhaid iti fynd yn ol yno.

WILLIE : Ddim mynd yn ol !

MAGGIE : Dwyt ti ddim i aros yno o hyn allan. Ar
ol cau'r siop heno, fe gei di fynd i dŷ Tubby Wadlow, a
fe all Tubby fynd i dŷ Mrs. Figgins i 'mofyn dy bethau
di.

WILLIE : A dwy' i ddim i fynd yno byth eto ?

MAGGIE : Nag wyt.

WILLIE : Mae hyn fel breuddwyd hapus. Dyna un
ryfedd i drefnu pethau ydych chi, Maggie. (*Yn agor
y " trap-door "*).

MAGGIE : A thra bydd Tubby'n 'mofyn dy bethau
di, fe alli di fynd i drefnu ynghylch cyhoeddi gostegion
priodas inni'n dau.

WILLIE : Gostegion pr— O ! dwy' i ddim wedi
cynefino â'r syniad eto. (*Yn mynd i lawr ris*).

MAGGIE : Mae gennyt ti dair wythnos i gynefino
â'r syniad. Ac yn awr, Will, fe alli di roi cusan imi.

DEWIS ANORFOD

WILLIE : Mae hyn yn mynd yn rhy bell. Bydd cusan yn golygu fy mod yn cydsynio â phopeth.

MAGGIE : Bydd.

WILLIE : Ond dwy' i ddim yn cydsynio eto. Rwy'—

MAGGIE : Dere mlaen. (*Daw ALICE ac yna VICKEY i mewn o'r tŷ*). Gwna fel rwy' i'n dweyd wrthyt, Will.

WILLIE : Yn awr? A nhw yma?

MAGGIE : Ie.

WILLIE (*ar ol ennyd*). Alla' i byth. (*Rhuthra i lawr y grisiau gan gau y drws ar ei ôl*).

ALICE : Beth sy mater ar Willie?

MAGGIE : Mae e'n teimlo dipyn yn swil am fy mod i wedi dweyd wrtho fod yn rhaid iddo 'mhriodi i. Sut mae'r ginio'n dod mlaen? (*A at y ddesc*).

ALICE : Rwy'ti'n mynd i briodi Willie Mossop! Willie Mossop!

VICKEY : Rwy'ti wedi bod yn dawel iawn, Maggie.

MAGGIE : Rwy'ti'n gwybod ymron cyn gynted â Willie ei hun.

VICKEY : Wel, wn i ddim—

ALICE : Fe wn i, ac os wyt ti, Vickey, yn ofni dweyd dy feddwl, dwy' i ddim. Edrych yma, Maggie, mae'r peth a wnei di yn effeithio arnom ni, a rwy'ti'n cam-syniad yn fawr os wyt ti'n meddwl y cydnabydda' i Willie Mossop fel brawd-yng-nghyfraith imi.

MAGGIE : Oes achos cywilydd ynghylch y dyn?

DEWIS ANORFOD

ALICE : Gofyn di hynny i nhad. A beth am dana' i? Roedd genny' obaith am briodi Albert Prosser cyn i hyn ddigwydd.

MAGGIE : Fe alli di briodi Albert Prosser pan fydd e'n gallu fforddio priodi a fydd hynny ddim cyn iddo wario llai ar ei ddillad a'i wallt. (*Yn croesi i'r dde*).

(*Daw HOBSON i mewn o'r stryd*).

HOBSON : Wel beth am y ginio yna? (*Daw i'r canol*).

(*Safant fel hyn—MAGGIE ar y dde, yna VICKEY, i fyny ychydig, HOBSON yn y canol, ac ALICE ychydig i'r chwith o'r canol y llwyfan*).

MAGGIE : Bydd yn barod ymhen deng munud.

HOBSON : Ond fe ddwedaist un o'r gloch.

MAGGIE : Do, nhad, gan olygu hanner awr wedi un. Fe fydd yn barod cyn gynted ag y byddwch chi wedi golchi'ch dwylo.

HOBSON : Olcha' i mo 'nwylo. Dwy' i ddim yn cytuno a'r fath "fuss," fe wyddost hynny'n burion. (*Yn eistedd o flaen y cownter*).

VICKEY : Nhad, glywsoch chi'r newydd am Maggie ni? (*Yn dysod i lawr ar y dde*).

HOBSON : Newydd? Does dim newydd. Yr un hen stori sy genny'ch, eisiau rheoli. Fe garech gadw dyn sy bron llwgu oddiwrth 'i bryd bwyd mae e'n ennill drwy chwys 'i wyneb, garech chi? Fe ddangosa' i ichi pwy yw'r meist'r yma. Fe—(*yn codi*).

MAGGIE : Peidiwch â cholli'ch tymer nhad. Falle bydd 'i eisiau fe arnoch chi pan glywch chi beth sy gan Vickey i'w ddweyd wrthy'ch. (*Yn symud i'r dde*).

ALICE : Beth mae Vickey wedi bod yn wneud ?
 HOBSON : Dim. Ond am Will Mossop, nhad.
 ALICE : Will ?
 ALICE : Ie. Beth yw'ch barn chi am Will ?
 HOBSON : Bachgen teidi yw e. Does genny' ddim
 yn erbyn y bachgen am wn i.
 ALICE : Leiciech chi ei weld yn un o'r teulu ?
 HOBSON : Teulu pwy ? (*Yn dod i lawr i'r canol*).
 VICKEY : Eich teulu chi.
 MAGGIE : Rwy'n mynd i briodi Willie, nhad.
 Dyna yr holl helynt yma.
 HOBSON : Priodi—y ti—priodi Mossop ! (*Yn
 mynd ati*).
 MAGGIE : Roeddech yn dweyd fy mod yn rhy hên
 i briodi. Dwy' i ddim. Dyna i gyd.
 HOBSON : Glywaist ti mohono' i yn dweyd mai fi
 fuasai'n dewis gwyr ichi ?
 MAGGIE : I Vickey ac Alice, do. Fe ddwedsoch
 fy mod i'n rhy hên i gael gŵr.
 HOBSON : Yr wyt ti. Rydych i gyd yn rhy hên.
 VICKEY : Nhad !
 HOBSON (*yn croesi i'r canol*) : Ac os nad ydych chi,
 does dim ots. Fynna' i yr un gŵr yma. (*Sais HOBSON
 rhwng VICKEY ac ALICE*).
 ALICE : Ond fe ddwedsoch—
 HOBSON : Rwy' i wedi newid 'y meddwl. Rwy' i
 wedi dysgu rhywbeth oddiar hynny. Mae gormod o
 lawer o ddisgwyf wrth y tad y dyddiau yma. Fydd
 yma yr un briodas.
 ALICE : O nhad !

HOBSON : Dos i ddodi 'nghinio i'n barod a siarada
 lai. Dos ar unwaith, does genny' ddim gormod o
 amynedd, cofia.
 (*Mae yn gyrru ALICE a VICKEY o'i flaen. Ant hwy
 allan dan brotestio yn uchel. Ond saif MAGGIE ar ei
 ffordd ac y mae hi yn cau y drws. Mae'n edrych arno
 oddiar y grisiau*).
 MAGGIE : Rhaid inni'n dau gael popeth yn glir
 rhyngom, nhad. Dwy' i ddim yn ffwl, a dych chwithau
 ddim yn ffwl a chystal inni wynebu pethau yn awr.
 HOBSON : Rwy'n dweyd wrthyt fy mod wedi
 gwneud fy meddwl i fyny. All di ddim priodi Willie
 Mossop. Ferch ofnadwy, wyddost ti mai yn y wyrchw
 y codwyd ei dad, plentyn siawns oedd e. (*Yn symud
 i'r canol*).
 MAGGIE : Er pryd mae pobl Salford wedi troi yn
 snobs ? Rwy' i'n dewis Willie Mossop. Mae'n rhaid
 imi drefnu cwrs fy mywyd a rwy' i wedi dewis yn o
 dda hefyd ; meddylwch chi beth fynnwch chi.
 HOBSON : Fe fydda' i'n destun gwawd trwy'r lle os
 caniatâf y fath beth. Fynna' i mohono, Maggie.
 Dyw'r peth ddim yn weddus a thithau'r oedran wyt ti.
 MAGGIE : Deg ar hugain oed ydw' i a rwy'n bwr-
 iadu priodi Willie Mossop. Ac yn awr, dyma fy
 nhelerau.
 HOBSON : Telerau ! Rwy't ti mewn sefyllfa dda i
 wneuthur telerau, merch i.
 MAGGIE : Fe gewch chi dalu i 'ngwr i, Will Mossop,
 yr un gyflog ag o'r blaen. Ac am dana' i, rwy' i wedi
 gweithio am y rhan fwyaf o ugain mlynedd i chi heb

DEWIS ANORFOD

og. O hyn allan, fe weithia' i wyth awr y dydd i mi, ac fe gewch dalu pymtheg swllt yr wythnos imi.

HOBSON : Wyt ti'n meddwl mod i'n graig o arian ?

MAGGIE : Fe fyddwch yn werth llai os gadewch chi i Willie fynd. Ac os aiff Willie, fe fydda' innau'n mynd. Rhaid i chi wynebu'r ffeithiau.

HOBSON : O'r gora, gallwch fynd. Mae gweision siopau i'w cael yn rhad.

MAGGIE : Ydyn', mae nhw, y sort sy'n gofyn i chi eu gwyllo drwy gydol y dydd. Fe fyddwch chi wrth eich bodd yn y siop yn eu helpu i glymu parseli a gwerthu careiau tra bydd eich cyfeillion, Tudsbury a Heeler a Minns, yn mwynhau glasiad yn Y Bedol. Fe fydda' i yn gefn ichi a bydd 'ngŵr i o werth i chi. Fe allwch fynd i'r Bedol ac ymffrostio bod eich merch, Maggie, wedi gwneuthur y "fatch" orau ers hanner can mlynedd. Gallwch fod yn dawel a gwneuthur yr hyn rwy' i'n ddweyd wrthych.

HOBSON : Dyma beth rwy' innau'n ddweyd, Maggie. (*Yn agor y "trap-door" ac yn gweiddi*) Will Mossop! (*Yn gosod ei hel ar y cownter ac yn datod ei strap*). Alla' i ddim rhoi cosfa iti, merch i, am mai merch ydwyf. Ond fe ro' i gosfa iddo fe. Tyrd yma, Will Mossop. (*Daw WILL i fyny a chana'r drws*). Rwyf ti wedi dechrau caru â Maggie, mae'n debyg. (*Yn cuddio'r strap*).

WILLIE : Nagw' i. Y hi sy wedi dechrau caru â fi.

HOBSON : Wel, Willie, sut bynnag mae hi, rwyf ti'n anlwcus ofnadwy. Mae cariad wedi'th arwain ar

DEWIS ANORFOD

gyfeiliorn a rhaid iti gael dy osod ar y llwybr iawn. (*Yn dangos y strap*).

WILLIE : Beth yw ystyr hyn, Maggie.

MAGGIE : Mae fy llygad arnat ti, was.

HOBSON : Cofia, Willie, fe alli di gadw dy "job." Dwy' i ddim yn dal dig ond mae'n rhaid bwrw'r cariad yma alln ohonot ti, a phob bore rhaid iti ddoed yma i gael cosfa nes ei fwrw allan yn llwyr. (*Yn paratoi i'w daro*).

WILLIE : Ond does dim cariad i'w fwrw allan ohono' i. Rych chi'n gwneud camsyniad mawr.

HOBSON : Os wyt ti am gadw croen iach rhaid iti ymwrthod â'r gwendid yma tuag at Maggie. Bydd yn rhaid iti wario cryn dipyn o arian yn siop y chemist cyn yr wythnos.

WILLIE : Dwy' i ddim am y ferch o gwbl. Y hi sy ar fy ol i. Ond rwy'n dweyd hyn wrthych chi, Mr. Hobson—(*yn gafael ym mraich MAGGIE yn sarrug*)—os cyffyrddwch chi fi â'r strap yna, fe'i cymeraf fi ar unwaith a glynaf wrthi fel y gelen.

HOBSON : Does dim ond un ateb i siarad fel yna, ngwas i. (*Mae yn ei daro. Mae MAGGIE yn arswydo*).

WILLIE : Does gennyf finnau ond un ateb yn ol. Maggie, dwy' i ddim wedi rhoi cusan iti eto. Roeddwn i'n swil o'r blaen. Ond myn asgwrn i, fe ro'i gusan iti nawr. (*Dyry gusan iddi ar frys, nid mewn angerdd ond mewn tymer ddwrwg, yna mae'n ei gollwng ar unwaith ac yn wynebu HOBSON*) a mynnaf di, a chadwaf di, Ac os cwyd Mr. Hobson y strap yna eto, fe wna' i fwy na hynny. Fe af allan yn syth o'r siop a'th gymryd di

DEWIS ANORFOD

ac fe allwn ni'n dau, y fi a thi, agor siop ein

MAGGIE: Willie, fe wyddwn i fod defnydd dyn
not ti, nghariad i.

(Mae hi yn gosod ei bratch am ei wddf. Nid yw ef yn
hi chroesawu. Syrth ei ddwylo yn llipa wrth ei ochr).

(Saif HOBSON wedi ei syfrdanu).

LLEN.

DEWIS ANORFOD

ACT II.

Mis yn ddiweddarach.

GOLYGFA: Yr un ag Act I.

AMSER: *Oddeutu hanner dydd. Mae ALICE lle yr
oedd MAGGIE, mewn cadair wrth y ddesc a llyfrau cyfrifon
o'i blaen, tra mae VICKEY yn darllen nosel y tu ôl i'r
cownter. Mae'r "trap-door" yn agored, ac y mae
TUBBY yn sefyll yn agos i'r ddesc ger llaw ALICE.*

ALICE: Wn i ddim pa waith wyt ti i fynd ymlaen
ag e, Tubby.

TUBBY: Ond allwn ni ddim mynd mlaen, Miss
Alice. Rydym ni wedi gorffen.

ALICE: Wel, mae nhad allan, a alla' i ddim rhoi
yr un cyfarwyddyd iti.

TUBBY: Fe aiff e'n wyllt os daw i mewn a'n gweld
ni'n gwneud dim yn y gweithdy.

VICKEY: Wel, gwna rywbeth ynte. Dym ni
ddim yn dy rwystro. (Yn codi ac yn mynd i'r dde).

TUBBY (yn troi arni): A dych chi ddim yn helpu
chwaith. Ac rwy' i i gymryd ordors o'r siop.

ALICE: Wn i ddim beth i'w ddweyd wrthyf.
Does neb yn 'mofyn sgidiau gwaith cartre.

TUBBY: Mae'r ordors am sgidiau parch hefyd wedi
mynd lawr yn ofnadwy y mis dwetha 'ma. Wrth gwrs

DEWIS ANORFOD

fyned mlaen i weithio clocisiau i'w rhoi yn y
os leiciwch chi.

ALICE : Falle mai hynny sy ora.

TUBBY : Fe wyddoch mai nid gwneud clocisiau sy'n
talu'r rhent heb son am y cyflogau, ond os dyna'ch
ordors chi, Miss Alice—(*yn symud yng nghyfeiriad y*
"trap-door").

ALICE : Y ti awgrymodd hynny.

TUBBY : Dim ond dweyd oeddwn i (*ar y grisiau*).
Ond dwy' i ddim yn ddyrn byrbwyll, a dwy' i ddim am
fod yn gyfrifol i'r meistr ag yntau mor ddrwg 'i dymer
er pan aeth Miss Maggie i ffwrdd.

ALICE : O diar! Beth ddywedai Maggie wrthyt
am wneud?

TUBBY : Alla' i ddim dweyd yn wir, Miss. Dwy' i
ddim yn cofio gweld pethau mor slac yn 'i hamser hi.

VICKEY : Dwyt ti ddim yn rhoi llawer o help inni,
a thithau'n foreman cyfrifol y gweithdy ers blynydd-
oedd.

TUBBY : Ar ol i chi roi'ch ordors, fe ofala' i y caiff
y gwaith 'i wneud yn iawn.

ALICE : Wel, dos i wneud clocisiau ynte.

TUBBY : Dyna'ch ordors chi?

ALICE : Ie.

TUBBY : Diolch, Miss Alice. (*Dislanna i lawr*
trwy'r "trap-door" a'i gau o'i ôl).

ALICE (*yn codi ac yn cerdded i fyny ar y chwith*) : Ys
gwn i a wnes i'n iawn?

VICKEY : Dy fusnes di yw hynny.

DEWIS ANORFOD

ALICE : Wel, waeth genny. Lle nhad yw bod yma
i ddweyd wrth y dynion beth i'w wneud.

VICKEY : Roedd Maggie yn gallu gwneud o'r gora
hebdo.

ALICE : Oedd, oedd. Ond ^{Dad} dos di i 'meio i am fod
popeth wedi mynd o ~~chwaith yma~~. (*Yn dod i lawr at y*
ddesc).

VICKEY : Dwy' i ddim yn dy feio di. Fe wn i
gystal a thithau mai bai nhad yw hyn. Fe ddylai
edrych ar ol 'i fusnes yn lle gwastraffu mwy o amser
bob dydd yn Y Bedol, ond does dim rhaid iti fod yn
gâs wrthyt fi o achos hynny.

ALICE : Dwy' i ddim yn gâs yn wir. (*Yn eistedd*
wrth y ddesc). Ond yr hen gownts yma! Alla' i ddim
'u cael nhw'n reit. 'Faint yw seventeen'a 'twenty five?'

VICKEY (*ar unwaith*) - 'Fifty two', wrth gwrs.

ALICE : Wel, ddaw yr hen beth ddim yn iawn. O
diar, fe leiciwn i pe bai dydd 'y mhriodas i wedi dod imi
gael ffarfwelio â'r cyfan. (*Yn cau'r llyfr*).

VICKEY : A minnau hefyd.

ALICE : O! Y ti!

VICKEY : Paid ti â meddwl mai y ti yw'r unig un.
(*Yn codi*).

ALICE : Wel, dyna un slei wyt ti, Vickey Hobson.
Rwy'ti wedi cadw'r peth yn ddistaw iawn.

VICKEY : Hynny sy orau fel y mae pethau. Mae
Maggie wedi distrywio'n siawns ni am byth. Does neb
am gael Willie Mossop yn frawd-yng-nghyfraith.

(*Daw MAGGIE i mew'n ac ar ei hol, FREDDY BEEN-
STOCK ac yna WILL. Mae MAGGIE a WILL ar eu ffordd*

DEWIS ANORFOD

as er nad yw eu gwisg yn amlygu hynny. Nid
 yn eu dillad gwaith, dyna i gyd. Mae FREDDY
 hartiach er ei fod yn ei ddillad bob dydd. Nid yw
 neb o bweys ond mab i siopwr bach teidi. Eithr y mae
 ymddangosiad yn ddigon i'w gymeradwyo i lygaid
 VICKEY. Y mae WILL yn teimlo'n swil iawn ac yn aros
 ar y chwith yn agos i'r cownter).

ALICE : Maggie, y ti sy yna !

MAGGIE : Fe feddyliais y buaswn yn troi mewn i
 spio'ch hynt chi. Vickey, beth yw'r hyn mae Mr.
 Beenstock yn ddweyd am danoch chi'ch dau.

VICKEY (yn wrth) : Os dwedodd e wrthyt, rwy't
 yn gwybod y cyfan.

FREDDY (ar y chwith yn gwenu) : Fe dynnodd hi'r
 cyfan oddiarnaf, Vickey.

VICKEY : Ys gwn i os yw e'n fusnes iti, Maggie.

(VICKEY ar y dde, yna MAGGIE, FREDDY yn y canol,
 WILL wrth y cownter ar y chwith, ALICE i lawr ar y
 chwith).

MAGGIE : Wrthych eich hunain, ewch chi ddim
 pellach â'ch caru yn ol a glywa'i am y ffordd mae nhad
 yn eich trafod chi.

VICKEY : Dy fai di yw hynny. Dy fai di a bai
 hwnna. (Gan symud y tu ôl i'r cownter a chyfeirio at
 WILL sy'n ceisio ymgolli yn y cefndir).

MAGGIE (yn swta) : Gad ti i hynny fod. Rwy' i
 yma i'ch helpu os mynnwch chi.

(Fe garai VICKEY wrthod y cynnig ond—)

FREDDY : Dyna garedig ych chi, Miss Maggie.

DEWIS ANORFOD

Rhaid imi ddweyd hynny. Mae'ch tad wedi mynd yn
 anodd iawn i'w drin.

MAGGIE : O, falle daw e'n well. A fu dy gariad
 dithau yma y bore yma, Alice? (Yn mynd at y ddesc).

(Mae FREDDY yn plygu dros y cownter i sibrwd yn
 serchus â VICKEY).

ALICE (yn ddig) : 'Nghar—

MAGGIE : Albert Prosser.

ALICE : Naddo.

MAGGIE : A wyt ti yn ei ddisgwyl?

ALICE : Dyw e ddim wedi bod yma mor aml er pan
 aethost ti a Willie Mossop—

MAGGIE (yn llym) : Er pryd?

ALICE : Er pan wnaethost ti iddo brynu'r pâr
 sgidiau hynny yn erbyn ei ewyllys.

MAGGIE (yn dod i'r canol) : Mi wela. Doedd e
 ddim yn fodlon talu am 'i fwyniant yn ein siop ni. Wel,
 os nad oes neb yn ei ddisgwyl, rhaid i rywun fynd i'w
 geisio. Prosser, Pilkington a Prosser, Cyfreithwyr,
 Bexley Square. Dyna nhw ynte?

ALICE : Ie, Albert yw'r ail Brosser yna.

MAGGIE (yn symud i fyny i'r dde) : Aiê? Mae'n
 dipyn o ddyn on'd yw e? A ewch chi i'w nôl, Mr.
 Beenstock? Dwedwch wrtho am ddod â'r papur gydag
 e.

VICKEY (yn cerdded at MAGGIE, yn lliidiog) : Rwy't
 ti'n awdurdodol iawn i bore yma yn gorchymyn pobl
 i wneud hyn a'r llall.

MAGGIE : Rwy' i wedi arfer gwneud hynny.

DEWIS ANORFOD

FREDDY: Paid hidio, Vickey, mae popeth yn
at.

ALICE: Yn wir? Beth pe byddai nhad yn dod
nol a ffeindio Albert a Freddy yma?

MAGGIE: Ddaw e ddim.

ALICE: Mae e ar ol 'i amser *comes*.

MAGGIE: Fe wn i hynny. Mae'n rhaid eich bod
wedi poeni llawer ar nhad er pan es i oddiyma, Alice.
(*Yn mynd ati ar y chwith*).

ALICE: Pam?

MAGGIE: Dwedwch wrthynt, Mr. Beenstock.

FREDDY: Wel, y gwir yw, ddaw mo Mr. Hobson
nol yma am dipyn am ei fod yn ein siop ni ar hyn o
bryd.

VICKEY: Yn eich siop chi? Beth mae nhad yn
wneud mewn siop yd a brawd?

FREDDY: Mae e'n—mae e'n cysgu yno, Vickey.

ALICE: Yn cysgu?

(*Mae WILLIE yn eistedd ar gadair o flaen y counter*).

FREDDY: Mae gennym drap-door i'n seler ni ar y
pafin tuallan, wyddoch, a doedd eich tad ddim yn
ddigon gofalus i edrych ble roedd e'n mynd ac fe
gwmpodd i'n seler ni.

VICKEY: Cwmpo? Gafodd nhad niwed? (*Yn
mynd at FREDDY*).

FREDDY: Mae e'n chwyrnu 'i chalon i ond chafodd
e 'run niwed. Fe gwmpodd ar ben y sachau yd.

MAGGIE: Fe allwch fynd yn nawr i nol Albert
Prosser.

(*Mae FREDDY yn mynd i gyfeiriad y drws*).

DEWIS ANORFOD

MAGGIE: Dyna i gyd sydd i'w ddweyd hyd nes i
Freddy weld ei gyfreithiwr.

FREDDY: Fydda 'i ddim yn hir.

MAGGIE: Brysiwch mae genny' "job" arall i chi
ei wneud wedi i chi ddod nol.

(*A FREDDY ymaith*).

ALICE: Wn i ddim beth yw dy feddwl di, Maggie,
ond—

MAGGIE: Dyna'r gwahaniaeth rhyngom ni. Fe
wn i. Rwy' i'n wastad yn gwybod 'y meddwl. (*Yn
mynd i'r chwith*).

VICKEY (*yn cyfeirio at WILLIE*): Peth od iawn oedd
dy feddwl di ynglyn â hwnnw. (*Yn bl tu cefn i'r
counter*).

MAGGIE (*yn cymryd braich WILL*): Rwy' i wedi
gwneud yn dda iawn imi fy hunan, ac rwy' i wedi
dod i roi trefn ar bethau i chi. Fe ddweodd nhad
wrthyhch am briodi, a wela' i ddim shâp arnoch chi eto.

ALICE: Mae e wedi newid 'i feddwl.

MAGGIE: Dwy' i ddim yn rhoi cyfle i bobl newid
'u meddwl. Efe ei hunan gododd y peth. Dwedodd
wrthyhch am briodi ac yr ydych yn mynd i ufuddhau
i'w orchymyn.

VICKEY: Ond dwyt ti ddim wedi hwyluso pethau
inni, wyddost.

MAGGIE: Wrth fynd gyda Willie?

WILLIE: Nid 'y mai i oedd e, Miss Vickey, yn wir
i chi.

MAGGIE: Galw Vickey arni, Will.

DEWIS ANORFOD

: Na, wnaiff e ddim. (*Yn cerdded i lawr*)

MAGGIE : Mae e'n un o'r tylwyth, neu fe fydd, yn deg. A gwranddo di arna' i. Os wyt ti am gael eddy, a thithau, Alice, am gael Albert, fe fyddwch yn parhous o Willie—nghariad i.

ALICE : Ond un o'n gweithwyr ni oedd e.

MAGGIE : Do, fe fu yn weithiwr inni, ond mae hynny drosodd yn awr. Mae e cystal â chi erbyn hyn, a gwell.

WILLIE : O, ara' deg, Maggie, ara' deg.

MAGGIE : Wyt, yr wyt ti'n well. Dim ond gweini mewn siop mae nhw. Rwy'ti'n feistr on'd wyt ti?

WILLIE : Mae fy enw i ar y ffenestr, ond dwy' i ddim mor siwr ai y fi yw'r meistr.

MAGGIE (*yn dangos cerdyn, ac yn mynd at ALICE ar y chwith*) : Dyma ei gerdyn busnes e—William Mossop, Practical Boot and Shoe Maker, 39A Oldfield Road, Salford. William Mossop, Master Bootmaker! Dyna'r dyn yr ydych yn cael y fraint o'i alw wrth ei enw bedydd. Edrychwch, fe ganiata' i fwy na hynyna i chi, fe gewch eich dwy roi cusan iddo fel eich darpar frawd-yng-nghyfraith.

WILLIE : Na'n wir, Maggie, dwy' i ddim yn rhyw hoff iawn o gusanu.

(*Mae ALICE a VICKEY yn lliidiog iawn*).

MAGGIE (*yn sychlyd*) : Rwy' i wedi sylwi ar hynny. Wna ychydig o brofiad ddim drwg iti. Tyrd Vickey.

ALICE (*yn troi'r stori*) : Ond Maggie—'ch siop eich hunain!

DEWIS ANORFOD

MAGGIE (*yn gadarn*) : Rwy'n aros iti, Vickey.

WILLIE : Wela' i ddim y dylit ti ei gorfodi hi, Maggie.

MAGGIE : Bydd di'n dawel. (*Yn croesi i'r dde at VICKEY*).

ALICE : Ond sut yn y byd y gallech chi ddechrau busnes? O ble daeth yr arian?

MAGGIE : O, fe ddaeth yr arian o rywle. Will, saf yn llonydd. Mae Vickey yn gwneud ei meddwl i fyny.

WILLIE : Byddai'n well genny' beidio ei phoeni hi.

MAGGIE : Rhaid iti gymryd dy le priodol yn y teulu yma, ngwas i, poeni neu beidio.

VICKEY : Wela' i ddim pam y dylit ti gael dy ffordd yn wastad.

MAGGIE : Dyna'r drefn, wel di. Tyrd, Vickey. Mae genny' lawer i'w wneud heddiw a dyma ti'n gwastraffu amser.

VICKEY : Dan brotest, cofia, rwy'n gwneud.

MAGGIE : Protestia os mynni, ond rho gusan iddo. (*Mae VICKEY yn mynd ac yn rhoi cusan i WILL sy'n cael ei fod yn mwynhau'r profiad. A hi yn ol i'r dde, cymer glwtyn a dechrau sychu silff ar y dde*). Y ti yn awr, Alice.

ALICE : Fe wna' i os gwnei di fy helpu gyda'r llyfrau yma, Maggie.

MAGGIE : Y llyfrau? A ofynnodd nhad iti ofalu am y llyfrau yn fy lle i?

ALICE : Do.

MAGGIE : Wel, mae'n rhaid iddo gymryd y canlyniadau. Nid 'y musnes i yw dy lyfrau di.

DEWIS ANORFOD

ALICE : Fuasai fawr iti roi tipyn bach o help imi, Maggie.

(*Rhydd VICKEY giledrychiad i gyfeiriad WILL*).

MAGGIE : Rwy'n synnu atat ti, Alice, yn wir, a thithau wedi clywed y newydd. Fe ddylit wybod gwell na dangos dy lyfrau cyfrifon i bobl siop sy'n cystadlu â chi am fusnes. Mae Will yn barod, rho gusan reit harti iddo fe nawr.

ALICE : O'r gora. (*Yn mynd i'r canol, yn cusanu WILL ac yn dychwelyd i'r chwith*).

WILLIE : Mae mwy o flas ar gusanu merched ifainc neis nag a feddyliais i.

MAGGIE : Paid ti â chael gormod o flâs, nzwias i. (*Yn mynd ato*).

ALICE : Wel, rwy'n gobeithio dy fod wedi dy fodloni bellach. Dyna ti wedi cael dy ffordd eto, ac yn awr, falle y dwedi di beth wyt ti'n mofyn yn y siop yma?

MAGGIE : Yh? Wyt ti'n treio gwerthu rhywbeth imi?

ALICE : Gofyn beth yw dy fusnes di yma, rwy' i.

MAGGIE : Rwy' i wedi dweyd wrthyt yn barod. Mae Will a minnau wedi cymryd diwrnod off er mwyn eich helpu chi'ch dwy i briodi.

VICKEY (*tu cefn i'r cownter*) : Mae'n rhaid nad yw busnes yn rhy dda yn eich siop newydd chi os gallwch fynd am dro yn eich dillad gwyl ar ddiwrnod gwaith.

WILLIE : Nid diwrnod gwaith yw heddiw inni. Dydd ein priodas yw heddiw.

ALICE : Ydych chi wedi priodi y bore yma?

DEWIS ANORFOD

VICKEY : Fe ddechrau' i mynd yn harchus neu ni pharhau' byth.
MAGGIE : Yn un cerbyd.

MAGGIE : Nag ydym ni. (*Yn mynd i'r dde*). Fe fydd fy chwirydd yn bresennol pan brioda' i. Ur o'r gloch yw'r amser yn Eglwys Sant Philip. (*Yn eisteud ar y dde*).

VICKEY : Ond allwn ni ddim gadael y siop.

MAGGIE : Pam lai? Ydych chi mor brysur â hynny?

VICKEY : Nag ydym, ond—

(*Eistedd WILLIE o flaen y cownter*).

MAGGIE : Dych chi ddim yn gwerthu cymaint o sgidiau parch yn ddiweddar, ydych chi?

ALICE : Ffordd gwyddost ti?

MAGGIE : Mae genny' syniad go lew. Chollwch chi ddim wrth ddod gyda ni i'r eglwys a byddwn yn eich disgwyl heno i'r wledd briodas.

VICKEY : Bydd hynny yn golygu ein bod yn fodlon ar eich priodas.

MAGGIE : Wrth gwrs hynny. Rydych chi wedi rhoi cusan i'r priodfab ac fe ddewch gyda ni i'r eglwys. Mae nhad yn eitha diogel lle mae e. (*Yn codi ac yn croesi i' chwith*).

ALICE : A beth am y siop?

MAGGIE : Gall Tubby ofalu am y siop. A mae hynny yn fy atgoffa. Fe allwch werthu rhywbeth imi. Mae yna fodrwyau yn y dror yna, Vickey.

VICKEY : Modrwyau pres?

MAGGIE : Ie, mae eisiau un arna' i. Dyna'r "size." (*Dengys ei bys sydd i wisgo'r fodrwy, a daw at y cownter*).

VICKEY : I hynny? Ond dwyt ti ddim yn bwriadu gwisgo— (*Yn gosod blwch y modrwyau ar y cownter*).

MAGGIE : I hynny? Ond dwyt ti ddim yn bwriadu gwisgo— (*Yn gosod blwch y modrwyau ar y cownter*).

VICKEY : I hynny? Ond dwyt ti ddim yn bwriadu gwisgo— (*Yn gosod blwch y modrwyau ar y cownter*).

Ydw. Dyw Will a mi ddim yn mynd i
arian er y gallwn ni dalu ein ffordd. Dyna
y fodrwy. Cymer yr arian, Vickey. (Yn
arian ar y cownter a ffisio'r fodrwy).

ALICE: Priodi â modrwy ~~baes!~~ *(Yn
MAGGIE: Fe wnaiff hon y tro i'r dim. Alice, dwyt
i ddim yn rhoi'r cownt yn y llyfr. Does ryfedd yn y
byd nad yw'r cyfrifon yn iawn os mai felna rwyf yn
eu cadw. (Yn gosod y fodrwy yn ei bag wrth ddod tua'r
canol ar y chwith).*

ALICE: Rwy' i wedi synnu gormod i feddwl am
gownts. Modrwy ~~baes!~~ o'n siop ni!

MAGGIE: Byddai'n rhaid iddi ddod o siop, rhywun.

VICKEY: Wel, fe fyddai cywilydd arna' i i briodi
â modrwy fel honna.

MAGGIE: Os na all pobl fforddio'r gorau, rhaid
iddynt wneud heb hynny.

VICKEY: Fe ofala' i nad a'i byth heb hynny.

MAGGIE: Bydd eisiau tŷ "semi-detached" arnat
ti, a llond tŷ o gelfi newydd, debig genny'.

ALICE: Onid wyt ti wedi prynu celfi?

MAGGIE: Rwy' i wedi prynu peth mewn siop ail
law. (Yn eistedd wrth ochr WILLIE).

ALICE: Byddai'n well genny' aros heb briodi na
chael hen bethau ar ol pobl eraill yn fy nhŷ i. Ble
mae dy hunan-barch di, Maggie?

MAGGIE: Dwy' i ddim yn priodi er mwyn helpu
siopau celfi. Rwyf tithau'n codi dy drwyn ar bethau
ail-law, Vickey, on'd wyt ti?

VICKEY: Fe ddechreu' i 'myd yn barchus neu ni
phrioda' i byth. (Yn cerdded at y ddesc).

MAGGIE: Fydd gennych chi felly yr un gwrth-
wynebiad imi gymeryd y lymber sydd yn y garret.
(Yn codi). Fe ddeuthom â thryc bach gyda ni. (Yn
rhoi pwt i WILL).

(Yn WILL ei gôt. Mae ganddo gyffs a fedr cu tynnu,
ac y mae yn eu gosod ar y gadair freichiau).

VICKEY: Rwyf wedi gwneud yn bur siwr o bethau.

MAGGIE: Ydw. Dos i fyni i'r garret, Will. Fe
ddwedais wrthyf beth sy' arna' i eisiau.

ALICE: Aros funud. (Yn croesi i'r canol).

MAGGIE: Ie. (Yn symud ychydig i'r dde).

(A WILL i'r tŷ).

ALICE: Gwrando ar hyn os wyt ti'n meddwl
mynd â dim o'r ~~loff~~ lle roeddit ti'n arfer cysgu ynddi.
(Yn mynd ati),—chei di ddim. Rwy'i'n cysgu yno
nawr.

MAGGIE: Roeddwn i'n meddwl y buasit yn ceisio
codi yn y byd, Alice. Ond y lymber sydd yn y garret
ddwedais i. Mae yno gwpwl o hen gadeiriau wedi
torri a soffâ â'r springs wedi treulio. Honni di ddim
fod y rheiny o unrhyw werth iti.

ALICE: Nag i tithau chwaith.

MAGGIE: Mae Will yn fedrus a'i ddwylo. Gall ef
eu cywiro y prynhawn yma. Fe fyddan' yn ddiogel
ichi eistedd arnyn' nhw heno wedyn.

VICKEY: A dyna'r ffordd rydych am ddechrau
byw! A hên gelfi wedi eu troi heibio. (Yn mynd at y
ffneustr ar y chwith).

ALICE : Ie. Mewn dwy seler yn Oldfield Road.
 VICKEY ac ALICE : Seler!
 MAGGIE : Dwy, Alice. Un i weithio a byw ynddi,
 all i gysgu ynddi.
 ALICE : Wel, wnelai hynny byth mo'r tro imi.
 VICKEY : Na minnau.
 MAGGIE : Fe wnaiff y tro imi i'r dim. A phan
 fydd Will a mi yn gyfoethocach na chi i gyd gyda'ch
 gilydd, bydd yn hyfryd inni edrych yn ôl a chofio
 ffordd y dechreuasom.

(Daw WILLIE i mewn drwy'r drws ar y dde yn cario
 dwy gadair fethedig a dechreua groesi'r siop).

VICKEY (yn ei atal) : Aros funud, Will. (Yn crassu
 ar y cadeiriau). Dyw 'rhain ddim cynddrwg.

MAGGIE : Fe all di eistedd ar un o honynt heno
 i gael gweld.

VICKEY : Edrych, fe wnai'r cadeiriau yna y tro yn
 burion imi i'r gegin ar ol imi briodi.

ALICE : Gwnan', neu i'm cegin i.

MAGGIE : Wel, mae 'mharlwr i yn dod o flaen eich
 ceginau chi, beth bynnag.

VICKEY : Parlwr ! Oni ddwedaist mai dim ond un
 ystafell sydd gennyf ?

MAGGIE : Wel, cystal imi ei galw yn barlwr â dim
 arall. (Yn mynd i agor y drws). Dôd y cadeiriau ar y
 tryc, Will. (A WILL allan). Does gennyf chi'r un
 gegin eto, ac os ydych chi am i'r cynllun sydd gennyf
 ar eich cyfer weithio, fe gofiwch mai'r cyfan rwy' i'n
 gael gennyf chi yw ychydig hên gelfi drylliog o'r
 garret, tra byddwch chi'n derbyn cynysgaeth go lew.

ALICE : Beth? (Yn dod i'r canol).

VICKEY : Cynysgaeth inni ein dwy, Maggie?

(Daw FREDDY yn ôl âg ALBERT gydag ef).

MAGGIE (wrth ALICE a VICKEY) : Gwell i chi fynd i
 wisgo eich hetiau yn awr neu fe fyddwch chi'n ddiweddar
 yn yr eglwys. (Yn sefyll rhyngddynt yn y canol).

VICKEY : Ond allwn ni ddim clywed yn gynta—?

MAGGIE (yn eu gyrru tuag at y drws ar y dde) :
 Cewch wybod cyn bo hir. Brysiwch yn awr. (A
 ALICE a VICKEY allan).

MAGGIE (yn troi) : Bore da, Albert. (Yn mynd ato
 ar y chwith). A ddeuthoch chi â'r hyn a geisiodd
 Freddy gennyf do?

ALBERT : Do, ond rwy'n ofni —. (Daw WILL yn
 ôl o'r stryd, croesa i'r dde ac â allan).

MAGGIE : Peidiwch â phoeni. Freddy, fe ddywed-
 ais wrthych y byddai gennyf job arall i chi. Ewch i'r
 garret gyda Will. Mae yno sofffa i'w chario i lawr.
 Tynnwch eich côt. Nawr te, Albert.

FREDDY : Ond— (Yn mynd i'r dde).

MAGGIE : Rwy' i wedi dweud beth sy i'w wneud, a
 allwch chi ddim cario sofffa heb dynnu'ch côt. Os na
 fydd hi lawr yma mewn dwy funud, fe adawa' i yr holl
 fusnes i chi ei threfnu a bydd picil pert ar bethau
 wedyn.

(Yn FREDDY ei gôt a'i gosod ar gadair o flaen y
 cownter).

FREDDY : O'r gora, Maggie.

(A allan ar y dde. Dyry ALBERT bapur glâs iddi i'w
 ddarllen).

Saesneg yw hwn? (*Mae'n eistedd ar y stol*).

KT (*yn sefyll ar yr aswy iddi*): Saesneg y Miss Hobson.

MAGGIE: Roeddwn i'n siwr mai nid Saesneg ydych chi, beth bynnag. Beth yn y byd yw eistyr ar ol gadael pob "whereas" a "the said" a "to wit" allan?

ALBERT: Y peth ddwedsoc'h chi wrth Freddy am ofyn imi ei wneud—sef dod i'r gyfraith ar Henry Horatio Hobson am drespasu ar bremises Jonathan Beenstock & Co., Corn Merchants, Chapel Street, Salford, a hawlio iawn am y "damage" a wnaeth i rai sachau yd drwy syrthio arnynt, a gofyn am "damages" ychwanegol am iddo geisio dod o hyd i "business secrets" y dywededig J. B. & Co.

MAGGIE: Wel, fe gymra' i'ch gair chi mai dyna yw'r ystyr, er bod hynny'n anodd. Ond mae cyfreithwyr fel doctoriaid, debig genny' Mae gan y ddwy alwedigaeth ryw iaith gyfrin ac os cewch chi lythyr gan un cyfreithiwr, mae'n rhaid ichi fynd ag e at gyfreithiwr arall i'w ddehongli, fel mae doctor yn eich anfon at y Chemist a rhyw "rigmarole" ar bapur na all neb ei ddeall er mwyn codi'r pris a fynnan' nhw am botelaid o ddwr a thipyn o liw ynddo.

ALBERT: Rwy' i wedi tynnu hwn allan yn ol eich cyfarwyddyd chi, Miss Hobson, ond charwn i ddim dweyd ei fod yn gyfreithlon, a hoffwn i ddim mynd ag e i lys barn.

MAGGIE: O'fynnodd neb i chi. Ddaw hwn byth

i lys barn. (*Daw WILL a FREDDY drwy'r drws i'r canol yn cario hen sofffa rhawn*). (*Maggie yn codi*). Agorwch y drws yna iddyn' nhw, Albert. (*ALBERT yn gwneud hynny a hwy'n mynd allan i'r stryd*). Beth o'r gloch yw hi? Fe allwch chi weld y cloc o'r fanna.

ALBERT (*tu allan*): Chwarter i un.

MAGGIE (*yn rhuthro at y drws ar y dde, yn ei agor ac yn galw*): Ferched, faddeua' i byth ichi os byddwch yn ddiweddar i'm priodas i. (*Try pan ddychwel WILL a FREDDY*). Gwisgwch eich cotiau. Ac yn awr, Freddy (*yn dod i'r canol*) cymrwch chi'r papur yma a gosodwch e'n sownd ar got nhad yn eich seler chi.

FREDDY: Yn awr?

MAGGIE: Yn awr? Ie, wrth gwrs. Fe all ddihuno unrhyw funud.

FREDDY: Ond roedd e'n cysgu'n sownd. Cha' i ddim dod i'r eglwys?

MAGGIE: Cewch os gallwch chi ddod yn ol cyn inni orffen.

FREDDY: O'r gora. (*A allan gan osod y papur yn ei boced*). Mae MAGGIE yn ei ddilyn at y drws).

MAGGIE: Nawr beth am y tryc? Ydym n' i fynd â hwnnw gyda ni?

ALBERT: I'r eglwys? Allwch chi byth â gwneud hynny!

WILLIE: Fe a' i ag e adre. (*Yn gwneud osgo i fynd*).

MAGGIE: A nghadw i'n aros am danat ti yn yr eglwys? Dim perig, ngwas i.

DEWIS ANORFOD

ALBERT: Allwch chi ddim 'i adael e lle mae e'n
 MAGGIE: Na. Does dim ond un peth am dani.
 Maid i chi fynd ag e i'n ty ni, Albert.

ALBERT: Y fi!

MAGGIE (*wrth* ALBERT *sy' ar y chwith*): Dyma'r
 allwedd. (*Tyn hi o'r bag*). 39A Oldfield Road yw'r tŷ.

ALBERT: Ie, ond—gwrthio tryc drwy Salford
 ganol dydd golau!

MAGGIE: Wnaiff hynny ddim trochi'ch coler chi.

ALBERT: Ond beth pe bai rhai o 'nghyfeillion yn
 'y ngweld i! (*Y ddau yn symud i'r chwith*).

MAGGIE: Edrych yma, machgen i, os wyt ti'n rhy
 falch i wneud cymwynas fach fel yna, nid y ti sydd i
 fod yn wr i'm chwaer i.

ALBERT: Ond fe fydd pawb yn 'y ngweld i.
 Allwch chi ddim anfon rhywun oddiyma?

MAGGIE: Na alla! Meddylwch dros y peth.
 (*Egyr y "trap-door"*). Tubby!

TUBBY (*islaw*): Ie, Miss. (*Ymddengys hanner y
 sffordd i fyny*). O, y chi sy' na, Miss Maggie.

MAGGIE: Tyrd yma, Tubby. Rwy' i am iti ofalu
 am y siop. Rydym ni'n mynd allan am dipyn bach.

TUBBY: Fe fydda' i lan mewn hanner munud, Miss
 Maggie. (*A i lawr a chaua'r "trap-door"*).

MAGGIE: Wel, Albert Prosser!

ALBERT (*ar y chwith*): Mae'n rhaid imi, debig.

MAGGIE: Dyna fe. Gall y gymwynas hon fod yn
 anrheg priodas oddiwrthych chi imi, ac rwy'n cyfadde
 eich bod yn gwneud tipyn o aberth er fy mwyn. (*Yn*

DEWIS ANORFOD

DEWIS ANORFOD

*mynd gydag ef at y drws. A yntau. Try hithau i'r
 canol*). Wel, Will, rwy'ti wedi bod yn dawel iawn
 heddiw. Sut rwy'ti'n teimlo, fachgen?

WILLIE: Fe a' i drwyddi gyda thi, Maggie.

MAGGIE: Yh?

WILLIE: Rwy' i wedi gwneud 'y meddwl i fyny.
 Rwy' i wedi magu digon o galon. Rwy'n barod.

MAGGIE: Ond i'r eglwys rydym ni'n mynd—nid
 at y dentist.

WILLIE: Fe wn i hynny. Mae dyn yn cael gwared
 rhywbeth wrth dynnu dant, ond cymryd rhywbeth
 mae e wrth briodi, a Duw a wŷr beth.

MAGGIE: Mae genny' barch i'r eglwys wel'di,
 Will. Nid lle i ddweyd celwyddau ydyw. Fe fydd y
 'ffeiriad yn gofyn iti os mynni di fy nghymryd i, a
 mae'n rhaid iti ateb y gwir neu ddim. Os nad wyt ti'n
 fodlon, dywed hynny nawr, a—

WILLIE: Fe ddwedà' i "Gwnaf" wrtho.

MAGGIE: A fydd hynny'n wir?

WILLIE: Bydd, Maggie. Rwy' i wedi ymostwng.
 Rwy'n dechrau cynefino â thi, ferch. Fe wna' i
 'ngore gyda thi.

(*Daw ALICE a VICKY i mewn wedi ymwisgo yn eu
 dillad gorau—y rheiny a barodd gymaint tramgwydd i
 HOBSON yn Act I. Mae MAGGIE yn mynd â WILLIE
 tua'r chwith*).

ALICE: Dyma ni'n barod, Maggie.

MAGGIE: Mae'n hên bryd i chi hefyd. Nid erbyn
 eich priodas eich hun yr ych chi'n gwisgo. (*Wrth
 y "trap-door"*). Tyrd, Tubby, i ofalu am bethau.

(with WILL): Mae'r fodrwy gennyf ti,

ACT III.

Mae'r seler yn Oldfield Road yn weithdy crydd, yn siop 'sgidiau ac yn ystafell fyw yr un pryd. Ar y llaw dde yn y cornel pellaf, y mae'r drws sy'n arwain i'r stryd ar ben rhyw saith o rissiau. Yn uchel yn y pared cefn y mae tair ffenestr, nid ffenestri siop mo honynt, ond ffenestri i olcuo'r seler. Gwelir "William Mossop, Practical Bootmaker" yn wynebu tuag allan ar bob ffenestr a theifl lamp ô'r stryd oleuni egwan ar y llyth-rennau.

Yn y pared ar y chwith y mae drws yn arwain i'r ystafell wely. Ar draws y cornel uchaf ar y chwith gwelir llen sy'n cuddio'r "sink." Yn erbyn y mur ar y dde uwchlaw'r lle t'n mae mainc crydd, rhôl o ledr, offer gwaith, &c. Islaw'r drws ar y chwith mae dresser fach. Yn y canol ychydig i'r dde saif bwrdd. Gwelir y sofffa a'r ddwy gadair a ddaeth o lofft HOBSON, ond y maent wedi eu cywiro erbyn hyn, Saif y sofffa ar yr ochr chwith i'r bwrdd, y cadeiriau ar y dde. Y mae lle i bedwar i eistedd ar y sofffa—ALBERT, ALICE, VICKEY a FRED yn y drefn yma o'r gwaelod i fyny.

Eithr pan gwyd y llen, mae'r pedwar ar eu traed yn dal cerpanau yn eu dwylo ac yn dweyd gyda'i gilydd, "Y Priodfab a'r Briodferch, Priodas Dda." Wedi yfed eisteddant ar y sofffa. Clywir hwynt yn chwerthin ac yn ymddiddan. Ar y gadair sydd wrth ben uchaf y bwrdd y mae MAGGIE. Oddiar y gadair arall sydd yn y canol cwyd WILL yn nerfus a swil, a rhuthra drwy ei araeth fel

LLEN.

DEWIS ANORFOD

yn yn adrodd gwe s. Ar ganol y bwrdd mae blodau
dd o dŷ gwyr, mewn bowlen a gweddillion y wled
riodas—pryd o de yn hytrach na chinio. Erys ar y
bwrdd ddarnau o bastai sawr o gig porc a theisen briodas
fechan. Pan gwyrd WILL i gydnabod y dymuniadau da,
mae ALBERT yn curu'r bwrdd ac ALICE yn ceisio ei atal.

WILLIE : Mae'n bleser mawr gennym eich gweld
yma heno. Mae'n anrhydedd inni, ydi'n wir, i—i'm
gwraig a minnau eich bod—eich bod mor —

MAGGIE (mewn llais isel) : Garedig.

WILLIE : O, ie. Dyna fe. Mor garedig â datgan
eich teimladau da ar gynigiad Mr. Beenstock wedi ei
eilio mor gynnes gan,—na—nid felna, chwaith—wedi ei
gynnig gan Mr. Prosser a'i eilio gan Mr. Beenstock.
Nid anghofiwn ni, fy ngwraig a minnau, byth mo'ch
caredigrwydd—ac yn awr—yn awr carwn yfed iechyd
da i chwi yn fy nhŷ fy hun. Ein gwahoddedigion, boed
iddynt bob un briodi yn fuan !

MAGGIE (yn codi ac yn yfed gyda WILL) : Ein
gwahoddedigion ! (Y ddau yn eistedd).

(Pawb yn llon).

ALBERT (yn codi yn urddasol) : Rwy'n codi i
ddiolch—

ALICE (yn tynnu ei gôl, ac yn ei orfodi i eistedd) :
Eisteddwch. Rydym ni wedi cael digon o areithio.
Fe wn i fod dynion yn hoff o glywed eu hunain yn
sitarad, ond fe gawsoch un cyfle'n barod a does dim
angen ail-ddechrau arni.

ALBERT : Ond fe ddylem ddiolch iddo, Alice.

DEWIS ANORFOD

ALICE : Falle hynny. Ond wnewch chi ddim
cystal araith â Will, felly gadewch i'r areithio orffen ar
dir uchel. Rwy'n barod i gydnabod, Will, iti fy
synnu i.

FREDDY : Araith fach deidi'n wir. (yn codi).

VICKEY : Pwy a'th ddysgodd di, Will ?

WILLIE : Rwy' i wedi dysgu llawer yn ddiweddar.

ALICE : Roeddwn i'n meddwl mai nid Will 'i hun
wnaeth yr araith yna.

MAGGIE : Rwy' i'n dysgu tipyn arno.

FREDDY : Mae e'n dysgu'n rhwydd, rhaid imi
ddweyd.

MAGGIE : Fe wna'r tro. Ymhen ugain mlynedd
fe wn i p'un ohonoch chi'ch tri fydd yn pwyso'n dryma
yn y Banc.

FREDDY : Mae hynny yn golygu edrych ymlaen
ymhell i'r dyfodol.

MAGGIE : Rwy'n cyfaddef bod angen tipyn o
ddydhymyg i weld hynny ar hyn o bryd.

ALBERT (yn codi ac yn symud ychydig i'r canol) :
Wel, rydych yn dechrau yn o lew. Ystafelloedd bach
clyd ; busnes eich hunain, ac yn y blaen. Rwy' i
wedi bod yn ceisio meddwl o ble y cawsoch chi'r arian
i ddechrau byw, Maggie.

MAGGIE : Y fi ? Nid fy siop i yw hon. Ei siop
e yw hon.

ALICE : Wyt ti am ddweyd wrthyf fi mai gan Will
roedd yr arian ?

MAGGIE : Mae Will wedi byw yn gynnil erioed.

ALICE : Yn gynnil ofnadwy os oedd gennych chi

agor y siop yma allan o'r gyflog gafodd e gan

MAGGIE : Wel na, ddim yn hollol felly. Rydym ni
cael help.

ALBERT : O !

VICKEY : Mae'n ddirgelwch imi o ble.

MAGGIE : O'r un man â'r blodau yna, Albert.

ALBERT : Blodau o "hot-house" mi wela'. (A i
graffu arnynt). O ble daeth y rhain sgwn i ?
(Mae VICKEY a FRED yn eu harogli).

MAGGIE : O'r un man â'r arian, Albert.

ALBERT : O !

ALICE (yn codi ac yn ei ddilyn i'r canol) : Wel,
rwy'n credu 'i bod hi'n bryd inni 'i throi hi tuag adre,
Maggie.

MAGGIE (yn codi gyda'r lleill) : Synnwn i ddim wir.
Dichon fod Tubby wedi blino gofalu am y siop erbyn
hyn, ac os yw nhad wedi diuno a chyrraedd adre'—

ALICE : Dyna beth rwy'n ofni.

MAGGIE : Fe fydd dipyn yn anodd ei drin. Dewch
i wisgo'ch hetiau. (Mae hi ar y ffordd i'r chwith i'r
ystafell arall gydag ALICE pan saif). Willie, fe fydd
eisiau'r ford yna arnom ni ar ol iddyn' nhw fynd.
Gwell iti glirio'r llestri mawr.

WILLIE (wrth y bwrdd) : O'r gora, Maggie. (Try
MAGGIE i'r chwith).

FREDDY : Ond—ond—dwyt ti ddim—

ALBERT : O'r mawredd ! (Maent yn chwertthin).

MAGGIE (yn ddigyffro) : Ac fe allwch chi a Fred ei
helpu i'w golchi.

FREDDY : Y fi yn golchi llestri !

VICKEY (wedi ei sarhau yn wir) : Maggie, gwahodd-
edigion ydym ni !

MAGGIE : Fe wn i hynny. Ond fe wnaeth Albert
sport am ben Willie, a falle bydd golchi'r llestri yn help
iddo gofio na wnaiff peth felly mo'r tro.

(Mae hi yn arwain ALICE a VICKEY allan. Dechrau
WILLIE ddodi'r llestri ar hambwrdd a gafodd tucfn i'r
llen ar y chwith).

ALBERT (ar ôl iddo ef a FRED edrych ar ei gilydd,
yna ar WILL, yna ar ei gilydd drachefn) : Wyt ti'n
mynd i olchi llestri ?

FREDDY : Wyt ti ?

ALBERT : Wel, dyma fel rwy' i'n edrych arni. Os
try pethau allan fel rydym ni'n dymuno fe fyddi di a
minnau yn perthyn i'r teulu, ac fe wyddom yn dda
beth yw Maggie. Os dechreuwn ni roi ei ffordd iddi
nawr, fe fydd hi'n awdurdodi arnom ni cyhyd ag y
byddwn ni byw.

FREDDY : Eitha gwir. Ond beth am y cynllun
yma sydd ganddi i'n helpu ni ? Wyt ti'n barod i'w
gario allan heb help Maggie ?

ALBERT : Nagw'i. Alla' i ddim—

FREDDY : Felly, gwell inni gadw Maggie o'n
hochr ni, hyd hynny.

ALBERT : Ond golchi llestri, Fred ! (Yn symud
i'r chwith).

(Ennyd o ddistawrwydd. Maent yn edrych ar WILL
sydd yn parhau i glirio'r bwrdd).

DEWIS ANORFOD

FREDDY: Beth fuasit ti'n wneud yn ein lle ni,
 WILLIE: Gwnewch chi fel y mynnoch chi. Rwy'
 mynd ymlaen â'r gwaith a roddodd Maggie imi.
 FREDDY: Ond rwy'ti wedi ei phriodi hi. Dydym
 ni ddim.
 ALBERT: Beth yw'r brys am gael y ford yn glir?
 WILLIE: Dwy' i ddim mewn brys fy hun.
 FREDDY: Maggie sydd am dani, felly.
 WILLIE: Ie, i gael lle i'r gwersi, debig. Mae hi'n
 rhoi tipyn o ysgol imi.
 FREDDY: A dwyt tithau ddim am ddysgu.
 WILLIE (*yn dod i'r canol*): Wel, nid felly chwaith.
 Ond dwy' i ddim am fod yn anfoesgar—a'ch troi chi
 allan oddiyma mor gynnar. Yn siwr does dim angen
 ichi fynd eto. (*Yn croesi tu cefn i'r burdd*).
 ALBERT: Pam rwy'ti am inni aros?
 WILLIE: Rwy'n hoff o dipyn o gwmni.
 ALBERT: Wyt ti am gael cwmni ar noson dy
 briodas?
 WILLIE: Dwy' i ddim am eich gweld chi'n 'madael
 mor gynnar. (*Yn dychwelyd i'r canol*).
 FREDDY: Mae ofn arno fod i hunan gyda hi.
 Dyna fel mae hi. Mae e dipyn yn swil gyda hi.
 (*Maent yn chwertlin*).
 WILLIE: Dyna'r ffaith i chi. Phriodais i erioed
 o'r blaen, welwch chi. Dwy' i ddim wedi bod wrthyf
 fy hunan gyda hi o gwbl. Hyd yn hyn, roedd hi'n
 dod i dŷ Tubby Wadlow lle roeddwn i'n lodgio i roi
 gwersi imi. Mae popeth yn wahanol nawr, ac rwy'n

DEWIS ANORFOD

cyfadde'n onest fy mod yn teimlo dipyn yn od. Fe
 fydda' i'n ddiolchgar dros ben ichi am aros mlaen
 dipyn i doddi'r ia imi.
 FREDDY: Fe fuost yn caru â hi, onido?
 WILLIE: Wel do, bid siwr,—ond ddim yn hir. A
 welwch chi, dyw Maggie ddim y sort y gallwch chi fod
 yn hyf arni.
 FREDDY: Cefais't ddigon o amser i doddi'r ia,
 fachgen. Nid ein "job" ni yw gwneud hynny
 drosot. (*Yn symud ymaith i'r dde*).
 ALBERT: Nage. Fred, mae'n rhaid golchi'r
 llestri yma. Nawr am dani.
 (*A ALBERT a'r hamburdd y tu ol i'r llen. Clywir dwr
 yn rhedeg. Gwelir ef yn dal lliain. Mae FRED yn ei
 ddilyn ond geirw WILL ef yn ôl wrth ddychwelyd â'r
 hamburdd at y burdd*).
 WILLIE: Fred, sut byddet ti'n teimlo gyda—gyda
 merch fel Maggie? (*Yn mynd i'r canol*).
 FREDDY: Nid dyna'r pwynt. Nid y fi yw i
 gwr hi.
 WILLIE: Ond bod wrthyf fy hunan gyda hi, dyna
 sy'n rhoi braw imi, a roeddwn i'n meddwl y buasech
 chi'n sefyll gyda mi nes imi gynefino tipyn â'r dieithr-
 wch.
 ALBERT (*yn dod i lawr a lliain*): Nid felna rydym
 ni'n edrych ar bethau. Brysia gyda'r llestri yna,
 Fred. (*Mae MAGGIE yn dychwelyd gydag ALICE a
 VICKEY wedi gwisgo*).
 MAGGIE: Dorasoch chi rywbeth eto, Albert?
 ALBERT (*yn lliidiog*): Beth? Naddo siwr.

DEWIS ANORFOD

EDDY : Rhy hamddenol, debig genny'.

ALBERT : Rhaid imi ddweyd nad ydych yn rhyw agar iawn.

ALBERT : Onid ydych yn rhyfeddu ein gweld yn neud y gorchwyl yma?

MAGGIE : Yn rhyfeddu? Pam? Ond fe ddwedais wrthych am ei wneud.

FREDDY : Do, ond—*(yn n.ynd a'r hambwrdd i i fyny ar y chwith.*

MAGGIE *(yn cymryd y lliain oddiw'rtho)* : Dyna ddigon nawr. Fe alla' i orffen ar ol i chi fynd. *(Curo ar y drws i fyny'r grisiau ar y dde.)*

ALICE : Pwy sy yna tybed?

MAGGIE : Rhywun heb fedru darllen debig genny'. Fe hongiaist y cerdyn yna ar y drws, Will?

WILLIE : Do, fe roddais i'r cerdyn yno ond y ti ysgrifennodd arno, Maggie.

MAGGIE : Ie, wrth gwrs, fe wyddwn i nad oedd dim iws gadael hynny iti. "Business suspended for the day," dyna sy arno, ac os na fedr pwy bynnag sy yna ddarllen, caiff guro faint a fyn e.

HOBSON *(i fyny ar y dde, ar ol curo eto)* : Wyt ti yna, Maggie?

VICKEY *(mewn braw mawr)* : Nhad sydd yna ! *(Mae pawb yn cyffroi.)*

ALBERT : O'r mawredd !

MAGGIE : Beth sy'n bod? Oes 'i ofn e arnoch chi?

FREDDY : Wel, ac ystyried popeth, falle—

MAGGIE : O'r gora. Gadewch imi ystyried popeth. Fe allwch chi i gyd fynd i'r ystafell wely.

DEWIS ANORFOD

Na, nid y ti, Willie. Y lleill. Fe alwa' i arnoch chi pan fydd eich eisiau.

ALICE : Pan fydd e wedi mynd.

MAGGIE : Cyn iddo fynd, merchi.

(Croesa MAGGIE i'r chwith gyda hwynt.)

VICKEY : Ond nid ydym am—

MAGGIE : Tŷ pwy yw hwn, Vickey?

VICKEY : Dy seler di yw hi.

MAGGIE : A minnau yw'r feistres yma, cofia. *(A'r pedwar i'r ystafell wely. Mae VICKEY yn dechrau dadleu. ALBERT yn agor y drws. Gwthir VICKEY i mewn yna â ALICE, FREDDY ac ALBERT. Mae WILL ar ei ffordd i fyny'r grisiau.)* Eistedd yn llonydd, Will, a phaid ag anghofio mai y ti yw'r meist'r yma. Fe agora' i'r drws.

(Mae WILL yn eistedd yng nghadair MAGGIE. A MAGGIE i fyny'r grisiau ac egr y drws. Daw HOBSON i'r golwg ar y gris uchaf.)

HOBSON *(fel pe'n ymddiheuro)* : Wel, Maggie.

MAGGIE *(heb ei wahodd i mewn)* : Wel, nhad.

HOBSON *(heb sawr hyder)* : Fe ddo' i i mewn.

MAGGIE *(yn sefyll ar ei ffordd)* : Wel, wn i ddim. Rhaid imi ofyn i'r meist'r gynta.

HOBSON : Yh? Y meist'r?

MAGGIE : Ddaru chi ag yntau ddim 'madael â'ch gilydd yn rhy heddychlon, wyddoch. *(Dros y canllaw.)* Will, nhad sy yma. Gaiff e ddod i mewn.

WILLIE *(yn uchel ac awdurdodol)* : Caiff, gad iddo ddod.

DEWIS ANORFOD

Law HOBSON *i lawr a* MAGGIE *ar ol cau y drws yn ei alyn.* Syll HOBSON *oddiamgylch*).

HOBSON : Dwyt ti ddim yn dangos dy fod yn falch iawn i 'ngweld i, was.

WILLIE (*yn codi i'r canol*) : Ond yr ydw' i'n falch. (*Yn ysgwyd llaw am ysbaid hir*). Rwy'n falch iawn i'ch gweld, Mr. Hobson. (MAGGIE *yn dod i lawr y dde*). Dyna beth oedd eisiau i wneud ein dydd priodas yn gyflawn, a chwithau'n dad i Maggie, a rwy'n—rwy'n gobeithio y gallwch chi aros yma am spel go dda.

HOBSON : Wel —

MAGGIE : Dyna ddigon, Will. Does dim eisiau iti fod yn rhy groesawus. Fe gewch eistedd i lawr am bum munud, nhad. Mae'r sofffa yna yn ddigon cryf i ddal eich pwysau chi. Mae wedi profi hynny eisoes. (HOBSON *yn eistedd*, WILL *ar y gadair ar y dde*).

WILLIE (*yn cydio yn y tebot*) : Does dim ond tē yma i'w yfed, ac y mae arnaf ofn ei fod wedi sefyll yn rhy hir yn y tebot ond fe wna' i—

MAGGIE (*yn cymryd y tebot oddiarno pan symuda Will i gyfeiriad y lle tân*) : Wnei di ddim o'r fath beth. Mae nhad yn leicio diod gadarn.

WILLIE (*yn sefyll wrth y bwrdd ar y dde*) : Tamaid o'r bastai yma nawr, Mr. Hobson?

HOBSON (*yn gruddfan*) : Pastai borc! Yeh!

MAGGIE (*yn sutla*) : Fe wnewch chi ymddwyn yn foengar gan eich bod wedi dod yma, gobeithio. (*Mae yn arllwys y tē*).

HOBSON : Nid moesgarwch ddaeth â mi yma, Maggie.

DEWIS ANORFOD

MAGGIE : Wel, beth ynte?

HOBSON : Maggie, rwy' i mewn tipyn o helbul. Mae anlwc ofnadwy wedi dod i gyfarfod â mi.

MAGGIE (*yn torri'r deisen*) : Falle y gwna tamaid o deisen briodas les i chi.

HOBSON (*yn arswydo*) : Ond mae hi'n felys.

MAGGIE : Fel pob teisen, bid siwr. (*Yn eistedd fel o'r blaen*).

HOBSON : Mae gen i ben tost ofnadwy.

MAGGIE : O! Ond â'r galon y mae a wnelo teisen briodas. Fyddai yna ddim teisen briodas o gwbl pe byddem yn rhoi'r lle blaenaf i'n pennau. Rwy'n cyfadde mod i'n ffôl, ond mae genny' awydd gweld fy nhad yn eistedd wrth fy mwrdd yn bwyta fy nheisen briodas i ar ddydd 'y mhriodas.

HOBSON : Mater pwysig sy wedi dod â mi yma, Maggie.

MAGGIE : All e ddim bod mor bwysig imi â'r wybodaeth eich bod chi'n dymuno'n dda imi.

HOBSON : Wel, Maggie, rwy'ti'n gwybod sut un wy' i. Ni ellir galw ddoe yn ol. Cefais'ty dy ffordd dy hun a gwnaethost yr hyn a-fynnaist. Dwy' i ddim yn teimlo'n falch o'r dewis a wnaethost ti a ddweda' i ddim celwydd fy mod i, ond rwy' i wedi ysgwyd llaw â'th wr a mae hynny'n arwydd iti. Dwy' i ddim am gollu dagrau am yr hyn sy wedi digwydd.

MAGGIE (*yn dal plât*) : Wel dyma'ch teisen; bwytwch hi.

HOBSON : Rwy' i wedi rhoi 'ngair nad wy' i ddim yn dal dig. (*Yn guthio'r plât ymaith*).

Ond beth am ddangos hynny mewn

(*Yn guthio'r plât yn ôl*).

HOBSON : Menyw galed wyt ti. (*Mae'n bwyta*).

Annwt ti ddim trugaredd at wendid henaint.

MAGGIE : Ydych chi wedi gorffen ?

HOBSON : Estyn y tē yna imi. (*Mae hi'n ufuddhau*

mac yntau yn yfed) : Mac hwnna'n dygymod yn well â mi.

MAGGIE : Nawr dwedwch beth yw eich neges.

HOBSON : Rwy' i mewn tipyn o helbul, Maggie.

MAGGIE (*yn codi, ac yn mynd i gyfeiriad y drws ar y chwith*) : Fe adawa' i chi'ch dau. Cewch drafod y mater gyda 'ngwr.

HOBSON : Yh ?

MAGGIE : Fyddwch chi ddim am dana' i. Dyw menywod ddim ond ar eich ffordd chi pan fydd busnes ger bron.

HOBSON (*yn codi, ac yn mynd i'r canol*) : Maggie, dwyt ti ddim am droi dy gefn arnaf yn fy mhrofed-igaeth.

MAGGIE : Does bosib eich bod yn gofyn am help menyw ar ol yr hyn ddwedsoc'h chi ! Fe wna Will i' orau drosoch yn siwr i chi. (*Mae hi'n mynd tuag at y drws*). Galw fi pan fyddwch wedi gorffen, Will.

HOBSON (*yn ei dilyn*) : Maggie, mater preifat yw hwn.

MAGGIE : Wel, ie. Dyna pam rwy'n mynd o'r ffordd er mwyn i chi'ch dau, dau ddyd, drafod y mater heb ryw fenyw ffôl i ymyryd â chi.

HOBSON : Rwy'n dweyd wrthyt ti, mai ti rwy' i am weld, nid efe. Mae'n fater preifat oddiwrtho fe.

MAGGIE : Preifat oddiwrth Will ? Nagyw'n wir. Mae Will yn un o'r teulu. (*Yn dod gam yn ôl*). Allwch chi ddweyd dim wrthyf fi na ellir ei ddweyd wrtho yntau.

HOBSON : Oes rhaid imi ddweyd fy helynt wrthyt ti ac yntau yma ?

MAGGIE : Mae Will a mi'n un.

WILLIE : Eisteddwch lawr, Mr. Hobson.

MAGGIE : Rwyf i'w alw'n nhad nawr.

WILLIE (*yn syn*) : Ydw' i ?

HOBSON : Ydi e ?

MAGGIE : Ydi ! Eistedd, Will. (*Mae WILL yn eistedd wrth y bwrdd yn wynebu HOBSON sy ar y soffâ*. Saif MAGGIE wrth ben y bwrdd). Nawr, nhad, rydym ni'n barod os ydych chi. Beth sy'n bod ?

HOBSON : Dyma — (*yn dangos y papur glâs*) dyma beth sy'n bod.

(*Mae MAGGIE yn cymryd y papur ac yn ei estyn i WILL. Yna â hi i sefyll y tu cefn i'w gadair gan edrych dros ei ysgwydd. Mae WILL yn ceisio ei ddarllen a phen y papur i lawr ac y mae hithau yn ei droi yn iawn*).

MAGGIE : Beth yw e, Will ?

HOBSON (*yn curo'r bwrdd*) : Mae hi ar ben arna' i, Maggie ; dyma ddiwedd arna' i ! Colled a thorri fydd fy hanes. Beth yn y byd ydw' i ? Ydw' i'n Warden yn Eglwys Sant Philip neu beidio ? Ai y fi yw Hobson o Siop 'Sgidiau Hobson, Chapel Street, Salford ?

DEWIS ANORFOD

drethdalwr teidi ac yn benteulu respectabl

AGGIE (*sydd wedi bod yn darllen dros ysgwydd* (ILL) : "Summons" yw hwn am drespasu, mi wela.

HOBSON : Brad a chynllwyn rwy' i'n galw peth fel hyn, dyw e ddim yn deg, dyw e ddim yn deilwng o'n gwlad ni, peth dichellgar ydyw i rywun gymryd mantais o beth a ddigwyddodd yn ddfwriad.

MAGGIE : A fuoch chi'n trespasu ?

HOBSON : Maggie, rwy'n dweyd wrthyt ti'n ddi-frifol, arnat ti mae'r bai. Fe gefais i ddamwain, rhaid imi gyfadde. Roeddwn i wedi bod yn Y Bedol ac wedi aros yno yn rhy hir. A pham? Paham yr arhosais i yno yn rhy hir? I geisio anghofio bod gennyf blentyn mor ddi-ddiolch, i geisio colli mewn ebargofiant yr atgof am dy ymddygiad di. Dyna pam! A beth oedd y canlyniad, y canlyniad ofnadwy ac andwyol?. Fe gwympais i'r seler yna. Fe gysgais yn y seler ac fe ddeffrois i gael fy hun yn y seler yna yn y trybini yma. Cyfreithwyr .. costau .. cyhoeddus-rydd .. dinistr!

MAGGIE (*yn dod heidio'r burdd i'r canol*) : Rwy'n parhau i ofyn i chi. Ai damwain ydoedd? Neu a fuoch chi'n trespasu?

HOBSON : Damwain ydoedd. Mae mor wir â bod Guildhall yn Salford ond y mae gwyr y gyfraith—melldith arny'n nhw—yn gallu troi'r gwyn yn ddu. Rwy' i yn 'u crafangau nhw o'r diwedd! Rwy' i wedi cadw'n ddigon pell oddiwrth gyfreithwyr drwy gydol f'oes, rwy' i wedi cashau cyfreithwyr a dyma nhw

DEWIS ANORFOD

wedi cael 'u cyfle i 'mlingo i o'r diwedd. Rwy' i wedi 'u hosgoi hyd yn hyn, ond dyma nhw wedi nghael i i'w crafangau yn y diwedd. Byddant yn sicr o 'ngorffen i a 'mlingo i nawr.

WILLIE : Ar 'y ngair i, mae hi'n edrych yn ddu arnoch chi.

(*Mae HOBSON yn craffu arno*).

MAGGIE : Mae hyn yn ddi-frifol, mi wela'. Syn-nwn i ddim na chollwch chi nifer o gwsmeriaid da o achos hyn.

HOBSON : Mae hynny cyn wired â'r pader. (*Yn codi i'r canol*). Dyw cwsmeriaid parchus ddim yn mynd i brynu sgidiau gan ddynd sydd wedi bod o flaen ei well, ac wedi gorfod cyfadde ei fod dan ddylanwad diod cyn hanner dydd. Chredan' nhw ddim mai gofid personol oedd yn cyfrif am y cwbl. Dim ond fy nirmygu wnan' nhw oherwydd imi fethu rheoli fy merch a gadael iddi ddod â'r gofid yma arnaf. Dyna beth ydych chi wedi wneud imi. Tynnu gwarth fel hyn ar 'y mhen i, chi'ch dau rhyngoch chi.

WILLIE : Wyt ti'n meddwl, Maggie, y bydd hyn yn y papurau?

MAGGIE : Bydd gwaetha'r modd. Fe fydd eich enw yn y Salford Reporter yn wir i chi.

HOBSON : Salford Reporter! Bydd a mwy na hynny. Pan ddaw dinistr a gwarth ac anffawd i ran dyn mor gyfrifol â myfi, nid y Salford Reporter yn unig sy'n cyhoeddi'r hanes. Fe fydd hanes fy nhrybini ofnadwy yn ymddangos yn y Manchester Guardian i'r holl sir ei ddarllen.

WILLIE: Wel, myn brain i, meddylwch! Eich
y Manchester Guardian! Ar un olwg byddai
yn werth wynebu dinistr er mwyn darllen eich
hanes eich hun mewn print.

HOBSON (*yn eistedd ar y sofa*): Ond bydd yno i
eraill ei ddarllen hefyd, was.

WILLIE: Wel bydd, bid siwr. Feddyliais i ddim
am hynny. Bydd darllen eich hanes yn rhoi boddhad
i lawer un y gallwn ei enwi. Mae pobl yn hoff o ddarllen
am brofedigaethau pobl eraill yn y papur newydd,
ac yn cael llawer mwy o foddhad mi wranta' i os ydynt
yn 'nabod y dyn. (*Mae'n berffaith ddiddichell ac heb
gysgod o falais*).

HOBSON: Mae dy glywed di'n siarad felna yn peri
imi feddwl y cei dithau fwynhad.

WILLIE (*yn ddiffuant*): Na, na. Rydych chi wedi
bwyta fy nheisen briodas ac wedi ysgwyd llaw â mi.
Rydym yn gyfeillion, gobeithio a dim ond meddwl
dros y peth oeddwn i fel ffrynd. Rwy' i wastad yn
credu bod yn well edrych ar yr ochr waetha' gyntaf,
yna, beth bynnag a ddigwydda, all e ddim bod yn
waeth. Dyna eglwys Sant Philip nawr. Dyw hi ddim
yn debig y byddwch chi'n Warden y Ficer ar ol yr
helynt yma, ac y mae'n siwr genny' fod y swydd wedi
dod â nifer go dda o gwsmeriaid o'r eglwys i chi.

HOBSON (*yn troi ati*): Rwy'n cael cysur mawr
iawn gan dy wr, Maggie.

MAGGIE: Rydych yn cael cymaint ag ydych yn ei
haeddu. (*Yn mynd ato*).

HOBSON: A oes gennyf ychwaneg o ddi-ddanwch
i'w roi imi, Will?

WILLIE (*wedi ei glwyfo*): Dim ond dweyd beth
ddaeth i'm meddwl ddaru mi.

HOBSON: Wel, a ddwedaist ti'r cyfan?

WILLIE: Alla' i gau 'nheg os mynnwch chi.

HOBSON: Paid â rhoi gormod o strain arnat dy
hun, Will Mossop. Pan mae meddwl dyn yn llawn o'r
pethau sy gennyf ti, mae'n well iddyn' nhw ddod
allan. Gad ti iddyn' nhw ddod, machgen i. Bydd
lle glanach ar eu hol.

WILLIE: Dwy' i ddim llawer o siaradwr, a rhyw-
fodd rwy' i wastad yn dweyd yr hyn na ddylwn i.
Mae'n ddrwg genny' os nad yw'r geiriau a ddwedais
yn eitha' caredig yn eich plesio, ond roeddwn i'n
meddwl mai dod yma am gyngor wnaethoch chi.

HOBSON: Ddeuthum i ddim am gyngor atat ti,
geiliog y domen sy'n codi dy grib—(*yn codi*).

MAGGIE: Dyna ddigon, nhad. (*Yn ei wthio yn
bl*). Mae 'ngwr i yn ceisio eich helpu.

HOBSON (*Syll HOBSON yn sarrug am ciliad yna
dywed yn hynaws*): Ti sy'n gwybod, Maggie.

MAGGIE: Nawr ynghylch y ddamwain yma.

HOBSON: Ie, Maggie.

MAGGIE: Ofn y cyhoedduswydd sy'n blino fwyaf
arnoch.

HOBSON: Y ffaith fy mod i gael fy llusgo i lys
barn o gwbl a minnau'n ddyn cyfrifol wedi fôtio dros y
dyn gorau bob tro ac yn bleidiwr selog i'r Frenhines a'r
llywodraeth drwy fy oes.

DEWIS ANORFOD

MAGGIE : Felly, mae'n rhaid inni gadw'r mater allan o'r llys.

HOBSON (*yn codi i'r canol*) : Os oes yna gyfreithwyr yn y nefoedd, Maggie, ond rwy'n amau hynny, falle y gellir cadw achosion allan o'r llys yno. Ar y ddaear, gwaith y cyfreithwyr ydi gwasgu ar ddyn, a gwasgu arno yn y man mwyaf cyhoeddus,—y llys.

MAGGIE : Rwy' i wedi clywed am achosion yn cael eu setlo allan o'r llys, yn dawel fach.

HOBSON : Yn dawel fach, ddwedaist ti? Debig iawn, a'r wasgfa yn waeth fyth o achos hynny. O ie, yr helynt yn cael ei drin yn eu plith eu hunain wedi cau drysau'r "office" lle na all neb weld eu bod yn gwasgu ganwaith yn drymach nag a feiddian' nhw wneud yn y llys. Fe gostia ffortiwn i setlo'r mater yma yn dawel fach, Maggie.

MAGGIE : Dwy' i'n amau dim na chostia hynny swm go lew, ond byddai'n well gennych ei setlo'n dawel fach nag yn gyhoeddus?

HOBSON (*yn eistedd eto ar y soffa*) : O na bai hynny'n bosibl yn rhywle heb law yn "office" cyfreithiwr!

MAGGIE : Fe allwch ei setlo gyda'r cyfreithiwr allan o'r "office." Fe allwch ei setlo yma, nawr. (*Mae'n mynd i'r chwith ac yn agor y drws*). Albert! (*Daw ALBERT i mewn i'r canol gan adael y drws ar agor*). Dyma Mr. Prosser o "office" Prosser, Pilkington and Prosser.

HOBSON (*yn syn*) : Aie!

MAGGIE : Ie.

DEWIS ANORFOD

HOBSON (*yn anghrediniol ac yn codi*) : Ydych chi'n gyfreithiwr?

ALBERT : Ydw, cyfreithiwr ydw' i.

HOBSON (*yn dangos atgasedd anrhaethadwy*) : A chwithau mor ifanc?

MAGGIE (*yn mynd at y drws*) : Dewch allan, bob un o honoch. (*Daw at y bwrdd*).

(*Mae peth petruster y tu mewn, yna daw VICKEY, ALICE a FRED allan a safant yn rhes ar y chwith*).

HOBSON : Alice! Vickey!

MAGGIE : Y teulu yn gyfan. A dyma Mr. Beenstock, o siop Beenstock and Co.

FREDDY : Sut yr ydych chi?

HOBSON : Beth! Yntau yma hefyd!

(*Mae'n amwag ei fod yn methu amgyffred y sefyllfa*).

MAGGIE : Pan mae angen setlo mater pwysig, mae'n rhaid i'r ddwy blaid fod yn bresennol.

HOBSON : Ond mae yma gymaint ohonyn' nhw. O ble deuthon' nhw i gyd?

MAGGIE : O'm hystafell wely i.

HOBSON : O'th —? Maggie, fe garwn i iti roi eglurhad ar hyn cyn imi golli fy synhwyrâu.

MAGGIE : Mae'n eitha' syml. Gofynnais iddyn' nhw ddoed yma am fy mod yn eich disgwyl chi.

HOBSON : Yn fy nisgwyl i?

MAGGIE : Ie. Rydych mewn trybini.

HOBSON (*yn ysgwyd ei ben, yna, fel pe bai wedi cael gollyngdod, yn troi at ALICE*) : Beth sy a fynno hyn ag Alice a Vickey? Beth mae nhw'n wneud yma? Beth sy'n digwydd i'r siop. (*Daw i'r canol*).

DEWIS ANORFOD

Mae Tubby Wadlow yn gofalu am y siop.

HOBSON : Ai gwaith Tubby yw hynny—gofalu am

MAGGIE : Does ganddo ddim byd arall i'w wneud. Mae pethau mor slac er pan 'madawodd Maggie.

HOBSON (*yn ffrowni yn ddirfawr*) : Ai y ti sy'n gyfrifol am y siop. Ai y ti sydd i drefnu pethau yno? Ai y ti sydd i benderfynu pryd y byddwch chi'n gallu gwigo'ch hetiau a mynd allan?

MAGGIE : Deuthant allan am mai dydd fy mhriodas i ydyw, nhad. Mae hynny'n rheswm digonol ac fe wna Will a minnau yr un peth iddyn' nhw. Byddwn yn fodlon cau'r siop ar 'u dydd priodas nhw gyda'r pleser mwya.'

HOBSON : Dydd 'u priodas nhw! Mae digon o amser cyn hynny. Fe fydd blynyddau mawr cyn y bydd priodas arall yn y teulu rwy'n rhoi 'ngair i chi. (*Yn troi at MAGGIE*). Mae un ferch wrthryfelgar yn llawn digon.

ALBERT : Oni byddai'n well inni droi at ein busnes, Syr?

HOBSON (*yn troi arno*) : Wr ifanc, peidiwch â cham-ddefnyddio gair da. Cyfreithiwr ydych chi. Rydych yn cyfadde mai cyfreithiwr ydych. Pobl onest sy'n byw ar fusnes a chyfreithwyr ar y gyfraith.

ALBERT : Yn y mater yma, syr, rwy'n gweithredu yn ol cyfarwyddiadau yr erlynydd, Mr. Beenstock, ac yr ydych, rwy'n ofni, y foment hon, o flaen tystion wedi gwneuthur gosodiad a ymddengys imi yn athrod ar ymddygiad yr erlynydd.

DEWIS ANORFOD

HOBSON : Beth? O! athrod yn awr! Onid yw trespasu a .. a .. chwilota i gyfrinach busnes dyn arall yn ddigon i chi y .. y gwaedgi—(*wrth Albert*)

ALBERT : Hanner munud, Mr. Hobson. Gallwch fy ngalw beth a fynnoch chi ond —

HOBSON : Ac fe wnaf. Y —

ALBERT : Ond hoffwn eich atgofio, er eich les eich hun, fod difrio cyfreithiwr yn cael ei gyfrif yn y costau. Yn awr, mae'r erlynydd yn dweyd ei fod yn fodlon setlo'r mater yma y tuallan i'r llys. Fy nghyng-or personol i, fel ei gyfreithiwr, ydyw iddo beidio, oherwydd credaf y ceir mwy o iawn yn y llys. Ond dyw Mr. Beenstock ddim am fod yn ddialgar tuag atoch. Mae e'n cymryd i ystyriaeth eich safle a'ch enw da fel dinesydd cyfrifol—

HOBSON : Faint?

ALBERT : Yh — begio'ch pardwn?

HOBSON : Dwy' i ddim mor hoff o glywed eich llais ag ydych chi. Faint mae e am imi dalu?

ALBERT : Y swm a awgrymir a chyfrif y costau cyffredin, nid y rhai ychwanegol oherwydd eich geiriau enllibus am danaf fi, ydyw mil o bunnau.

HOBSON : Beth!

MAGGIE : Does bosib!

HOBSON : Mil o bunnau am gwmpo i lawr i seler! Y dyn, gallwn fod wedi torri 'nghoes! (*Yn symud i'r dde*).

ALBERT : Mae'r hyn a ddywedwch yn debig iawn i gyfaddefiad, Mr. Hobson. Fe achubodd ein sachan brawd chi rhag torri'ch coes, felly mae arnaf awydd

DEWIS ANORFOD

hwanegu at y swm yma swm arall a fyddai'n dâl rhesymol i ddoctor pe na buasai sachau yno i chi gwmpo arnynt. (*Yn troi at FREDDY*).

(HOBSON yn eistedd ar y dde).

MAGGIE: Wel, Albert Prosser, fe wela' i eich bod chi'n mynd i ddod mlaen yn y byd, ond does dim eisiau i chi fod yn drachwantus y tro hwn. Mae'r mil punnau yna'n ormod. (*Yn dod i'r canol*).

ALBERT: Roddem ni'n meddwl—

MAGGIE: Fe allwch ail feddwl.

FREDDY: Ond—

MAGGIE: Os bydd yna ragor o arwyddion trachwant o'ch tu chi'ch dau, gellir dwyn achos yn eich erbyn chi yn hawlio rhywbeth am y ddamwain a achoswyd trwy eich esgeulustra yn gadael drws eich seler yn agored.

HOBSON (*yn codi*): Maggie, rwyd wedi fy achub. Fe wna' i hynny. Fe ddangosa' i beth ydyn' nhw, y cnafon.

MAGGIE: Ond dych chi' ddim wedi derbyn niwed ac y mae un cyfreithiwr yn ddigon. Ond fe fydd e'n rhesymol yn awr. Fe wn i'n iawn faint all nhad fforddio talu, ond nid yw hynny'n fil o bunnau nac yn agos i fil o bunnau.

HOBSON: Llai o'th son di am fethu fforddio, Maggie. Rwyd yn fy ngwneud yn dlotyn.

MAGGIE (*yn troi ato*): Fe allwch fforddio pum cant, ac fe gewch dalu pum cant.

HOBSON: O! ond—mae yna wahaniaeth rhwng fforddio a thalu.

DEWIS ANORFOD

MAGGIE: Fe allwch fynd i'r llys a chael eich enw yn y Manchester Guardian os mynnwch. (*O flaen y burdd ar y dde*).

HOBSON: Ond yr egwyddor sy'n fy mlino i. Dyma fi'n cael fy nhrechu gan gyfreithiwr.

VICKEY (*yn mynd ato*): Nhad bach, ffordd mae nhw'n eich trechu chi a hwythau'n gofyn mil a chwithau ddim ond yn rhoi pum cant?

HOBSON: Doeddwn i ddim wedi meddwl am hynny.

VICKEY: Y nhw sy'n cael eu trechu.

HOBSON: Fe fyddwn i'n eitha bodlon cael fy nhrechu lawer gwaith am y pris, Vickey. Ond rwy' i am gadw'r peth allan o'r llys.

ALBERT: Felly, fe allwn gymryd bod y mater wedi ei setlo?

HOBSON: Ydych chi am weld yr arian cyn fy nghredu? Ai dyna'ch ffordd atgas chi fel cyfreithiwr?

ALBERT: Dim o gwbl Mr. Hobson. Mae'ch gair chi'n ddigon. (*Yn mynd yn ôl i'r chwirth*).

VICKEY: Mae wedi ei setlo. Ei setlo! Hwrê! Hwrê! (*Yn mynd yn ôl at FREDDY sy ar y chwirth*).

HOBSON: Wel, wela' i ddim achos iti floeddio Vickey. Dwy' i ddim i gael fy llusgo i'r llys, ond fe wyddost fod £500 yn swm go dda o arian i fynd allan o'r teulu. (*Yn eistedd ar y sofffa*).

MAGGIE: Dyw e ddim yn mynd allan o'r teulu, nhad. (*Yn dod i'r dde*).

HOBSON: Ffordd galli di ddweyd hynny?

DEWIS ANORFOD

E: Dyw dydd eu priodas nhw ddim mor ffrwythlon oeddech chi'n tybio gan fod ganddynt nawr gant a hanner yr un i gychwyn eu byd. (*Saisf* FRED ac ALICE, FRED a VICKEY fraich ym mraich ar chwith).

HOBSON: Wyt ti'n meddwl dweyd wrthyf fi—

MAGGIE: Anghofiwch chi ddim eich bod wedi rhoi'ch gair wnewch chi, nhad?

HOBSON (*yn codi*): Rwy' i wedi cael fy nwylllo. (*I'r canol*): Cynllwyn y diawl yw hyn—mae—mi—

MAGGIE: Mae'n mynd â dwy ferch oddiar eich dwylo chi ar unwaith ac yn clirio'r siop o'r ffyliaid o ferched yna oedd yn llanw'r lle.

ALICE: Bydd yn llawer mwy cysurus ichi, nhad, wedi inni fynd.

HOBSON: Bydd, ac fe allwch gadw o'm ffordd i gyd ag y mynnwch, bob un ohonoch chi. Ydych chi'n fy nghlywed i bob un o honoch!

VICKEY: Nhad—!

HOBSON (*yn cymryd ei hel*): Fe gymra' i at y siop ac fe fynna' ddynion i weithio ynddi bob un—a—ac fe ddangosa' i i Salford sut y mae cadw siop. Peidiwch chi â meddwl y bydd lle i chi pan ddowch chi adre yn llefain eich bod wedi blino ar eich gwyr braf. Rwy'n golchi 'nwylo ohonoch, am byth, cofiwch. Fe dala' i'r arian yna yr ydych wedi ei ladrata oddiarnaf a dyna'r diwedd. Bob un o honoch—y ti'n enwedig Maggie. Dwy' i ddim yn ddall eto, ac fe alla' i weld i bwy rwy' i i ddiolch am hyn. (*Mae'n mynd at droed y grisiau*).

MAGGIE: Peidiwch â bod yn ddiogllon, nhad.

HOBSON: Will Mossop, mae'n flin calon genny' am

danat ti. Ar y cyfan, y ti yw'r gorau o'r lot. Dwyt ti'n gwybod ond ychydig, ond rwy't yn medru crefft a honno'n grefft onest. (*Mae'n cychwyn i fyny'r grisiau*).

ALICE: Mae f'Albert i'n medru ei grefft hefyd. (*Yn dod i'r dde*).

HOBSON (*hanner y ffordd i fyny'r grisiau*): Mi wranta' iti ei fod. Mae yntau'n medru ei grefft. Mae'n gwybod sut i ladrata. (*ALICE yn ffrowni*). Ac rwy' i'n gorfod diodde'r baich yma ar y 'nghydwybod, fod fy merched i am briodi cyfreithiwr ac un sy'n cyflogi cyfreithiwr.

VICKEY: Doedd eich cydwybod ddim yn eich blino am ein cadw ni i weithio yn y siop heb gyflog o gwbl.

HOBSON: Y fi oedd yn eich cadw chi, onide? Bydd yn rhaid i rywun arall eich cadw chi yn y dyfodol. Ie, fe allwch chi wenu, chi'ch dau, ond dyw merched ddim yn byw ar y gwynt. Bydd teisen geiniog yn costio dwy yn awr—a mwy na hynny. Arhoswch chi nes i'ch teuluoedd gynyddu. Peidiwch a dod ata' i am help, dyna i gyd. (*Mae ar fyned*).

ALICE: Nhad!

HOBSON: Ie, fe all i 'ngalw i'n dad. Ond rwy' i wedi ymneilltuo o'r safle honno. Rwy' i'n rhoi i fyny bod yn dad ac fe gan' nhw eu dau eu cyfle nawr. Fe ddon' nhw i wybod beth mae priodi yn ei olygu cyn bo hir. Mae nhw'n mynd i rwy mo eu hunain, a minnau wedi taflu'r cadwynau o'r neilltu. Rwy' i wedi diodde am ddeng mlynedd ar hugain a mwy na hynny, ond dyma fi'n ddyn rhydd o hyn allan. Y mawredd,

DEWIS ANORFOD

fechgyn, dyna gamp sydd o'ch blaen chi! Druain ohonoch chi, druain o honoch! Rydych yn lladron ac ysbeilwyr, ond rydych yn mynd i dalu'n ddrud am hynny. (*Egyr y drws ac â allan*).

MAGGIE (*yn dod i'r canol*): Mae'n well ichi drefnu i briodi ar unwaith. Fe gaiff Alice a Vickey amser hapus gydag e.

FREDDY: Feiddian' nhw fynd adre o gwbl?

MAGGIE: Pam lai?

FREDDY: Ar ol y pethau ddwedodd e?

MAGGIE: Fydd e ddim yn cofio'r hanner. Mae wedi mynd i'r Bedol nawr os nad ydynt wedi cau. Beth yw'r amser?

ALBERT: Mae'n amser inni fynd, Maggie. (*Yn dod i'r canol*). Fe fyddwch yn falch i gael gwared o honom. (*Dengys ei oriawr iddi*).

WILLIE: Na, na. (*Yn codi*). Freuddwydiwn i byth am ofyn i chi fynd.

MAGGIE: Ond fe wnawn i hynny. Mae'n hen bryd inni eich troi allan. Dyma'ch hetiau. (*A i'r dde. Mae'n dod â hetiau ALBERT a FRED*). Nos da. (*Mae ALBERT a FRED yn esgyn y grisiau. Daw MAGGIE yn ôl i'r canol*). Nos da, Vickey.

VICKEY (*a chusan frysiog*): Nos da, Maggie.

(*Esgyn VICKEY ac u hi a FRED allan*).

MAGGIE: Nos da, Alice.

ALICE: Nos da, Maggie. (*Cusan brysiog eto*). A diolch iti.

MAGGIE: O, dyw hynna'n ddim. (*Yn mynd gyda hi at y grisiau*). Caf dy weld eto cyn bo hir, ond paid â dod yma'n rhy aml achos mae Will a minnau'n mynd

DEWIS ANORFOD

i fod yn brysur, ac fe fydd gennych chi'ch dwy ddigon i wneud nawr i baratoi erbyn priodi.

ALICE: Bydd debig. (*I fyny'r grisiau*).

MAGGIE: Rhowch wybod imi pryd y byddwch yn mynd.

ALBERT: Byddwn yn falch eich gweld yn y briodas.

MAGGIE: Byddwn yn siwr o ddod i'r briodas. Ond fe fyddwch yn rhy grand inni wedyn.

ALBERT: O na, Maggie.

MAGGIE: Wel, falle y byddwn ninnau wedi codi'n gyfuwch â chi cyn bo hir. Dim ond dechrau rydym ni yma. Nos da.

ALBERT AC ALICE: Nos da, Maggie.

(*Ant allan gan gau'r drws o'u hól. Try MAGGIE at Will a gesyd ei dwylo ar ei ysgwyddau. Mae ynlau'n cyffroi*).

MAGGIE: Fe glywaist beth ddwedais i am danat ti heno. Ymhen ugain mlynedd, fe fydd pobl yn meddwl llawer mwy am danat ti nag am dy frodyr-ynghyfraith.

WILLIE: Fe'th glywais yn dweyd hynny, Maggie.

MAGGIE: A mae'n rhaid inni wirio hynny. Dwy' i ddim yn arfer ymfrostio, Will. A mae hyn i ddigwydd mewn llai nag ugain mlynedd, cofia.

WILLIE: Wel, wn i ddim. Mae nhw dipyn ar y blaen inni nawr.

MAGGIE: A rwy' i gyda thi. Mae'r llechen yn yr ystafell arall. Tyrd â hi yma, Fe fydda'i wedi clirio'r ford erbyn hynny.

(*Brysia i glirio'r hyn sy'n aros ar y burdd; yn goſod*

DEWIS ANORFOD

ar y silff ben tân a thynnu'r lliain bwrdd a'i
 ar gefn y gadair. A WILL i'r ystafell wely a
 oel a'r llechen a phensil. Mae llond y llechen o
 rfen. Gesyd hi ar y bwrdd).

MAGGIE : Tyn dy gôt ora nawr. Does dim eisiau
 iti dreulio honna. (Tyn ef ei gôt, a'i hongian ar y dde,
 ac a'i geisio clwtyn tu ôl i'r llen. Yna daw yn ol at y
 bwrdd). I beth wyt ti'n mofyn y clwtyn yna?

WILLIE : Mynd i lanhau'r llechen oeddwn i.

MAGGIE : Gad imi ei gweled gynta'. Dyna beth
 wnest ti neithiwr yn nhy Tubby wedi imi ddod yma?

WILLIE : Ie, Maggie.

MAGGIE (yn eistedd ac yn darllen) : Mae digon o le
 ar ben yr ysgol. (Yn ei sychu ymaith). Mae dy ysgrif-
 en di'n gwella, Will. Fe ro'i frawddeg fer iti heno eto,
 —mae'n mynd yn hwyr a mae gennym ni lawer o waith
 i'w wneud bore fory. (Yn ysgrifennu). "Dechrau'n
 fach a thyfu'n fawr." Nawr eistedd fanna a chopia
 honna. (Mae ef yn eistedd yn ei lle hi wrth y bwrdd.
 Mae MAGGIE yn ei wyllo am foment, yna mae'n mynd at
 y lle t n ac yn cyffwrdd yn dynner a'r blodau). Fe
 ddoda' i'r blodau yma roddodd Mrs. Hepworth inni
 tu cefn i'r tân, Will. Does dim eisiau llanast yn y lle
 bore fory wrth ddechrau gwaith.

(Mae hi'n cymryd y fowlen, yn aros ac yn edrych ar
 WILL sy'n plygu uwchben ei waith; cymer flodeuyn allan
 a theifl y gweddill y tu ôl i'r tân; yna a'i ystafell wely
 a'r blodeuyn yn ei llaw).

WILLIE (yn edrych i fyfny) : Rwy't yn cadw un.

DEWIS ANORFOD

MAGGIE (wedi ei dal yn dangos arwydd o sentiment
 ac yn ymddiheuro) : Roeddwn yn meddwl y cadwn i un
 rhwng dalennau fy Meibl er cof, Will. Rwy'n cyfadde
 yr hoifwn i gofio am y dydd heddiw. (Yn edrych at y
 llen gan ddylyfu gén). O'r annwyl, dyna flinedig
 rwy' i. Rwy'n credu y gadawa' i'r llestri heb eu
 golchi tan bore fory. Nid dyna'r ffordd i ddechrau
 ond nid bob dydd mae dyn yn priodi.

WILLIE (yn brysur wrthi yn ysgrifennu) : Nage, wir.

MAGGIE : Rwy'n mynd i'r gwely beth bynnag.
 Gorffen di'r copi yna cyn dod.

WILLIE : O'r gora, Maggie.

(A MAGGIE i'r ystafell wely a'r blodeuyn yn ei llaw.
 Mae'n cau y drws. A WILL ymlaen a'i waith gan
 adrodd y llythrennau a'r geiriau wrth eu copio'n araf;
 yna ar ol gorffen, cwyd a dechreu glirio'r lle tân allan.
 Edrych yn swil at ddrws yr ystafell arall, eistedda a thyn
 ei esgidiau. Cwyd a'i esgidiau yn ei law, â tuag at y
 drws, petrusa, a thry yn ôl gan osod ei esgidiau wrth y
 drws; yna try at y bwrdd a thyn ei goler. Ar ôl petruso
 drachefn, gwna ei feddwl i fyfny ac ar ôl diffodd y golau,
 a'i orwedd ar y sofffa gan dafu ambell i gipolwg yng
 nghyfeiriad yr ystafell wely. Ar y cyntaf, mae'n
 wynebu'r t n. Mae yn anghyfforddus. Try i wynebu'r
 drws. Ymhnen ennyd egyr Maggie ddrws yr ystafell.
 Mae canwyll yn ei llaw ac y mae hi wedi ei gurisgo mewn
 giên nos syml o galico. Daw at WILL, gesyd y golau
 i dycynnu arno, ac arwain ef gerfydd ei glust i'r ystafell
 wely).

LLEN.

DEWIS ANORFOD

ACT IV.

GOLYGFA : Ystafell fyw HOBSON y tu cefn i'r siop a welwyd yn Act I. Ar y chwith mae'r drws yr arwain i'r siop ac yn y mur ar y llaw dde mae'r lle t in a thu ol iddo ddrws sy'n arwain i ran arall o'r tŷ.

Mae'n wyth o'r gloch y bore flwyddyn yn ddiwedd-arach nag Act III.

Saif cadair fawr o rawn ceffyl o flaen y t in a chad-ciriau llai o'r un deunydd wrth y bwrdd. Mae darluniau lliw o'r Frenhines Victoria a'r Tywysog Albert ar y mur yn y cefn a darlun o Lord Beaconsfield uwchben y lle t in. Gwelir digon o anti-macassers yn yr ystafell ac y mae'r dodrefn i gyd yn hen ffasiwn ac yn hyll hefyd. Mae'n ystafell gysurus er bod ynddi ormod o ddodrefn. Mae HOBSON yn eithaf bodlon arni ac nid ydyw yn sylweddoli ei bod yn sudr iawn ei chyflwr erbyn hyn.

Er bod cegin ar gael yn y tŷ, gwelir TUBBY WADLOW yn sffrio cig moch ar y t in. Yr un pryd mae yn gosod y bwrdd i frecwast i un. Ymdengys yn anghyfarwydd a throsgl wrth y naill orchwyl a'r llall. Agorir y drws ar y chwith a daw JIM HEELER i mewn.

JIM (yn croesi'r ystafell at y drws ar y dde): Fe a'i i fyny ato, Tubby.

TUBBY (yn ei atal): Mae e'n codi, Mr. Heeler.

JIM: Yn codi! Ond fe ddwedaist—

TUBBY: Fe ddwedais i beth ddwedodd e wrthyf am ddweyd wrthyhych. Rhed i nol Dr. Mac Farlane, medde fe. Ac fe redais i nol Dr. Mac Farlane. Nawr

DEWIS ANORFOD

cer at Mr. Heeler, medde fe, a dwed wrtho fy mod yn wael iawn, ac fe ddes i ddweyd wrthyhych. Yna fe ddwedodd y buasai'n codi a bod yn rhaid imi baratoi brechwast iddo ac y byddai'n eich gweld chi lawr yma. (Yn mynd at y t in).

JIM (yn mynd at y drws ar y dde): Lol i gyd, Tubby. Fe a'i i fyny ato wrth gwrs.

TUBBY: Fe wyddoch sut un yw e, syr. Y fi, gaiff y bai os ewch chi, a mae e'n ddigon drwg 'i hwyll y bore yma.

JIM: Dwy' ddim am ddod â thi ihel ynt, Tubby. (Yn eistedd wrth y bwrdd ar y dde).

TUBBY: Diolch Mr. Heeler. (yn gosod y cig ar y plât a'r plât ar garreg yr aelwyd).

JIM: Fe gredais i fod pethau'n ddrwg iawn yma.

TUBBY: Os gofynnwch chi imi, y mae nhw'n edrych yn ddu iawn. (Yn dod yn ôl at y bwrdd).

JIM: Ffordd hynny?

TUBBY (yn torri bara): Ymhob ffordd. Dyw Mr. Hobson ddim fel roedd e, dyw'r siop ddim y peth oedd hi, ac edrychwch arna' i. Nawr Mr. Heeler, dwedwch wrthyf yn onest, ai gwaith i foreman o grydd yw hyn? Paratoi bwyd a gosod y ford a—

JIM: Yn ôl a glywa' i does fawr o ddim arall iti wneud.

TUBBY: Mae yna amgenach pethau na throi yn forwyn pe bai dim ond gwneud clocciau. (Yn croesi at y t in i wneud tŷst).

JIM: Mae nhw'n dweyd wrthyf fi nad oes dim elw o wneud clocciau nawr.

DEWIS ANORFOD

BY : Wel, beth sy i'w wneud? Does dim galw ddim arall. (*Yn troi*). Mae siop Hobson wedi dda lawr a dwy' i ddiu yn bradychu cyfrinach wrth ddeyd. Mae pawb yn gwybod hynny.

JIM : Mae'n drueni mawr, hen siop dda fel hon yn colli tir.

TUBBY : A bai pwy yw e, sgwn i?

JIM : Dwy' i ddim yn meddwl y dylit ti godi'r cwestiwn yna gyda mi, Tubby.

TUBBY : O'n wir! Rwy'n hên wâs i'r meistr ac rwy'n dal i lynu wrtho er bod pawb arall yn fy ngalw'n ffâl dwl am nad wyf yn edrych ar ol Tubby Wadlow yn gyntaf oll, ac os nad yw hynny'n rhoi'r hawl imi ddweyd fy marn, wel—dwedwch chi. Tymer ddrwg—dyna sy'n lladd y siop yma, Mr. Heeler. Tymer ddrwg a chyndynrwydd.

JIM : Mae'r cymdogion yn Chapel Street yn dweyd mai Willie Mossop sy'n gyfrifol.

TUBBY : Bachgen da yw Willie er mai y fi a ddysgodd i grefft iddo. Cawsom ergyd go drom gan Willie, bid siwr, ond buasem wedi dod dros ben hynny gydag amser, gyda thipyn o ofal—rych chi'n deall—ac amynedd. Amynedd—dyna beth sy'n brin yn y meistr. Dyna Miss Maggie nawr—wel, un ryfedd yw hi, ie'n wir, un heb ei bath. Doedd hi byth yn wasaidd, cofiwch chi. Roedd hi'n cadw ei hunanbarch o flaen y cwsmeriaid ond roedd ganddi ffordd o werthu sgidiau oedd yn gwneud i'r cwsmeriaid ddod yn ôl i brynu wedyn. Edrychwch arnom ni nawr. Dynion sy tu cefn i'r cownter.

DEWIS ANORFOD

JIM : Mae nhw'n costio mwy na merched.
TUBBY : Costio? Mae nhw'n costio gormod o lawer. Edrychwch yma, Mr. Heeler, beth am danoch chi? Pan ewch chi i brynu pâr o sgidiau newydd pwy sy ora gennych i ffittio'r esgid, dyn neu ferch ifanc lanwedd swynol?

JIM : Wel—y—

TUBBY : Dyna chi. Mae pob rheswm yn dweyd hynny. Peth naturiol yw e.

JIM : Ond mae dwy ochr i'r mater yma, Tubby. Edrych ar yr ochr arall.

TUBBY : Y ladies?

JIM : Ie.

TUBBY : Mae pob lady deilwng o'r enw am gael ei ffittio gan ferch, ac am y lleill, clocciau sy'n gweddu iddyn' nhw. Gwerthu sgidiau da sy'n talu, a mae siop Hobson wedi colli'r fusnes honno. (*Daw HOBSON i mewn o'r dde. Nid ydyw wedi eillio ac y mae heb wisgo ei goler. Saif rhyngddynt.*)

JIM (*yn ceisio ei gysuro*) : Wel, Henry!

HOBSON (*yn llawn prudd-der a hunan-dosturi*) : O Jim! O Jim! O Jim!

TUBBY : Ble eisteddwch chi, yn y gadair fawr wrth y tân neu wrth y ford?

HOBSON : Y ford? Brecwast? Cig moch? Cig moch a minnau'n teimlo fel hyn! (*Mae JIM yn ei gynorthwyo i'r gadair fawr.*)

JIM : Pan mae dyn fel hyn, mae arno eisiau menyw yn y tŷ, Henry.

DEWIS ANORFOD

HOBSON (*yn eistedd*): Mewn eisiau y bydda' i, ynte.

TUBBY: A gaf fi fynd i nol Miss Maggie, syr?— Mrs. Mossop rwy'n feddwl.

JIM: Rwy'n credu y dylai'r merched fod yma.

HOBSON: Ie, fe ddylen'! Ond dyn' nhw ddim yma. Mae nhw wedi priodi ac wedi cefnu arna' i bob un, ac fe fydda' i farw yn unig a diymgeledd a falle y bydd yn ddrwg ganddyn' nhw wedyn am y ffordd mae nhw wedi 'nhrin i. Tubby, oes gennyf ti ddim i'w wneud yn y gweithdy?

TUBBY: Falle y gallwn i ffeindio rhywbeth dim ond imi chwilio'n ofalus.

HOBSON: Wel ynte, cer i chwilio. A chymer y cig moch yma gyda thi. Dwy' i ddim yn leicio'i aragl e.

TUBBY (*yn cymryd y cig moch*): Ych chi'n siwr na leiciwch chi ddim cael Miss Maggie yma? Fe a' i i chwilio am dani. (*Deil y cig yn agos i wyneb* HOBSON).

HOBSON: Cer ynte. Cer i chwilio am y diawl os mynni. Pa wahaniaeth gennyf? Rwy'n marw.

(*Cymer* TUBBY *y cig moch ac ŷ allan ar y chwirth*)
JIM: Beth yw'r holl son yma am farw sy gennyf ti, Henry?

HOBSON: O, Jim! O, Jim! Rwy' i wedi anfon am y doctor. Fe gawn weld mor agos yw'r diwedd.

JIM: Wel, mae hyn yn sydyn iawn. (*Yn eistedd ar y dde*). Fuost ti erioed yn wael o'r blaen.

HOBSON: Mae'r cyfan wedi cronni a nawr mae popeth yn dod ar unwaith gyda'i gilydd.

DEWIS ANORFOD

JIM: Ble rwyf ti'n teimlo'r poen, Henry?

HOBSON: Talp o boen ydw'i o 'nghorun i'm traed. Rwy'n ofni fy hunan, Jim. Dyna'r gwactha. Fe fuaset yn fy ngalw'n ddyn glân, Jim?

JIM: Yn ddyn glân? Wrth gwrs hynny! Yn lân dy gorff a'th feddwl.

HOBSON: Rwy'n aflan nawr. Dwy' i ddim wedi ymolchi y bore yma. Allwn i ddim wynebu'r dwr. Yr unig werth a allwn i weld mewn dwr oedd i foddi fy hunan ynddo. A'r un peth am shafio. Rwy' i wedi taslu'r raser drwy'r ffenestr. Roedd yn rhaid imi rhag ofn imi dorri'ngwddf.

JIM: Nawr! Nawr!

HOBSON: Mae'n ofnadwy. Alla' i drystio fy hun byth eto. Rwy'n mynd i dyfu barf—os bydda' i byw.

JIM: Byddi'n sicr o dwyllo'r clochydd, Henry, ond rwy'n meddwl falle y gall y doctor wneud rhywbeth drostot. Beth wyt ti'n feddwl sydd wedi achosi hyn?

HOBSON: Y Bedol.

JIM: Beth? Dwyf ti ddim yn dychmygu—

HOBSON: Beth? Rwy'n gwybod. Rwy' i wedi gweld hyn yn digwydd i eraill ond feddyliais i erioed y digwyddai imi.

JIM: Na minnau chwaith. Dwyf ti ddim yn yfwr trwm, Henry. Rwyf ti'n leicio diferyn ond dwyf ti byth yn meddwi. Mae'n andros o beth os na all dyn gymryd diferyn o gwrw heb andwyo'i hunan fel hyn. Wel, wel, falle mai 'nhro innau ddaw nesa'.

(*Daw* TUBBY *i mewn ar y chwirth gan gyflwyno* DR. MAC FARLANE, *Ysgotyn meistrolgar tua'r hanner cant oed*).

DEWIS ANORFOD

TUBBY: Dyma Dr. Mac Farlane. (A TUBBY
th).

DOCTOR: Bore da, syr. Ble mae'r claf? (*Gesydd
i' hel ar y bwrdd*).

JIM (*yn siarad heb gyfeirio at HOBSON*). Yma. (*Nid
yw yn codi*).

DOCTOR: Yma? Wedi codi?

HOBSON: Ydi, debig.

DOCTOR: Ac fe fu raid imi godi o'r gwely mor
fore â hyn er mwyn dyn sydd wedi gallu codi ei hun?

JIM: Dyw hi ddim mor fore â hynny.

DOCTOR: Ond rwy' i wedi bod ar fy nhraed drwy'r
nos, syr, gyda menyw ifanc ar ei babi cynta. Y chi
yw Mr. Hobson.

JIM (*yn frysio*): Nage'n wir. Dwy' i ddim yn
wael.

DOCTOR: Hym. Does dim llawer o ddewis
rhyngoch chi. Mae'ch tynged chi'ch dau i'w weld yn
eglwyr yn eich wynebau.

JIM: Ydych chi'n meddwl mod i—? (*Yn codi*).

DOCTOR: Rwy'n barnu ei fod e'n cael ei gospi a'ch
bod chwithau i gael eich cospi.

HOBSON: Doctor, a ddowch chi yma ata' i?

(*Mae JIM yn symud heibio cadair fawr HOBSON i
fyny'r llwyfan ac yna daw yr ochr chwith i'r bwrdd*).

DOCTOR: Dyma fi. Yn awr syr. (*Mae'n eistedd
wrth ei ochr ac yn dal ei arddwrn*).

HOBSON: Fum i erioed yn teimlo'n wael cyn y
bore yma. Fu erioed angen doctor arna'i o'r blaen.

DOCTOR: Fe fu angen doctor. Ond nid anfonwyd
am dano.

DEWIS ANORFOD

HOBSON: Ond y bore yma—

DOCTOR: Rwy'n gwybod y cwbl—yn dda.

HOBSON: Beth! Rydych chi'n gwybod!

DOCTOR: Byddai unrhyw ffwl yn gwybod.

HOBSON: Yh?

DOCTOR: Pob ffwl ond un a chi yw hwnnw.

HOBSON: Rydych yn foegar ddiawledig.

DOCTOR: Os ydych am gael gweniaith, fe gewch chi
hynny'n ddiampau gan eich cyfaill yma. Ond rhoi fy
marn fel meddyg rwy' i.

HOBSON: Rwy' i am gael eich barn ar fy ngwael-
edd ac nid ar fy nghymeriad.

DOCTOR: Ond yr un ydynt, eich gwaeledd a'ch
cymeriad.

HOBSON: Ond rwy' i'n gofyn ichi wahaniaethu
rhyngddynt a dweyd wrthyf—

DOCTOR (*yn codi ac yn cymryd ei hel*): Ddweda' i
ddim wrthyf, syr. Dwy' i ddim yn arfer datgan barn
yn ol dymuniad y claf ond yn ôl fy synnwyr a'm profiad.
Bore da. (*Yn troi i'r chwith*).

JIM (*yn dod ato*): Ond dych chi ddim wedi datgan
eich barn.

DOCTOR: Syr, os oes rhaid imi archwilio'r claf i
ffurfio barn ym mhresenoldeb person arall, y peth
lleia' all hwnnw wneud ydyw dal 'i dafod.

JIM: Ar ol hynna does dim ond un peth i'w wneud
Rhaid iddo ef neu fi fynd oddiyma.

HOBSON: Gwell iti fynd, Jim.

JIM: Mae doctoriaid eraill i'w cael, Henry.

DEWIS ANORFOD

HOBSON : Fe gadwa' i hwn. Rhaid imi ddysgu gwrs iddo. All Scotiaid ddim sathru ar fechgyn Salford fel hyn.

JIM : Os felly, gwell imi fynd.

HOBSON : Ie. Fe alla' i fod mor haerllug ag unrhyw Scotyn—. (*A Jim allan ar y chwith*).

DOCTOR : Dyna welliant, Mr. Hobson. (*Yn dod i ei het i lawr a dod yn ôl*).

HOBSON : Os ydw' i'n well, does dim diolch i chi am hynny.

DOCTOR : I'r gwrthwyneb rwy'n credu y gellir diolch im' hymddygiad anfoesgar—

HOBSON : Os byddwch yn codi'ch talu am anfoesgarwch fe fydd eich bil yn ddigon uchel.

DOCTOR : Rwy'n cyfrif yn ol yr amser, Mr. Hobson, felly gadewch imi ddechrau ar y gwaith. Wnewch chi ddatod eich crys?

HOBSON (*yn ufuddhau*) : Dim lol nawr.

DOCTOR (*yn anwybyddu hyn ac yn ei archwilio*) : Ie. Dyw hyn ddim ond yn cadarnhau beth a fernais ar yr olwg gynta. Cawsoch "breakdown" y bore yma.

HOBSON : Hawdd genny' gredu hynny.

DOCTOR : Yn teimlo'n felancolaidd? Yn isel eich ysbryd?

HOBSON (*yn botymu ei gryd*) : Roedd yn gwestiwn p'un ai'r raser ai y fi fyddai'n cael ei ffordd. Y fi enillodd y tro yma. Mae'r raser yn yr iard gefn. Ond feiddia'i byth eto geisio shafio fy hun.

DOCTOR : A ydych chi'n dymuno o ddifrif am glywed y rheswm genny', Mr. Hobson?

DEWIS ANORFOD

HOBSON : Rwy'n dy dalu am gael clywed.

DOCTOR : "Chronic alcoholism," os gwyddoch beth yw ystyr hynny.

HOBSON : Gwn.

DOCTOR : Mae'n gyflwr difrifol.

HOBSON : Fe wn i hynny. I beth yr ydych wedi dod yma? Nid i ddweyd y peth a wn i'n barod ond i'm gwella.

DOCTOR : O'r gora. Fe ysgrifenna'i "prescription" i chi gael moddion. (*Yn eistedd wrth y bwrdd ac yn ysgrifennu â phensil ar lyfr a dyn o'i boced*).

HOBSON : Arhoswch?

DOCTOR : Begio'ch pardon?

HOBSON : Chymra' i mohono. Dim o'ch hen ffysig drewllyd imi. Rwy'n lled ofalus beth aiff i'm stymog i.

DOCTOR : Mr. Hobson, os na fyddwch chi'n fwy moesgar, fe dystia' i eich bod yn ffit i'r "asylum." Ydych chi'n sylweddoli eich bod wedi yfed eich hunan o fewn chwe mis i'r bedd? Cawsoch rybudd y bore yma y buasai unrhyw ddy'n a'i synhwyrau ganddo yn cymryd sylw ohono, ac yr ydych yn mynd i gymryd sylw ohono, syr.

HOBSON : Drwy gymryd eich moddion chi?

DOCTOR : Yn gywir felly. Fe gymrwch y moddion yma, Mr. Hobson, ac fe fyddwch yn llwyr-ymwrthodwr o hyn allan.

HOBSON : Yr ydych yn gofyn imi roi fyny fy yfed cymedrol?

CTOR : Rwy'n gwahardd alcohol yn bendant.
ysgrifennu).

HOBSON : Wna hynny fawr lles. Rwy' i wedi arfer mwynhau glasiad cyhyd ag y gallaf gofio ac fe fynna' i hynny hyd y diwedd. Os ydw' i i gael fy ngorchfygu gan gwrw fe ymladdaf hyd angau, a dwy' i ddim yn bwriadu bod yn "deetotal" annaturiol er mwyn estyniad dyddiau mewn sobrwydd. Rhaid i fywyd fod yn werth ei fyw cyn y gwna' i ymdrech i'w fyw.

DOCTOR (yn codi ac yn cymryd ei het eto) : Os mai dyna'r ffordd yr ydych yn siarad, dyw fy ngwasanaeth i o ddim gwerth i chi. (*A i'r chwith*).

HOBSON : Dyw e ddim. Fe dala'i nawr am y tro yma. (*Yn codi ac yn rhifo arian o'i boced*).

DOCTOR : Rwy'n eich llongyfarch ar eich haclioni, Mr. Hobson.

HOBSON : Ond y mae hynny'n deg, doctor. Rwy' i wedi cael gwerth fy arian. Rydych wedi codi 'nghalon i. Pan godais i o'r gwely, feddyliais i erioed y gwelwn i'r Bedol byth eto, ond rwy'n barod am un bach fel arfer y funud yma. (*Yn dal yr arian allan*).

DOCTOR (yn dod yn ôl, yn gosod ei het i lawr ac yn siarad yn ddwys) : Y dyn, chymrwch chi ddim rhybudd? Y creadur rhyfygus â chi, mae alcohol yn wenwyn i chi, yn wenwyn marwol i gyfansoddiad yn y cyflwr ag yr ydych chi ynddo.

HOBSON : Rydych yn boeth iawn ar y pwnc. Gymrwch chi'r arian? (*Yn dal yr arian allan*).

DOCTOR : Gwnaf, ar ol imi eu hennill. Dodwch

nhw nol yn eich piced nawr, Mr. Hobson. Dwy'i ddim wedi gorffen â chi eto.

HOBSON : A minnau'n meddwl eich bod. (*Yn eistedd eto*).

DOCTOR (yn agos at HOBSON) : Rydych yn meddwl eich bod yn fy herio? Fe fyddwch farw'n ymladd, fyddwch chi? Ydi, y mae'n syniad arwrol, ddynd bach, ond wnewch chi mohono, wyddoch! Chewch chi ddim dianc rhagof fi yn awr. Rwy' i wedi cael gafael arnoch chi nawr. Fe fyddwch farw'n sobr, ac fe fyddwch fyw cyhyd byth ag y mae'n bosibl i chi cyn marw. Oes gwraig gennyh, Mr. Hobson? (*Mae HOBSON yn cyfeirio ei fys tuag i fyny*). Yn y gwely?

HOBSON : Yn uwch na hynny.

DOCTOR : Mae hynny'n drueni. Dylai dyn fel y chi fod a gwraig i ofalu am dano.

HOBSON : Dwy' i ddim yn meddwl rhyw lawer am y menywod.

DOCTOR : Mae menywod yn anheggor, syr. Oes gennyh chi unrhyw berthynas o fenyw wnaiff gadw trefn arnoch chi?

HOBSON : Cadw trefn arna' i?

DOCTOR : Ie, eich cadw'n dynn o dan ei bawd.

HOBSON : Mae genny' dair merch, Dr. Mac Farlane, ac fe geisiodd pob un ohonynt fy nghadw dan ei bawd.

DOCTOR : Wel? Ble mae nhw?

HOBSON : Wedi priodi, a phriodi'n rhyfedd hcfyd.

DOCTOR : Y chi a'u gyrrodd i wneud hynny.

DEWIS ANORFOD

HOBSON : Fe aethon' yn rhy feistrolgar, Maggie yn waeth na'r lleill.

DOCTOR : Maggie? Wel, fe ddweda' i wrthych beth i'w wneud, Mr. Hobson. Mynnwch Maggie yn ol. Beth bynnag fo'r pris. Os costia hynny eich balchder, rwy' i fel eich meddyg yn gorchymyn ichi fynnu Maggie yn ol. (HOBSON *hyn cyffroi*). Dwy' i ddim yn adnabod Maggie, ond dyna'r moddion rwy' i'n orchymyn—a damo chi, ydych chi'n mynd i'm herio i eto?

HOBSON : Rwy'n dweyd yn bendant wrthych na fyfna' i mo hynny.

DOCTOR : Rhaid i chi. Dych chi ddim ond talp o ystyfnigrwydd ond rwy' i wedi cymryd atoch chi rywffodd, a dwy' i ddim yn mynd i adael i chi ladd eich hunan.

HOBSON : Rwy' i wedi dianc rhag caethiwed y menywod unwaith, a—

DOCTOR : Ac rydych, mewn helynt blin oherwydd eich pen rhyddid. Nawr am Maggie, y ferch yma, os dwedwch chi wrthyf ble mae hi, fe a'i i gael gair â hi fy hun. Rwy'n fodlon mynd i dipyn o drafferth er eich mwyn chi.

HOBSON : Gwastraffu'ch amser fyddwch chi.

DOCTOR : Er mwyn eich gwella chi, Mr. Hobson. (*Daw i'r canol a throï*).

HOBSON : Ond ddaw hi ddim nol.

DOCTOR : O! Mae hynny'n eitha posibl. Os ei phen sy'n ei rheoli, rwy'n cytuno â chi na ddaw hi byth yn ôl; ond mae calonnau tyner gan y merched yma, a falle y cymer hi drugaredd arnoch chi wedi'r cwbl.

DEWIS ANORFOD

HOBSON : Dwy' i ddim am dosturi neb.

DOCTOR : Os yw hi'r ferch rwy'n tybio 'i bod hi, chewch chi ddim tosturi. Disgyblaeth—dyna beth gewch chi ganddi. (*Cwyd HOBSON a cheisia siarad*). Peidiwch â dweyd yr un gair, syr. Y fi sy'n siarad nawr.

HOBSON : Roeddwn i wedi sylwi ar hynny. (*Yn eistedd*).

DOCTOR : Fe ofynasoch imi am wellhâd, a Maggie yn enw'r moddion sy'n mynd i'ch gwella chi. Maggie, syr, ydych chi'n clywed? Maggie!

(*Daw MAGGIE i mewn ar y cheith wedi gwisgo ei chôt a'i het*).

MAGGIE : Wel, beth am dana' i?

DOCTOR (*yn syn yn awr*): Ai chi yw Maggie?

MAGGIE : Ie.

DOCTOR : Fe wnewch chi'r tro.

HOBSON (*yn cael ei anadl*): Beth wyt ti'n wneud yma yn fy nhŷ i?

MAGGIE : Fe anfonwyd am danaf ac rwy' i wedi dod. (*Daw i'r canol*).

HOBSON : Pwy ddaeth i chwilio am danaf?

MAGGIE : Tubby Wadlow.

HOBSON (*yn codi*): Fe all Tubby adael y gweithdy y funod yma.

DOCTOR (*yn ei ddodi yn ôl*): Eisteddwch Mr. Hobson.

MAGGIE : Fe ddwedodd Tubby eich bod yn wael iawn.

DOCTOR: Y mae e'n wael. Dr. Mac Farlane ydw' (*Yn dod i'r canol*). A ddewch chi i fyw yma eto?

MAGGIE: Rwy' i wedi priodi.

DOCTOR: Fe wn i hynny, Mrs—

MAGGIE: Mossop.

DOCTOR: Mae eich tad yn yfed ei hun i farwolaeth, Mrs. Mossop.

HOBSON: Edrychwch yma, Doctor, dyw'r hyn basiodd rhyngoch chi a mi ddim i'w weiddi yng nghlust-iaiu pobun.

DOCTOR: Rwy'n barnu nad yw eich merch y sort sydd am gael y gwirionedd wedi ei lapio mewn gwely plu rhag i'r ergyd ddisgyn yn rhy drwm arni.

MAGGIE (*yn rhoi nod o gymeradwyaeth*): Ewch ymlaen. Fe garwn i glywed y cyfan. (*Yn mynd i eistedd ar gadair ar y dde i'r burdd*).

HOBSON: Dim ond hen gywreinerwydd busnesllyd.

DOCTOR: Dwy' i ddim yn cytuno â chi, Mr. Hobson. Os ydyw Mrs. Mossop yn gorfod aberthu ei chartref er mwyn dod atoch chi, mae ganddi berffaith hawl i wybod y rheswm pam.

HOBSON: Aberthu! Pe buasech yn gweld ei chartref, buasech yn defnyddio gair arall. Dwy seler yn Oldfield Road.

MAGGIE: Ewch ymlaen, doctor.

DOCTOR: Mae genny' wrthwynebiad cryf yn erbyn gweld cleifion yn llithro rhwng fy nwylo os oes modd eu harbed, Mrs. Mossop, ac fe wna' i'n gorau dros eich tad; ond ni fydd fy moddion i o unrhyw les heb eich

moddion chi i'm cynorthwyo. Mae angen llaw gref i'w dywys yn gyson.

MAGGIE: Does genny' mo'r un cyfle ag oedd genny' cyn priodi.

DOCTOR: Fydd gennychi yr un cyfle o gwbl os na ddewch chi yna i fyw. Ddweda' i ddim am ddyletswydd merch canys rwy'n credu ei fod wedi eich trin yn annheg, ond o safbwynt dyngarwch, fe fyddwch yn achub bywyd os dewch chi—

MAGGIE: Falle y do' i.

DOCTOR: Na, ond ddewch chi?

MAGGIE: Rydych chi wedi rhoi'r mater yn hollol glir. Fy musnes i yw'r gweddill. (*Yn codi ac yn mynd i'r chwith*).

HOBSON: Eitha gwir, Maggie. (*Wrth y doctor*). Dyna beth dych chi'n gael am ymyryd â busnes pobl eraill. Ac fe allwch chi fynd yn awr fel ci wedi cael cweir Doctor Mac Farlane.

DOCTOR: I'r gwrthwyneb, rwy'n mynd, Mr. Hobson, yn berffaith dawel fy meddwl fy mod yn eich gadael mewn dwylo diogel. Mae "prescription" y moddion ar y ford, Mrs. Mossop. A'r ddau anhepgor arall yw llwyr ymwrthodiad a—ag y chi—

MAGGIE (*yn rhoi nod serchus*): Bore da.

DOCTOR: Bore da.

(*A'r Doctor allan ar y chwith*). Cymer MAGGIE y *prescription* a'i ddilyn at y drws).

MAGGIE: Tubby! (*Saif hi wrth y drws a daw TUBBY i mewn ati*). Cer i Oldfield Road a gofyn i 'ngwr i ddod yma a gâd y papur yma yn siop Hallows, y Chemist, i gael y moddion ar dy ffordd yn ôl.

DEWIS ANORFOD

TUBBY : O'r gora, Miss—Mrs. Mossop.

MAGGIE : Dwed wrth Mr. Mossop am frysio, fy mod am iddo ddod ar unwaith.

(*Rhydd TUBBY nod a diflanna. A Maggie i'r dde.*)

HOBSON : Maggie, fe wyddost na alla' i ddim bod yn "deetotal" Dyn o f'oe dran i sydd wedi arfer cymryd glasiad.

MAGGIE : Fe allwch chi os do' i yma i wneud i chi.

HOBSON : Wyt ti'n dod ?

MAGGIE : Wn i ddim eto. Dwy' i ddim wedi gofyn i ngwr.

HOBSON : Y ti'n gofyn i Will Mossop ! Roeddwn i'n meddwl yn well am danat ti na hynny, Maggie. Y ti o bawb yn gwneud esgus felna wrthyf fi ! Os wyt ti am ddod, fe ddoi di beth bynnag a ddwed Will Mossop, fe wyddost hynny'n burion.

MAGGIE : Ond dwy' i ddim am ddod, nhad. Dwy' i ddim yn disgwyl byd esmwyth yma wrth geisio'ch cadw chi'n iach. Ond os dwed Will wrthyf mai hynny yw fy nyletswydd fe ddo. (*Yn eistedd wrth y bwrdd fel o'r blaen*)...

HOBSON : Fe wyddost cystal â minnau mai dim ond mater o ffurf gennyf yw gofyn caniatâd Will.

MAGGIE : Mater o ffurf ! (*Yn codi ac yn mynd i'r dde*). Will yn fater o ffurf ! 'Ngwr i !

HOBSON : Tebig iawn, ond nid efe sy'n gwisgo'r "breeches" yn eich tŷ chi.

MAGGIE : 'Ngwr i yw 'ngwr i, nhad, beth bynnag ydyw. A 'nghartre i yw 'nghartre i, cofiwch chi hynny ; ac fe gewch chi dalu am beth ddwedsoc'h chi

DEWIS ANORFOD

am dano wrth Dr. Mac Farlane gynnu fach. Dyw hi ddim yn fraint i fenyw briod ddod yn ol i'r cartref lle trowyd hi allan. (*Yn dod yn ol tua'r canol*).

HOBSON : Edrych yma, Maggie, rwyf ti'n siarad yn blaen ac fe wna' innau'r un modd â thi. Pan fydda' i wedi gwneud 'y meddwl i fyny, mae hynny'n sefyll. Rwyf ti'n dod yma. Doeddwn i ddim am danat pan awgrymodd y Doctor hynny, ond ar f'ened i, rwy' i am iti ddod yn awr. Hyfrydwch fy merched gynt oedd fy nghroesi. Yn awr fe gewch ddod yma i edrych ar fy ôl.

MAGGIE : Pob un o honom ?

HOBSON : Nage. Nid y tair ohonoch. Y ti yw'r hyna'.

MAGGIE : Ond mae gan ddyn arall hawl arna' i.

HOBSON : Fe ro' i hawl iddo ! Onid y fi yw dy dad ?

(*Daw ALICE i mewn ar y chwith. Mae wedi ymwisgo yn rhy wych i weddu i awr mor gynnar yn y dydd ac y mae'n rhodresgar fursennaidd*).

MAGGIE : Ond nid y fi yw'ch unig ferch.

ALICE (*yn dod i'r canol o'r chwith*) : Fuostr ti yma'n hir, Maggie ?

MAGGIE : Rwy' i yma er's tipyn.

ALICE : A, wel, dyw gwraig cyfreithiwr llwyddiannus ddim yn codi mor fore â gwraig crydd cyffredin. Roedd ti wedi codi pan ddaeth Tubby, debig genny'.

MAGGIE : Ddwy awr, cyn hynny. (*Yn symud i'r dde*).

DEWIS ANORFOD

(*Yn mynd at HOBSON*): Rydych yn edrych
iaawn, nhad. Mae digon o liw yn eich wyneb.

HOBSON: Rwy'n wael iawn.

MAGGIE (*yn eistedd*): Dyw e ddim yn dda, Alice.
Mae'r Doctor yn dweyd bod yn rhaid i un o honom ni
ddod i fyw yma i edrych ar ei ol.

ALICE: Rwy' i wedi symud i fyw i'r Crescent.

MAGGIE: Fe glywais dy fod rywle yn y cyfeiriad
hwnnw. Rhaid i gartre rhywun fynd.

ALICE: Dwy' i ddim yn meddwl y gellir disgwyl imi
ddod yn ol yma ar ol y bywyd rwy' i wedi cynefino ag e
yn ddiweddar.

HOBSON: Alice!

ALICE: Wel, rwy' i'n dweyd mai Maggie ddylai
ddod, nhad. Y hi yw'r hyna'. (*Yn dod o flaen y
bwrdd*).

HOBSON: Ac rwy' innau'n dweyd dy fod—

(*Ni chawn glywed beth ydyw hi, canys gwna VICKEY
ei hymddangosiad yn bur effeithiol ac d ymlaen yn llawn
ffudat at HOBSON. A ALICE i'r chwith*).

VICKEY: Nhad bach, rydych chi'n wael! (*Yn ei
gosleidio*).

HOBSON: Vickey! Merch fach i! O'r diwedd
dyma un o'm merched sy'n meddwl rhywbeth am
dana' i.

VICKEY: Wrth gwrs hynny. A beth am y lleill?
(*Yn ymryddhau o'i afael*).

HOBSON: Fe ddoi di i fyw gyda mi yma, Vickey,
oni wnei?

VICKEY: Beth? (*Mae yn symud draw oddiw'rtho*).

DEWIS ANORFOD

MAGGIE: Mae galw am un o honom i edrych ar ei
ol.

VICKEY: Ond nid y fi. All hynny ddim bod dan
yr amgylchiadau.

MAGGIE: Pa amgylchiadau?

ALICE: Wyddost ti ddim?

MAGGIE: Na wn i. (*Mae VICKEY yn sibwrdd wrth
MAGGIE*).

HOBSON: Beth sy'n bod? Beth yw'r holl sisial
yma?

MAGGIE: Nhad, ydych chi ddim yn meddwl y
dylech chi wisgo'ch coler cyn y daw Will? (*Yn mynd
i'r dde ato*).

HOBSON: Gwisgi coler er mwyn Will Mossop!
Beth sy arnat ti, ferch?

VICKEY (*yn dod i'r canol*): Rwy'ti'n wastad yn
llusgo dy wr i mewn i'r fusnes, Maggie, ond does raid
iti wneud hynny o'n blaen ni. Rydym ni'n adnabod
Will yma.

MAGGIE: Nhad, fe alla' i fynd adre neu fe allwch
chi fynd i wisgo'ch coler er mwyn Will, un o'r ddau.
Fe ofala' i y caiff e'i dderbyn gyda pharch. (*Yn mynd
at y ffenestr*).

ALICE: Mae'n siwr genny' y byddech yn gwisgo
coler fodd bynnag, nhad.

HOBSON (*yn codi*): Wrth gwrs hynny. Rwy'n
mynd i wisgo coler. Ond deall di hyn, Maggie, nid er
mwyn Will Mossop. Rwy' i'n gwisgo coler am fod fy
ngwddf yn oer.

(*A HOBSON allan ar y dde*).

DEWIS ANORFOD

MAGGIE (*yn dod i lawr*) : Nawr ynte, p'un o honom ni sydd i ddod yma ?

VICKEY : Does wiw iti edrych arna' i fel yna, Maggie. Rwy' i wedi dweyd wrthyt fy mod yn disgwyl.

MAGGIE : Wela' i ddim fod hynny'n dy ryddhau. Gall hynny ddigwydd i unrhyw un ohonom.

ALICE : Maggie !

MAGGIE : Beth sy'n bod ? Mae plant yn dod i ran menywod priod, ac yr ydym ni ein tair yn briod.

ALICE : Wel, dwy' i ddim yn mynd i dorri i fyny 'nghartre, rwy'n dweyd hynny'n blaen.

VICKEY : Mae 'mhlentyn yn dod gynta gyda mi.

MAGGIE : Rwy'n gweld. Mae gennyt ti lond tŷ o gelfi crand, a thithau'n disgwyl babi, felly gall nhad yfed ei hun i farwolaeth o'ch rhan chi.

ALICE : Dwyt ti ddim yn deg. Fe ddelwn i pe na byddai neb arall. Ond fe wyddost yn burion mai dy ddyletswydd di yw dod, Maggie.

VICKEY : Dyletswydd ? Allwn i feddwl y byddai'n fraint iti fyw yma ar ol blwyddyn mewn dwy seler.

MAGGIE : Rwy' i wedi cael deng mlynedd ar hugain o'r fraint o fyw gyda nhad, diolch. (*A i eistedd wrth y burdd*).

ALICE : Wyt ti'n ceisio dweyd na ddoi di ddim ?

MAGGIE : Nid y fi sydd i benderfynu hynny. Ngwr i sydd i ddweyd.

VICKEY : O taw â'th sôn am dy ŵr o hyd. Os nad oes raid i Alice a minnau ofyn i'n gwyr, rwy'n sicr nad oes dim rhaid iti. Does dim ysbryd abwydyn yn Will,

DEWIS ANORFOD

ac fe wyddom hynny gystal â thithau. (*Yn croesi at y lle tŷ*).

MAGGIE : Falle bod Wil, wedi dod ymlaen dipyn er pan welaist ti e, Vickey. Mae tipyn o amser er hynny, wyddost. Dyna fe nawr yn y siop. Fe â'i i ddodi'r mater ger ei fron.

(*A MAGGIE allan ar y chwith*).

VICKEY : Cadw hi'n ol. (*Yn mynd at y drws*).

ALICE (*yn ei rhwystro*) : Gad iddi wneud y peth yn ei ffordd ei hun. Dwy' i ddim yn dod nol yma.

VICKEY : Na minnau chwaith.

ALICE : Does dim ond Maggie am dani felly.

VICKEY : Ie. Ond rhaid inni fod yn ofalus, Alice. Rhaid iddi beidio cael gormod o'i ffordd ei hun.

ALICE : Ond ein ffordd ni ydyw hefyd, onide ?

VICKEY : Mae ei bod hi'n dod ac nid y ni yn ateb ein diben ni. Ond pan fydd hi gydag ef ei hunan, a ninnau mhell— (*Yn aros*).

ALICE : Ie.

VICKEY : All i ddim gweld beth sydd yn 'y meddwl i, Alice ? Mae mor anodd esbonio. Beth pe byddai nhad yn mynd yn waeth, a nhw, Maggie Will yma, a ninnau, y ti a fi—allan o'r golwg ac allan o'r cyfrif. Wyt ti'n deall ?

ALICE : Fe allai adael 'i arian iddyn' nhw.

VICKEY : Byddai hynny yn hollol annheg â ni.

ALICE : Mae'n rhaid i nhad wneud ei ewyllys ar unwaith. Fe gaiff Albert ddod i'w tynnu i fyny. (*Yn mynd i'r dde*).

VICKEY : Dyna fe, Alice. A rhaid inni beidio

DEWIS ANORFOD

Maggie fod yn rhy hir gyda Will. Dyw hi ddim yn dweyd wrtho beth i'w ddweyd, ac yna fe fydd esgus mai ei farn e yw'r cyfan. (*Mae yn agor y drws ar y chwith*). Wel, Will, beth wyt ti'n wneud ar ben yr ysgol yna?

WILLIE (*tuallan ar y chwith*): Rwy'n taflu golwg dros y stoc yma.

VICKEY (*yn ddig*): Stoc nhad yw e, nid dy stoc di.

WILLIE: Yn hollol felly. Ond os ydw' i i ddod i mewn yma rwy' i am wybod sut le sydd yma.

ALICE: Nid Willie Mossop sy yna, iefa?

VICKEY (*wrth y drws*): Wyt ti'n dod i mewn yma?

(*Daw Will i mewn ar y chwith a Maggie yn ei ddilyn. Nid yw'n hy, ond mae golwg lwyddiannus arno ac y mae'n llawn hunan-hyder. Yng ngŷydd Alice a*

VICKEY *mae'n penderfynu ymddangos ar ei orau*).
WILLIE: Dyna'r cynnig, onide?

VICKEY (*yn y canol*): Wyddwn i ddim am hynny.

WILLIE: Nawr Maggie, cer i alw dy dad i lawr, ar unwaith. Rwy'n brysur iawn yn fy siop i sut bynnag y mae hi yma. (*Tyn Maggie het Will ymaith a'i gosod hi ar y settee, yna â allan drwy'r drws ar y dde*). Fe fu siop Hobson yn enwog yn ei hamser, do'n wir.

ALICE: Beth yn y byd yw dy feddwl di? Mae'n fusnes dda eto.

WILLIE: Ceisiwch chi ei gwerthu ac fe gewch chi weld. Rhwng y stoc a'r ewyllys da, falle y caech chi ddau gant o bunnau. (*A i'r canol*).

VICKEY: Paid â siarad mor ddwl, Will. Dau gant am fusnes fel busnes nhad!

DEWIS ANORFOD

WILLIE: Dau gant—fel y mae hi heddiw. Dyw hi ddim y peth oedd yn ein hamser ni, Vickey.

ALICE: Wyt ti'n ceisio dweyd wrthyf fi nad yw nhad yn gyfoethog?

WILLIE: Pe baech chi heb briodi a chyfreithiwr buasech yn gwybod beth mae nhw'n feddwl am eich tad fel dyn o fusnes heddiw. Fe ddylai Vickey wybod. Mae 'i gwr hi yn siopwr.

VICKEY (*yn ddig*): Fred ni yn siopwr!

WILLIE: On'd dyna beth yw e ynte?

VICKEY: Mae e yn yr "wholesale." Masnachwr yw hynny nid siopwr. A dyw gwerth siop nhad yn ddim iti, Will Mossop. (*Yn symud i'r chwith*).

WILLIE: Wel, roeddwn i'n meddwl y gallai fod. Os yw Maggie a mi'n dod yma—

VICKEY: Rydych yn dod i edrych ar ôl nhad.

WILLIE: Fe all Maggie wneud hynny ag un llaw yn rhwym wrth ei chefn. Fe edrycha' i ar ol y fusnes.

ALICE: Fe wnei di fel y trefnir iti.

WILLIE: Ond y fi fydd yn trefnu, Alice. Os down ni yma, fe ddown ar fy nhelerau i.

VICKEY: Fe fyddan' yn delerau teg.

WILLIE: Fe ofala' i eu bod nhw'n deg imi a Maggie. (*A i'r dde*).

ALICE: Will Mossop, wyt ti'n gwybod â phwy rwyf ti'n siarad?

WILLIE (*yn troi*): Gwn, yn burion. A chwirydd ifainc 'ngwraig i. Mae'r byd wedi newid er pan oeddech chi'n rhoi ordors imi yn y siop, on'd yw, Alice?

DEWIS ANORFOD

ALICE : Ydi. Rwy'n Mrs. Albert Prosser yn awr.

WILLIE : Ydych i bobl tuallan. Ac fe synnech i glywed cynifer o bobl tuallan sy'n fy ngalw i'n Mr Mossop nawr. Rydym yn dod ymlaen yn y byd, onid ydym? (*Symud ALICE i fyny'r llwyfan*).

VICKEY : Mae rhai pobl yn dod ymlaen yn rhy rwydd.

WILLIE : Mater o farn yw hynny. (*Yn dod i'r canol*). Fe wn i i Maggie a mi roi hwb go dda ymlaen i chi pan drefnasom eich gwaddol, ond dwy' i ddim yn credu ein bod yn eiddgeddu am eich bod wedi codi yn y byd.

(*Daw HOBSON a MAGGIE i mewn*).

WILLIE : Bore da, nhad. Mae'n ddrwg genny' glywed nad ydych cystal.

HOBSON : Rwy'n ddyn gwahanol Will.

(*Daw ymlaen ac eistedd yn y gadair fawr ar y dde*).

WILLIE : Roedd yna le i chi i wella.

HOBSON : Beth! (*Mae'n codi*).

MAGGIE : Eisteddych nhad.

WILLIE (*yn eistedd lle bu MAGGIE*) : Ie. Gadewch inni beidio ymdroi gormod gyda'r fusnes yma. Rydych chi wedi 'nghadw i'n aros yn lled hir eisoes ac y mae fy amser i'n werthfawr. Rwy'n brysur iawn yn fy siop.

HOBSON : Ydi dy siop di'n fwy pwysig na 'mywyd i?

WILLIE : Mae'r cwestiwn yna yr un peth â gofyn os ydyw pwys o de yn drymach na phwys o blwm. Rwy'n pryderu ynghylch eich bywyd am fod Maggie'n

DEWIS ANORFOD

pryderu, ond does dim cymaint o bryder arnaf fel ag i beri imi esgeuluso fy musnes fy hun o'ch achos chi.

HOBSON : Roedd genny'r hawl i ddisgwyl amgenach pethau na hyn oddiwthyt ti, Will.

WILLIE : Does gennych yr un hawl i ddisgwyl imi bryderu p'un ai ar lawr neu ar i fyny rydych chi.

MAGGIE : Will!

WILLIE : Beth sy? Fe ddwedaist wrthyt am fod yn feistrolgar onido? (*Mae MAGGIE yn eistedd ar y dde wrth y tân*).

ALICE : Ac yr ydym i aros yn dawel a gweld Maggie a Will yn camdrin nhad ac yntau'n wael.

(*Eu trefn yn awr* : MAGGIE *yn eistedd ar y dde*, HOBSON *yn eistedd yn y gadair fawr*, ALICE *yn eistedd yn y cefn* a rhyngddynt, VICKEY *i'r chwilt wrth y bwrdd*).

WILLIE : Does dim rhaid ichi aros.

HOBSON : Mae hynny'n eitha gwir, Will Mossop.

VICKEY : Nhad! Ydych chi'n ochri gyda fe yn erbyn eich plant chi'ch hunan?

HOBSON : Dyw hynna ddim yn dod yn rhy dda oddiwthyt ti, merch i. Nid oedd un ohonoch chi'ch dwy yn fodlon aberthu eich cartrefi i ddod i ofalu am dana' i. Dydych chi ddim drosof, felly rydych i'm herbyn.

ALICE : Dydym ni ddim yn eich erbyn, nhad. Rydym ni am aros i gael gweld bod Will yn gwneud chware teg â chi.

HOBSON : O! Dwy' i ddim yn abl i edrych ar fy ol fy hunan felly. Rwy' i i gael fy amddiffyn gennych chi'ch dwy rhag ofn imi gael cam—a chan bwy, os

DEWIS ANORFOD

ch yn dda? Gan Will Mossop! Fe alla' i fod wael ond mae digon o gic ynof i drafod dwsin o'i ort e, ac os ydych chi'n meddwl mod i wedi colli hynny o'r dyn ag oedd ynof, fe allwch fynd i rywle arall, allan o 'nhŷ', i feddwl hynny.

VICKEY: O nhad bach—nhad annwyl!

HOBSON: Dwy' i ddim mor annwyl â hynny gennyf ti os oeddet yn gorfod meddwl ddwywaith cyn dod yma i edrych ar fy ol, heb son am wrthod fel y gwnest ti. Byddai merch deilwng o'r enw wedi neidio, ie, byddai wedi llamu fel llo gerllaw cedrwydd Libanus—wrth feddwl am fod yn help i'w thad.

ALICE: A lamodd Maggie?

HOBSON: Mae Maggie dipyn yn hên i lamu fel llo; ond mae hi'n dechre cymodi â'r syniad o ddod i fyw ata' i, a mae hynny'n fwy nag y gelli di ddweyd, Alice, on'd yw e? Yh? Wyt ti'n fodlon dod?

ALICE (yn swrthi): Nagw.

HOBSON: Beth am danat ti ynte, Vickey?

VICKEY: O achos fy mhlentyn, nhad. Rwy'n gorfod—

HOBSON: Paid hidio beth ydyw. Wyt ti am ddod yma.

VICKEY: Nagw.

HOBSON: Felly, y chi sy heb fod yn fodlon, fe allwch 'ngadael i i siarad â'r rhai sy yn fodlon.

ALICE: Ydi hynny'n golygu ein bod i fynd?

HOBSON: Rwy'n deall bod gennych gartrefi i fynd iddynt.

ALICE: O nhad!

DEWIS ANORFOD

HOBSON: Agor y drws iddyn' nhw, Will.
(Cwyd WILL ac egyr y drws. Syll ALICE a VICKEY yn ddipllon. Yna symud ALICE yn ffroenuchel i gyrraedd ei menig).

ALICE: Vickey! (A ALICE at y drws).

VICKEY: Wel, wn i ddim!

MAGGIE (o'r gadair sydd wrth y tŷ): Byddwn yn falch eich gweld amser tē unrhyw brynhawn Sul os byddwch mor ddifalch â dod i'n gweld.

VICKEY: Cardotwyr ar gefn ceffylau. (A VICKEY ac ALICE allan).

WILLIE: Na, dewch wir, does neb yn dal dig. (Daw yn ôl i eistedd wrth y bwrdd ar y dde).

HOBSON: Nawr, machgen i, fe ddweda' i wrthyt beth wna' i.

WILLIE: Ie, fe allwn drin pethau'n well heb foneddigesau balch yn ein plith.

HOBSON: Mae balchder bron â'u lladd nhw, a rwy'n gweld y gwahaniaeth rhyngddy'n' nhw â chi'ch dau, a fydda' i ddim yn brin o gofio hynny. Mae amser i fod yn gyndyn, ac amser i fod yn eofn ac yn hael. Yn awr, rydych chi'ch dau yn dod i'r tŷ yma i fyw. Fe allwch chi gael yr ystafell gefn ar y llofft i gysgu, a'r ystafell yma i fyw gyda mi. Fe gaiff Maggie gadw tŷ ac os bydd ganddi amser yn spâr gall ddod i roi tipyn o help yn y siop. Rwy' i am roi "job" i Will, hefyd. Fe alli di ddod yn ol at dy hen fainc yn y gweithdy, Will, ac fe dala' i dy hen gyflog o ddcunaw swllt yr wythnos iti. Fe rannwn ni—fi a thi—y draul o gadw tŷ, ac os nad yw 'rheina'n delerau da iti,

DEWIS ANORFOD

wn i ddim beth sy. Dyma fi'n rhoi tŷ i chi yn ddi-rent ac yn hanner cadw dy wraig.

WILLIE: Tyrd adref, Maggie. (*Cwyd ac â i'r chwith*).

MAGGIE: Rwy'n meddwl y bydd yn rhaid imi. (*Cwyd MAGGIE*).

HOBSON: Beth yw'r brys?

WILLIE: Falle bod hynny'n newydd i chi. (*Yn symud ychydig i'r dde*). Ond mae genny' fusnes yn Oldfield Road, a rwy'n esgeuluso honno wrth wastraffu fy amser yma.

HOBSON: Gwastraffu amser? Maggie, beth sy mater ar Will? Rwy' i wedi gwneud cynnig teg iddo.

MAGGIE: Mae ganddo siop ei hun i ofalu am dani, nhad.

HOBSON (*yn anghrediniol*): Does dim rhaid i ddyn sy wedi cael cynnig lle da yn siop Hobson bryderu ynghylch ei siop ei hun mewn hen seler wael yn Oldfield Road.

WILLIE: Ga' i ddweyd wrtho, Maggie, neu a gawn ni fynd?

HOBSON: Cer ynte! Dwy' i ddim am gadw dyn sy—(*yn codi*).

MAGGIE: Os aiff e, rwy' innau'n mynd gydag e, nhad. Mae'n well iti siarad yn blaen, Will.

WILLIE: O'r gora fe wna' i hynny. Rydym ni ers blwyddyn bellach yn yr hen seler wael yna; a wyddoch chi beth ydym ni wedi wneud? Rydym wedi talu nol i Mrs. Hepworth bob dimai, a fenthyciodd inni i ddechre byw ac wedi gwneud peth arian dros ben.

DEWIS ANORFOD

Rydym wedi mynd â'ch cwsmeriaid gore chi oddi-arnoch chi. Dim ond seler yw'r siop fel y dwedsoch chi, mae'n wael, ond mae pobl yn dod atom ni ac nid ydynt yn dod atoch chi. Mae'ch busnes chi wedi mynd i lawr fel nad ydych yn gwerthu dim nawr ond clocisiau. Does dim busnes gennych chi, mae Maggie a minnau wedi ei chael, ac yn awr dyma chi'n gofyn iddi ddod i fyw gyda chi a'r cyfan sydd gennych i'w gynniid inni yw fy hen job am ddeunaw swllt yr wythnos—y fi sy'n berchen busnes sydd wedi gyrru'ch busnes chi i'r wal!

HOBSON: Ond—ond—Will Mossop wyt ti, un o'm hen weithwyr i.

WILLIE: Ie. Fe fum yn un o'ch gweithwyr chi, ond iwy' i wedi symud tipyn ymlaen er hynny. Fe briododd eich merch chi â mi ac fe ddechreuodd fy nysgu i. Ac—ac yn awr, fe ddweda' i wrthych beth rwy' i'n fodlon wneud ac fe fydd yn dro da iawn â chi. Rwy'n fodlon cau fy siop—

HOBSON: O! Dyw hynny ddim yn dangos eich bod yn gwneud cystal.

WILLIE: Rwy'n gwneud o'r gofre, ond fe wna' i'n well yma. Fe symuda' i i'r siop yma, a dyma le rwy'n haelfrydig—fe gewch chi fod yn bartner â mi ac fe ro' i hanner yr elw i chi ar yr amod eich bod yn cadw draw o'r fusnes ac heb geisio ymyryd o gwbl â'r siop. (*Yn mynd i'r chwith*).

HOBSON: Partner! Y ti! Yma!

WILLIE: William Mossop, late Hobson, fydd yr enw wrth ben y siop.

MAGGIE : Aros funud, Will. Dwy' i ddim yn
no â hynyna.

HOBSON (*yn mynd ati*) : O, fe ddest o hyd i'th
safod o'r diwedd. Roeddwn i'n meddwl dy fod wedi
colli'th synhwyrâu'n llwyr.

MAGGIE : Gwell peidiodi "late Hobson."

WILLIE (*draw i'r canol*) : Wel, roeddwn i'n meddwl
'i roi e.

HOBSON : Aros di. Rwy' i am wybod os deallais
i'n iawn. (*Daw i'r dde*). Rwy' i i gael hanner yr elw
ar yr amod nad wyf i weithio o gwbl. Ai dyna beth
ddwedaist ti?

WILLIE : Ie.

HOBSON : Wel, fe glywais son am ddigywilydd-dra
o'r blaen ond—

MAGGIE : Mae o'r gora, nhad.

HOBSON : Ond glywaist ti beth ddwedodd e?

MAGGIE : Do. Mae wedi ei setlo. Wedi ei setlo'n
derfynol. (*Yn ei wthio*). Dim ond yr enw sy'n ein
blino yn awr. Fynna' i ddim "late Hobson" Will.

HOBSON : Dwy' i ddim wedi marw eto, ngwas i, ac
fe gei di weid hynny.

MAGGIE : Rwy' i'n meddwl mai Hobson and
Mossop sy orau.

HOBSON : Ei enw e uwchben fy siop i!

WILLIE : Wnaiff dim llai na Mossop and Hobson
tro imi.

MAGGIE : Na.

WILLIE : Mossop and Hobson neu Oldfield Road
inni, Maggie.

MAGGIE : O'r gora Mossop and Hobson. (WILL
yn mynd i'r chwith).

HOBSON : Ond—. (MAGGIE *yn mynd i fyny'r
llwyfan ar y dde*).

WILLIE (*yn agor drws y siop ac yn edrych*) : Fe
newidia' i bethau yn y siop yma, O gwnaf.

(*A drws'r drws a dychwel ar unwaith yn cario cadair
wiail wedi ei thorri*).

HOBSON : Cyfnewidiadau yn fy siop i! (*i'r canol*).

WILLIE : Yn fy siop i. Edrychwch ar y gadair
yma. Ffordd gallwch chi ddisgwyl i gwsmeriaid
parchus ddod i eistedd ar gadair fel hon? Dim ond
seler sydd gennym ni yn Oldfield Road, ond mae'r
cwsmeriaid yn cael eistedd ar gadeiriau ac arnynt
glustogau esmwyth i ffitio eu sgidiau.

HOBSON : Clustogau! Maldodi yw'ch ffordd chi
felly!

(MAGGIE *yn dod i lawr y llwyfan ar y dde*).

WILLIE : Clustogau i'r seler ond cadeiriau Morocco
leather i'r siop yma. Mae pobl yn leicio tipyn o faldod.
Mae hynny'n talu. (*Cymer y gadair allan a daw yn ôl
ar unwaith*). Rhaid gosod carped ar lawr y siop hefyd.

HOBSON : Carped! Morocco leather! Ddyn
ifanc, wyt ti'n meddwl bod y siop yma yn St. Anne's
Square, Manchester?

WILLIE : Ddim eto. Ond fe fydd.

HOBSON : Beth yn y byd sydd yn 'i ben e? (*Gofyn
hyn i'r nefoedd*).

WILLIE : Dyw hi ddim pellach o Chapel Street i
St. Anne's Square nag ydyw hi o Oldfield Road i

DEWIS ANORFOD

Chapel Street. Rwy' i wedi gwneud un naid mewn blwyddyn ac os arhosa' i dipyn, fe alla' i wneud y llall. (HOBSON *yn eistedd*). Maggie, rwy'n credu y gall dy dad fynd am dro yn yr awyr iach ar ol hyn. Mae hyn wedi dod arno braidd yn sydyn, debig genny'. Beth pe buasit yn mynd am dro gydag e i offis Albert Prosser a gofyn i Albert dynnu allan y cytundeb rhyngom ni.

HOBSON (*yn edrych yn druenus yn gyntaf i gyfeiriad* MAGGIE, *yna i gyfeiriad* WILLIE, *ac yn codi yn ufudd*). Fe a' i i nol fy het. (A HOBSON *allan drwy'r drws canol*).

WILLIE: Mae e ar lawr yn deg, Maggie. Rwy'n ofni imi fod yn rhy galed arno. (*I'r canol ar y dde*).

MAGGIE: Does raid iti boeni dim.

WILLIE: Fe ddwedais bethau ofnadwy wrtho ac fel pe bawn o ddifrif hefyd.

MAGGIE: Oeddet ti ddim o ddifri?

WILLIE: Oeddwn i? Oeddwn—falle. Dyna'r gwaeatha'—ond inni fod yn galed arno fe o bawb. Fe ddwedaist rhyf am fod yn gryf a defnyddio'r grym ewyllys a ddne'th imi drwot ti, ond fy hen feistr yw e, a—

MAGGIE: A thithau yw'r meistr newydd.

WILLIE: Meistr Siop Hobson! Synied gwych ofnadwy. Oeddwn i'n swinio'n feistrolgar, Maggie?

MAGGIE: Gwnest yn eitha da.

WILLIE (*yn eistedd wrth y bwrdd ar y dde*): Ond O, doeddwn i ddim yn teimlo felly. Fe ddaeth geiriau o 'ngenuau oedd yn peri imi arswydo at fy hyfrdra, a phan

DEWIS ANORFOD

orfu imi ddadleu â thi ynghylch yr enw, roeddwn yn crynu yn fy sgidiau, yn wir iti. Roeddwn wedi fy nghario ymaith fel pe bai, neu ni fuaswn wedi beiddio dy groesi di, Maggie.

MAGGIE: Paid spwlyio pethau nawr, Will. (*Yn mynd ato*). Rwy'ti y dyn a wnes i ac rwy'n falch ohonot.

WILLIE: Dyw dy falchder di ynof fi yn ddim wrth y balchder sydd gennyf fi ynot ti. A mae hynny'n fy atgoffa. Mae genny' ryw beth i'w wneud. (*Cwyd i geisio ei het*).

MAGGIE: Beth?

WILLIE (*yn dod i lawr ar y chwith*): O—ynglyn â'r gwelliantau yma.

MAGGIE: Wnei di ddim heb ymgynghori â mi?

WILLIE: Rwy'n meddwl gwneud hyn, ferch. (*A ati a chymer ei llaw*).

MAGGIE: Beth wyt ti'n wneud? Gad ti 'modrwy i yn llonydd. (*Tyn ei llaw yn rhydd*).

WILLIE: Rwy'ti wedi gwisgo un bres yn ddigon hir.

MAGGIE: Fe wisga' i'r fodrwy yma am byth, Will.

WILLIE: Roeddwn i am brynu un deilwng—aur—iti, Maggie.

MAGGIE: Dwy' i ddim yn erbyn hynny. Fe wisga' i'r un aur er mwyn ei dangos ond mae'r fodrwy bres i aros lle ddaist ti hi, Will; ac os byth y deunw ni'n rhy gyfoethog ac yn rhy falch, fe wnawn eistedd gyda'n gilydd yn dawel fach a syllu'n hir arni rhag inni.

DEWIS ANORFOD

hohio'r gwir am danom ein hunain—eh—fachgen?

(Mae yn ei gyffwrdd yn serchus).

WILLIE : Ie, ferch ! *(Yn ei chusanu).*

(Daw HOBSON i mewn drwy'r drws ar y dde a'i het am ei ben).

MAGGIE : Rydych yn barod, nhad. Dewch ymlaen at Albert.

HOBSON *(yn addfwyn)* : O'r gora, Maggie fach.

(A MAGGIE a HOBSON heibio o flaen WILL ac ant allan ar y chwith. Daw WILL i lawr y llwyfan a syndod, gorfoledd ac anghrediniaeth ar ei wedd, a cheisi i fynegi'r hyn na ellir ei fynegi drwy ddweyd—)

WILLIE : 'Rargian fawr ! *(Try i ddilyn y lleill).*

LLEN.